# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 3 Hydref 2024

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Hybrid

**Rhag-gyfarfod preifat** (09.15-09.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (09.30-12.20)

**1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

(09.30)

**2 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 - sesiwn dystiolaeth gydag awdurdodau cyhoeddus**

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 45)

Steve Wilson - Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff, - Dŵr Cymru

Rhys Owen, Pennaeth Cadwraeth, Coetir ac Amaethyddiaeth, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Tirweddau Cymru

Gwyn Teague, Rheolwr Tîm Amgylchedd Naturiol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Rebecca Sharp, Arweinydd Tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

Papur - Dŵr Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Papur - Tirweddau Cymru

Papur - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Egwyl** (10.30-10.40)

## 3 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030 - sesiwn dystiolaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

(10.40-11.40) (Tudalennau 46 - 55)

Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu - Cyfoeth Naturiol Cymru

Ruth Jenkins, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol - Cyfoeth Naturiol Cymru

Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau'r De-orllewin - Cyfoeth Naturiol Cymru

**Dogfennau atodol:**

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

**Egwyl** (11.40-11.50)

## 4 Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar faterion cyfoes

(11.50-12.20) (Tudalennau 56 - 69)

Siân Williams, Pennaeth Gweithrediadau'r Gogledd-orllewin - Cyfoeth Naturiol Cymru

Nadia De Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu - Cyfoeth Naturiol Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil - Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru ar nifer o faterion amserol

Papur - Cyfoeth Naturiol Cymru

## 5 Papurau i'w nodi (12.20)

### 5.1 Sefydliad Coedwigoedd y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol

(Tudalennau 70 - 73)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Sefydliad Coedwigoedd y DU / Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig mewn perthynas â Sefydliad Coedwigoedd y DU / Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol

### 5.2 Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru

(Tudalennau 74 - 82)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas

Ymateb gan Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas (Saesneg yn unig)

Llythyr oddi wrth y Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol ym Maes Llyfrgelloedd a Gwybodaeth (CILIP) Cymru at Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru.

Llythyr gan Glerc y Pwyllgor Deisebau at Brif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas â chau canolfannau ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.

### 5.3 Cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

(Tudalennau 83 - 85)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes mewn perthynas â dadl ar y cyd ynghylch adroddiadau’r Pwyllgorau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Cyswllt Ffermio

**5.4 Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024**

(Tudalennau 86 - 87)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024

**5.5 P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent**

(Tudalen 88)

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Cadeirydd mewn perthynas â Deiseb P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan y Cadeirydd at Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas â Deiseb P-06-1395 Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent

**5.6 Y Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**

(Tudalen 89)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â'r Grŵp Rhyngweinidogol ar yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

**5.7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25**

(Tudalennau 90 - 112)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru i argymhelliad 16 yn adroddiad y Pwyllgor: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Ymateb oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru

i argymhelliad 9 ac argymhelliad 13 yn adroddiad y Pwyllgor: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25

Ymateb gan Lywodraeth Cymru i Adolygiad y Grŵp Trawsbleidiol ar y Ddeddf Teithio Llesol o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (Saesneg yn unig)

Ymateb gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig i argymhelliad 21 o adroddiad y Pwyllgor: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 (Saesneg yn unig)

**5.8 Adfer safleoedd glo brig**

(Tudalennau 113 - 130)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i adroddiad y Pwyllgor: Adfer safleoedd glo brig (Saesneg yn unig)

Ymateb gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor: Adfer safleoedd glo brig

**5.9 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Dŵr (Mesurau Arbennig)**

(Tudalennau 131 - 132)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Bil Dŵr y DU (Mesurau Arbennig)

**5.10 Craffu'n gyffredinol ar waith y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

(Tudalennau 133 - 143)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd yn dilyn y sesiwn graffu weinidogol ar 26 Mehefin 2024

**5.11 Deddf Seilwaith (Cymru) 2024**

(Tudalen 144)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio at y Cadeirydd mewn perthynas â Deddf Seilwaith (Cymru) 2024

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(12.20)

**Cyfarfod preifat** (12.20-13.00)

## 7 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitemau 2 a 3

## 8 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 4

## 9 Trafod y llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth

(Tudalennau 145 - 149)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr drafft at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â thrafnidiaeth (Saesneg yn unig)

## 10 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

(Tudalennau 150 - 161)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus) (Saesneg yn unig)

Nodyn Polisi - Bil Gwasanaethau Rheilffordd i Deithwyr (Perchnogaeth Gyhoeddus)

## 11 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr

(Tudalennau 162 - 168)

**Dogfennau atodol:**

Nodyn cyfreithiol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ynni Prydain Fawr (Saesneg yn unig)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**HRLN 39 - Tystiolaeth gan: Dŵr Cymru Welsh Water**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030** | **Halting and reversing the loss of nature by 2030**

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Trwy e-bost: seneddclimate@senedd.wales

29 Awst 2024

Annwyl Llŷr,

Diolch i chi am y gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth gerbron Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd am atal a gwrthdroi colledion natur erbyn 2030. Cyn i ni gyflwyno tystiolaeth lafar, hoffem ddarparu'r cyflwyniad ysgrifenedig yma, a byddem yn hapus i drafod unrhyw bwyntiau pellach y mae Aelodau am eu codi yn y sesiwn casglu gwybodaeth ar 3 Hydref 2024.

Rydyn ni'n wynebu argyfwng bioamrywiaeth yng Nghymru, lle mae ein hamgylchedd dan fygythiad yn sgil colli, dryllio a gor-ecsbloetio cynefinoedd. Rydyn ni'n cefnogi penderfyniad y Senedd i gyhoeddi Argyfwng Byd Natur yn 2021, ac wedi ymrwymo i chwarae ein rhan yng Nghynllun Adfer Byd Natur Llywodraeth Cymru mewn ymdrech i wella iechyd a gwytnwch yr ecosystemau rydyn ni i gyd yn dibynnu arnynt.

Fel cwmni dŵr mwyaf Cymru, rydyn ni'n dibynnu ar amgylchedd iach i gynnal y gwasanaethau a ddarparwn ar gyfer ein cwsmeriaid, ac mae gennym rôl allweddol i'w chwarae wrth ei ddiogelu. Rydyn ni felly wedi ymrwymo'n llwyr i'w amddiffyn ac i gyfoethogi bioamrywiaeth ar draws ein hardal weithredu i gyd, ac i gyfrannu mewn ffordd ystyrlon at iechyd a gwytnwch hirdymor ecosystemau Cymru –  trwy amddiffyn cynefinoedd, ymdrechion cydweithredol parhaus, cynlluniau gweithredu clir a mesurau cadwraeth ymarferol.

Mae ein gweledigaeth glir hyd 2050 yn dyst o'n hymrwymiad i amddiffyn a chyfoethogi bioamrywiaeth, wrth osod yr amgylchedd wrth galon popeth a wnawn. Mae ein Strategaeth Bioamrywiaeth yn pennu ein huchelgeisiau, amcanion a chynlluniau gweithredu i gynnal a gwella gwytnwch ecolegol a bioamrywiaeth ar draws ein hasedau gweithredol a'r tir sydd yn ein gofal, a hynny o fewn ein dyletswyddau craidd. Ein dull ni o weithredu yw cynorthwyo Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth sy'n ein hwynebu mewn ffordd sy'n gyson â chyflawni ein swyddogaethau. Mae ein hamcanion strategol yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

1. Adfer cynefinoedd a gofalu am y safleoedd a amddiffynnir sydd yn ein perchnogaeth
2. Gweithio mewn partneriaeth â'n rheoleiddwyr a'n rhanddeiliaid a hybu cyfleoedd ar gyfer gwaith ymchwil
3. Rheoli rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yn well
4. Datblygu ac ymgysylltu ein cydweithwyr, a gweithio'n well i ddeall disgwyliadau ein cwsmeriaid.
5. Cynnal a gwella bioamrywiaeth yn ein hasedau gweithredol ac ar y tir sydd yn ein gofal.

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) mae gofyniad arnom i baratoi a chyhoeddi adroddiad i ddangos ein bod wedi cyflawni ein dyletswydd o ran bioamrywiaeth pob tair blynedd. Mae gennym ni ddyletswydd uwch, lle mae Adran 6 yn gofyn bod awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys cwmnïau dŵr) yn 'ceisio' cynnal a gwella bioamrywiaeth yn hytrach na 'rhoi sylw' i'w gadwraeth yn unig. Er mwyn cyflawni'r amcan yma, mae angen i ni fod yn rhagweithiol wrth ddeall effeithiau posibl ein gweithrediadau fel y gallwn baratoi a chymryd camau priodol i liniaru'r effeithiau.

Teitl ein hadroddiad diweddaraf yw 'Gwneud y Peth Iawn dros Natur 2022' ac mae'n nodi'r cynnydd yn erbyn ein cynlluniau a bennwyd yn y cynllun gwreiddiol, 'Neilltuo Amser ar gyfer Natur' a gyhoeddwyd yn 2020. Dyma rai o'n gweithgareddau allweddol hyd yn hyn:

- **Buddsoddi mewn diogelu'r amgylchedd:** Rydyn ni'n buddsoddi'n helaeth yn ein seilwaith ac yn teilwra cynlluniau i leihau ffosfforws, sef y prif beth sy'n gyrru methiannau ecolegol, yn ein hafonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Dyma ambell i esiampl:
    - buddsoddi dros £9 miliwn er mwyn helpu i ddod â phedair afon yng Nghymru i gyflwr da - sef afonydd Teifi, Cleddau, Tywi ac Wysg, gan wella tua 500 cilomedr o afonydd i gyd.
    - buddsoddi £60m ychwanegol yn benodol er mwyn lleihau'r ffosfforws yn y pump Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) sydd yn ein hardal weithredu. Bydd darparu'r rhaglen gynhwysfawr yma o waith uwchraddio ar ein gweithfeydd trin yn dileu 90% o'n cyfran deg o ffosfforws erbyn 2030.
    - buddsoddi dros £4.5 miliwn yng nghadwraeth corsydd crynedig. Bydd yr ardaloedd a dargedir yn cynnwys Cors Crymlyn ar gyrion Abertawe yn ogystal â Thyddewi yn Sir Benfro a Phenrhyn Llŷn. Yn ogystal ag adfer y tir mawn, bydd y prosiect yma'n helpu i gynnal rhywogaethau prin iawn - gan gynnwys corryn mwyaf Prydain, corryn rafft y ffen yng Nghrymlyn a glöyn byw brith y gors yn Sir Benfro a Gwynedd.

- **Atebion sy'n seiliedig ar natur:** Un ffordd o ddarparu buddion ehangach trwy fuddsoddi, a darparu 'gwerth gorau' gan gymryd ffactorau fel lles y gymuned, allyriannau nwyon tŷ gwydr a bioamrywiaeth i ystyriaeth yw'r atebion hyn. Rydyn ni'n croesawu'r pwys a roddir i atebion sy'n seiliedig ar natur yn SPS Llywodraeth Cymru a Methodoleg Derfynol Ofwat ar gyfer PR24. Rydyn ni am ehangu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur dros gyfnodau'r AMPs nesaf. Caiff y rhaglen buddsoddi amgylcheddol sydd ar y gweill effaith fuddiol fwy o lawer yng Nghymru os yw'n cael ei chyflawni'n bennaf trwy atebion sy'n seiliedig ar natur yn hytrach na thrwy atebion 'llwyd' neu 'goncrit' traddodiadol. Fe fuom ni'n flaengar yn y diwydiant dŵr wrth fabwysiadu atebion ar sail natur yn gynnar, yn arbennig yn achos ein dull GlawLif o weithredu, a ddyluniwyd i arafu a lleihau llif y dŵr storm i garthffosydd yn ardal Llanelli, a fyddai'n cael ei ryddhau wedyn yn aber afon Llwchwr.

- **Y Gronfa Amgylcheddol:** Lansiwyd ein Cronfa Amgylcheddol, sy'n cynnig cymorth ariannol i brosiectau cymunedol a'r trydydd sector sydd â ffocws ar wella bioamrywiaeth. Mae'r gronfa wedi gweld tipyn o lwyddiant, gan fuddsoddi dros £3m mewn amrywiaeth o brosiectau er budd rhywogaethau neu gynefinoedd a amddiffynnir o ran cadwraeth natur hyd yn hyn.

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

- **Prosiectau Arloesol:** Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu cynlluniau arloesol fel defnyddio "Agri Sound" sy'n monitro presenoldeb peillwyr (fel gwenyn, gloÿnnod byw ac ati) ac yn casglu data er mwyn cyfoethogi gweithgarwch peillwyr, yn ogystal â'n datblygiadau gwlyptir sy'n trin dŵr trwy ddulliau naturiol wrth greu cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt.

Mae ein holl waith bioamrywiaeth bron a bod dros y 10 mlynedd diwethaf wedi bod mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) neu ymddiriedolaethau amgylcheddol fel yr RSPB. Byddwn ni'n adeiladu ar y partneriaethau hyn er mwyn datblygu gwelliannau i amgylcheddau dyfrol a daearol i'n galluogi i gyflawni ein swyddogaethau, fel yn achos mae prosiect LIFE afon Dyfrdwy. Prosiect £6.8m sy'n cael ei ariannu trwy nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Dŵr Cymru, i drawsnewid afon Dyfrdwy a'i ddalgylch trwy adfer yr afon a'i amgylchoedd i'w cyflwr naturiol yw hwn. Afon Dyfrdwy yw afon fwyaf y gogledd ac mae'n cael ei rheoleiddio'n dynn yn ogystal â bod yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA).

Nod y prosiect, a ddechreuodd yn 2019 ac y disgwylir ei gwblhau yn Rhagfyr 2024, yw codi'r rhwystrau i fudiad pysgod a gwella cysylltedd ecolegol ehangach, adfer neu wella nodweddion ffisegol ar hyd glannau'r afon, gwella arferion amaethyddol a rheoli tir coedwig er mwyn lleihau faint o faetholion a sediment sy'n llifo i'r ACA, a sefydlu a meithrin perthnasau hirdymor cadarnhaol â rhanddeiliaid yn ystod oes y prosiect a'r tu hwnt. Bydd y prosiect yn rheoli cadwraeth misglen berlog yr afon hefyd, sydd dan fygythiad difrifol iawn. Dyma esiamplau o'r cynnydd allweddol a wnaed yn rhan o'r prosiect yma:

- Plannwyd 15,000 o goed ar lan yr afon
- Sefydlogwyd 730 metr o'r glannau'n naturiol
- Ychwanegwyd 4,250 tunnell o raean at yr afon
- Codwyd 36 cilomedr o ffensys i greu coridorau ar hyd lan yr afon
- Ailgyflwynwyd 1,000 tunnell o glogfeini i'r afon
- Tynnwyd neu addaswyd 7 rhwystr er mwyn hwyluso ymfudiad y pysgod

Fel busnes cyfrifol sy'n gweithredu ar ran pobl Cymru, rydyn ni'n parhau i leihau ein hôl troed amgylcheddol, boed hynny mewn perthynas â maetholion mewn afonydd, allyriannau carbon, neu effaith ein rhaglenni cyfalaf ar fioamrywiaeth. Lle bynnag y bo modd, rydyn ni am ddefnyddio dulliau cydgysylltiedig, a gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i lywio atebion lle'r ydyn ni'n defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael gyda'n gilydd yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl er budd yr amgylchedd a bioamrywiaeth.

***Effeithiolrwydd polisïau / cronfeydd / dyletswyddau statudol cyfredol wrth atal a gwrthdroi colledion natur erbyn 2030***

Weithiau gall y gwahanol ddulliau sy'n cael eu mabwysiadu ymysg rheoleiddwyr effeithio ar effeithiolrwydd polisïau, cronfeydd a dyletswyddau statudol wrth atal a gwrthdroi byd natur erbyn 2030. Er enghraifft, mae'r gwahaniaethau rhwng rheoli mawndiroedd ac arferion coedwigaeth yn dangos sut y gall diffyg aliniad lesteirio ymdrechion cadwraeth. Mae set gyson a manwl o gynlluniau

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

gweithredu'n hanfodol i lywio'r holl randdeiliaid i'r un cyfeiriad, gan sicrhau bod pob parti'n deall ac yn dilyn strategaeth gyffredin i gyflawni'r un nodau amgylcheddol.

Mae esiampl arall sy'n amlygu'r angen am ddull cyson o weithredu o ran polisi'n ymwneud â'r gwahaniaeth rhwng polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wrth daclo ansawdd dŵr afonol. Yng Nghymru, yn gyson â pholisi Llywodraeth Cymru, mae'r ffocws ar daclo'r gorlifoedd storm sy'n achosi difrod amgylcheddol yn gyntaf yn hytrach na lleihau amledd y gorlifoedd, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Mae hyn er mwyn ein galluogi i fynd ymhellach ac yn gynt i wella ansawdd dŵr afonol ac arfordirol yng Nghymru o fewn yr adnoddau sydd gennym ni,. Mae taclo amledd y gorlifoedd yn unig yn annhebygol o gyflawni hyn, am y gallai olygu ein bod ni'n canolbwyntio ar y gorlifoedd storm sy'n gweithredu'n aml, ond nad ydynt o reidrwydd yn achosi difrod i'r amgylchedd. Mae hyn am nad yw pob gorlif sy'n cael ei ryddhau yn ddigwyddiad llygru neu'n achosi difrod, am y dylai'r hylif a ryddheir fod yn ddŵr glaw yn bennaf, sy'n golygu bod unrhyw garthion wedi eu gwanhau'n sylweddol.

Rydyn ni'n cefnogi dull Llywodraeth a CNC o weithredu i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i fynd i'r afael â holl elfennau cydrannol y broblem amgylcheddol allweddol yma, a byddwn ni'n cyfrannu at y dull cymeradwy yma mewn ffordd briodol.

***Cynnydd tuag at weithredu Argymhellion yr Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth***

Fel rhanddeiliad allweddol sydd wedi ymrwymo i amddiffyn yr amgylchedd, rydyn ni am dynnu sylw at rai meysydd lle'r ydyn ni'n credu y byddai rhagor o eglurder a gwaith cydweithredol yn gallu sicrhau deilliannau llwyddiannus yn sgil Argymhellion yr Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth.

Byddem yn croesawu rhagor o gyngor yn sgil argymhellion yr Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth. Wrth rannu'r sialens yma, mae hi'n hanfodol fod gan randdeiliaid fel Dŵr Cymru Welsh Water ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r nodau a'r disgwyliadau, a chynllun clir i gysoni ein hymdrechion yn fwy effeithiol a gweithio tuag at nodau cyffredin mewn ffordd gydlynol. Byddai gweithdy a fyddai'n caniatáu i randdeiliaid rannu arferion gorau, hyrwyddo cyfleoedd cydweithredol, a thrafod sut i roi deilliannau'r Archwiliad Dwfn i Fioamrywiaeth ar waith yn ymarferol yn helpu i sefydlu dull 'Tîm Cymru' o weithredu.

Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i gyfrannu at nodau bioamrywiaeth Cymru trwy'r fforwm PR24. Fodd bynnag, gyda mwy o gydweithrediad, rydyn ni'n credu y gallwn wneud mwy o gynnydd o lawer tuag at amddiffyn a chyfoethogi'r amgylchedd naturiol yng Nghymru gan arwain at well deilliannau amgylcheddol.

***Y Trefniadau Cyfredol ar gyfer Monitro Bioamrywiaeth***

Mae monitro bioamrywiaeth mewn ffordd effeithiol a chyson er mwyn sicrhau bod ein hecosystemau naturiol yn cael eu hamddiffyn a'u cyfoethogi yn hanfodol. Wrth edrych tua'r dyfodol, yn rhan o'n Cynllun Busnes ar gyfer 2025-30, mae gennym gynlluniau i fonitro bioamrywiaeth ymhellach. Rydyn ni'n bwriadu defnyddio mesur o fioamrywiaeth a fydd yn ein galluogi ni i fonitro safleoedd penodol yn effeithiol. Fodd bynnag, rydyn ni'n credu bod angen fframwaith asesu cyffredinol ehangach - un sy'n cwmpasu'r holl randdeiliaid perthnasol ac yn caniatáu ar gyfer cymariaethau ystyrlon ar draws y

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

gwahanol safleoedd a rhanbarthau. Byddai hynny'n hwyluso dealltwriaeth fwy cynhwysfawr o dueddiadau o ran bioamrywiaeth ac yn cynnal ymdrechion cadwraeth fwy cydlynol dros amgylchedd naturiol Cymru.

Rydyn ni'n gweld bod yna botensial hefyd i fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg a syniadau newydd er mwyn helpu i gasglu gwybodaeth yn fwy effeithiol a chyfoethogi ein gallu i fonitro bioamrywiaeth. Gallai integreiddio hyn wella cywirdeb a dibynadwyedd ein hasesiadau, gan arwain at benderfyniadau mwy gwybodus a strategaethau cadwraeth mwy effeithiol.

***Mae angen Dulliau Newydd i atal a Gwrthdroi Colledion Natur erbyn 2030***

Rydyn ni wedi ymrwymo i chwarae ein rhan wrth atal a gwrthdroi colledion natur. Fodd bynnag, mae yna sawl maes allweddol y mae angen eu hystyried:

Yn gyntaf, mae dull 'Tîm Cymru' cydlynol o weithredu'n hanfodol er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf posibl o ymdrechion cadwraeth. I hwyluso hyn, mae angen pennu rôl neu swyddogaeth benodol i dynnu'r amryw o randdeiliaid, gan gynnwys busnesau, cyrff y llywodraeth a grwpiau cymunedol ynghyd. Dylai'r rôl yma ganolbwyntio ar feithrin cydweithio, clustnodi synergeddau, a chydlynu ymdrechion ar y cyd er mwyn cyflawni nodau amgylcheddol cyffredin.

Mae ymwybyddiaeth ac addysg yn gydrannau sylfaenol o unrhyw strategaeth effeithiol. Mae hi'n bwysig bod mentrau addysgol yn dechrau gartref, a'u bod yn cynnwys pob sector. Yn Dŵr Cymru, rydyn ni'n falch o'n darpariaeth addysg, sy'n gosod bioamrywiaeth a newid hinsawdd wrth galon popeth. Mae ein rhaglen wedi cyrraedd 780,000 o ddisgyblion ers i'r rhaglen ddechrau ym 1998.

Mae cefnogaeth dros gyflymu'r defnydd o atebion sy'n seiliedig ar natur (NBS) yn hanfodol am fod angen dull newydd o fynd ati i atal a gwrthdroi colledion natur. Gall integreiddio NBS i brosiectau seilwaith fel safon gyfoethogi ein gwytnwch amgylcheddol a sicrhau bod y dulliau yma'n dod yn rhan reolaidd o'n harferion datblygu.

Er bod 2030 yn garreg filltir hanfodol yn y frwydr yn erbyn dirywiad amgylcheddol, bydd angen mwy o amser, ac ymdrechion pwrpasol a chynaliadwy, i gyflawni llawer o'r amcanion o ran cadwraeth. Gall ymwybyddiaeth am wahanol gylchoedd ariannu ymysg cwmnïau a sefydliadau hwyluso gwell cydlyniant a dyraniad o ran adnoddau. Bydd cysoni mecanweithiau ac amserlenni ariannu'n helpu i dynnu rhanddeiliaid ynghyd, a sicrhau gweithrediad mwy effeithiol o ran mentrau bioamrywiaeth.

**Crynodeb**

Byddem yn croesawu ymweliad gan y Pwyllgor i un o'n Hatebion diweddaraf yn Seiliedig ar Natur (NBS) yn y Dafarn Newydd ger Pont-y-pŵl, sy'n trin y deunydd sy'n cael ei ryddhau o SO cyn ei ryddhau i Afon Lwyd. Bydd y buddsoddiad o £13m yn cyflawni deilliant 'Dim Effaith' ac mae'r ateb yn gweld gollyngiadau storm yn pasio trwy sgrin fecanyddol newydd yn gyntaf, cyn i'r llif fynd trwy gyfres o welyau brwyn awyredig ac ymlaen wedyn i wlyptiroedd adeiledig a fydd yn darparu triniaeth naturiol cyn ei ryddhau i'r afon. Bydd hyn yn creu cynefin gwlyptir ar gyfer bywyd dyfrol, mwy o fioamrywiaeth, ardaloedd coetir newydd, a gwell amwynder cyhoeddus ar ffurf llwybrau cerdded a mannau chwarae naturiol.

Dŵr Cymru Welsh Water

Linea
Fortran Road
St Mellons
Cardiff
CF3 0LT

Linea
Heol Fortran
Llaneirwg
Caerdydd
CF3 0LT

02920 740450
dwrcymru.com

Byddai Dŵr Cymru Welsh Water yn cefnogi dull cydweithredol, â digon o adnoddau a strwythur clir, o fynd ati i atal a gwrthdroi colledion natur. Rydyn ni'n annog mabwysiadu dull 'Tîm Cymru' o weithredu, gwell ymdrechion addysgol, cynlluniau gweithredu realistaidd, integreiddio atebion sy'n seiliedig ar natur, targedau ymarferol ac alinio cylchoedd ariannu'n well er mwyn cyflawni'r amcanion pwysig yma.

Diolch i chi am eich ystyriaeth i'r mater yma. Gobeithio bod hyn wedi bod o gymorth i chi, edrychwn ymlaen at y cyfle i drafod hyn ymhellach yn y sesiwn tystiolaeth lafar ym mis Hydref.

Yn gywir

**Steve Wilson**
**Rheolwr Gyfarwyddwr, Gwasanaethau Dŵr Gwastraff**
**Dŵr Cymru Welsh Water**

**HRLN 07 - Tystiolaeth gan: Tirweddau Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030** | **Halting and reversing the loss of nature by 2030**

## 1. Eich barn ar effeithiolrwydd polisïau / cyllid / dyletswyddau statudol cyfredol wrth atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Caiff dibenion Tirweddau Dynodedig (sef Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a elwir bellach yn Dirweddau Cenedlaethol) eu nodi mewn deddfwriaeth.
Tirweddau Cenedlaethol a Pharciau Cenedlaethol:
Gwarchod a chyfoethogi harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol eu hardaloedd.
Hefyd:
Mae'n ofynnol i Barciau Cenedlaethol hyrwyddo cyfleoedd sy'n galluogi'r cyhoedd i fwynhau a deall eu nodweddion arbennig.
Caiff Tirweddau Cenedlaethol eu hannog i ddiwallu'r galw am gyfleoedd hamdden, cyn belled ag y bo hynny'n cyd-fynd ag anghenion amaethyddiaeth, coedwigaeth a defnydd arall.
Mae'r dyletswyddau presennol ar gyrff cyhoeddus a nodir yn a62 Deddf yr Amgylchedd 1995 ac a85 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 i 'roi sylw i' ddibenion Tirweddau Dynodedig, ynghyd â'r gofynion cyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i ddefnyddio'r pum ffordd o weithio wrth fwrw ymlaen â'u hamcanion llesiant, yn cynnig ysgogiad pellach iddynt weithio ar y cyd ar raddfa genedlaethol strategol. Bydd hyn yn helpu i ysgogi'r newid systematig sy'n ofynnol er mwyn ymdrin â heriau hollbwysig ar lefel strategol genedlaethol a bydd yn cynnig cyd-destun i gynlluniau rheoli unigol ar gyfer Tirweddau Dynodedig.
Yn ddiweddar, cafodd y ddyletswydd i 'roi sylw' ei chryfhau yn Lloegr trwy gyflwyno gofyniad i fod yn fwy rhagweithiol. Awgrymwn y byddai'n werthfawr mynd ati i fonitro effaith y newid hwn, gyda golwg ar asesu'r angen am newid deddfwriaethol yn nhymor nesaf y Senedd.
Mae'r broses sydd ynghlwm wrth lunio cynlluniau rheoli Tirweddau Dynodedig yn

ddull hollbwysig o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn bodloni eu dyletswydd i 'roi sylw', a hefyd mae'n cynnig fframwaith integreiddio ar gyfer cyflawni'r amrywiaeth o argymhellion a nodir yng nghynllun gweithredu'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.
Mae'r adran 'Pontydd i'r Dyfodol' yn adroddiad SoNaRR Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig dull trawsnewidiol o ran y modd y gall Cymru bontio'r bwlch rhwng y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa y mae'n rhaid ei chyrraedd er mwyn gallu sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae Tirweddau Dynodedig mewn sefyllfa dda i fwrw ymlaen â'r dull hwn.

## 2. Beth yw eich barn ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mewn ymateb i Argymhelliad 3 yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth: Rhyddhau potensial tirweddau dynodedig (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gyflawni mwy ar gyfer natur a 30 erbyn 30, ffurfiwyd Gweithgor Tirweddau Dynodedig yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.
Prif ddiben y grŵp hwn yw bwrw ymlaen â'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd gan y Tirweddau Dynodedig, Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru, a'i roi ar waith.
Mae'r Gweithgor Tirweddau Dynodedig yn atebol i Grŵp Craidd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.
Hefyd, mae'r Archwiliad Dwfn yn nodi'r angen i gymryd camau'n ddi-oed i gynorthwyo'r Parciau Cenedlaethol a'r Tirweddau Dynodedig i ddatblygu cynlluniau gweithredu â blaenoriaeth ar gyfer adfer natur, gan eu hymwreiddio mewn cynlluniau strategol.
Ymhellach, mae cylch gwaith y grŵp hwn yn cynnwys argymell unrhyw feysydd gwaith ychwanegol sy'n angenrheidiol i gyflymu'r broses gyflawni.

## 3. Beth yw eich barn ar y trefniadau presennol ar gyfer monitro bioamrywiaeth?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mae natur eang y broses dynodi tirweddau yn cynnig dull o sicrhau ecosystemau cynhyrchiol, cadarn ac iach a gaiff eu rheoli'n gynaliadwy ac a fydd yn cyfrannu at gysylltu cynefinoedd â'i gilydd.
Mae sicrhau dull systematig, dadansoddol a strategol o adfer natur ar draws y Tirweddau Dynodedig mor allweddol i reolaeth effeithiol ag effeithiolrwydd y

gwaith a wneir ar lefel leol.
Mae'r capasiti i gyflawni yn amrywio ledled Cymru, a gall hyn effeithio'n fawr ar allu timau Tirweddau Dynodedig i ymgysylltu a chyd-ddatblygu mapiau strategol; felly, mae angen cyfres o fapiau y gellir eu defnyddio mewn modd rhagnodol neu fapiau y gellir ychwanegu gwybodaeth ac adnoddau lleol atynt.
Mewn perthynas â chamau gweithredu Adfer Natur, cynigir y dylid canolbwyntio ar y meysydd sydd â'r angen mwyaf a'r meysydd sydd â'r potensial mwyaf yn y tymor byr-canolig. Mae'r gwaith mapio hyd yn hyn wedi pennu llinell sylfaen bwysig y gellir adeiladu arni; ond yn y tymor byr-canolig, mae angen buddsoddi'n barhaus ym mhroses gydgysylltu strategol y gwaith hwn ar gyfer pob un o'r Tirweddau Dynodedig.

**4. Beth yw eich barn ar ddulliau newydd sydd eu hangen i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030?**

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mae grŵp Tirweddau Dynodedig yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth wedi argymell y dylid sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Awdurdodau Perthnasol a ategir gan fersiwn ddiweddaraf canllawiau a62/a85 er mwyn cydgysylltu ymateb mwy strategol i arfer y ddyletswydd i 'roi sylw'.
Mae'r grŵp wedi pwysleisio pa mor bwysig yw cynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni er budd natur a'r hinsawdd. Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd ar gyfer Cymru yn cynnig cyfle i gynllun ffermio integreiddio dibenion Tirweddau Dynodedig gyda chymelliadau ar gyfer arferion ffermio cadarnhaol, gan adlewyrchu pa mor bwysig a gwerthfawr yw buddsoddi yn eu nodweddion arbennig.

Mae grŵp Tirweddau Dynodedig yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (y grŵp) wedi cynnig ffrydiau gwaith y dylid gweithredu ymhellach arnynt:
Diffinio rôl ar gyfer Tirweddau Dynodedig yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy
Gan gydnabod pa mor bwysig yw cynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir i gyflawni er budd natur a'r hinsawdd, mae Tirweddau Dynodedig yn bwriadu diffinio'u rôl yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a gweithio mewn modd a fydd yn gwneud y gorau o'u cyfraniad. Bydd hyn yn cynnwys cais ar y cyd i'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig.
Ailgydweddu Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol â'r argyfyngau natur a hinsawdd
Mewn ymateb i ganllawiau a ddaw i'r amlwg mewn perthynas â Chynlluniau Rheoli, mae'r grŵp yn bwriadu ystyried sut y gall y broses sydd ynghlwm wrth Gynlluniau Rheoli adlewyrchu'r argyfyngau natur a hinsawdd yn well, y modd y

gall adroddiadau ar Gyflwr y Dirwedd gynorthwyo i bennu amcanion, a'r ffordd orau o ddiffinio a hyrwyddo dulliau rheoli effeithiol a dulliau monitro ac adrodd trylwyr.

Mapio Natur

Mae'r grŵp yn bwriadu parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i archwilio'r ffordd orau o gyflwyno gwaith mapio natur trwy'r holl Dirweddau Dynodedig. Bydd y gwaith yn cynnwys ystyried setiau data ymhellach, mapio cyflwr Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, targedu a blaenoriaethu.

Meithrin Cydweithredu

Gan adeiladu ar ddull Tîm Cymru, bydd y grŵp yn archwilio sut i hyrwyddo Tirweddau Dynodedig fel 'Tirweddau i Bawb', gan gynnwys negeseuon rhagweithiol tactegol a strategol yn ymwneud â natur a'r hinsawdd i ategu newid cadarnhaol mewn ymddygiad. Bydd y gwaith yn cynnwys hyfforddi a dysgu mewn perthynas â llythrennedd hinsawdd a natur a rhaglen waith i godi ymwybyddiaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chyrff strategol eraill.

Adnoddau ar gyfer gweithredu

Bydd y gwaith yn cynnwys archwilio cyfleoedd Cyllid Gwyrdd a pharatoi i ymwreiddio hyn oll mewn ffrydiau adnoddau. Cyflwyno tystiolaeth a dadleuon gerbron Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau y caiff Tirweddau Dynodedig eu hariannu'n ddigonol, yn gynaliadwy ac yn hyblyg gogyfer adfer natur.

Gwella prosesau

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried materion yn ymwneud â chydsynio a thrwyddedu, a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiweddaru canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a datblygu a ganiateir.

Gweithio'n deg

Bydd y grŵp yn ystyried sut y gellir ymgorffori'r cysyniad 'Pontio Teg ar gyfer Natur' yn fwy ffurfiol yn y Pontio Teg ehangach mewn perthynas â'r fframwaith datgarboneiddio a sero net. Hefyd, bydd y grŵp yn archwilio sut y gellir symleiddio ac integreiddio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer yr amgylchedd, newid hinsawdd a materion gwledig ac asesiadau, camau neu ofynion adrodd ehangach.

Ystyried y ddeddfwriaeth

Bydd y grŵp yn ystyried yr angen am ddeddfwriaeth yn nhymor nesaf y Senedd er mwyn diwygio dibenion statudol, dyletswyddau a threfniadau llywodraethu Tirweddau Dynodedig fel y gellir eu paratoi'n well i ysgogi adferiad natur.

## 5. A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn?

(Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Er mwyn cyflawni targedau hinsawdd a natur, rydym yn ddibynnol ar newid ymddygiadol yn ogystal ag ar ddeddfwriaeth

Mae arloesi yn angenrheidiol, ond dim ond trwy gynnwys amrywiaeth eang o bobl o bob cefndir yn ein gwaith y bydd modd cyflawni hyn.

Mae datblygu cysylltiad â natur yn hollbwysig o ran ysgogi ymddygiad sy'n bleidiol i'r amgylchedd. Mae modd i gyfleoedd mynediad pwrpasol gynyddu ymgysylltiad â natur, ynghyd â gwella llesiant meddwl ac ysgogi ymddygiad sy'n bleidiol i'r amgylchedd.

Gall Tirweddau Dynodedig fod yn hollbwysig o ran ysbrydoli ac ysgogi ymdeimlad o gysylltiad â natur a stiwardiaeth natur trwy godi ymwybyddiaeth o dirweddau a natur, trwy hyrwyddo mynediad cyfrifol ac antur bwrpasol, a thrwy ddwyn cymunedau ynghyd dros eu gwerthoedd cyffredin. Er enghraifft, caiff adnoddau addysgol newydd sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru eu datblygu fel rhan o brosiect cydweithredol rhwng pob un o'r wyth Tirwedd Ddynodedig. Bydd yr adnoddau hygyrch yn canolbwyntio ar gysylltiad â natur: gan hyrwyddo dysgu, dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a stiwardiaeth mewn perthynas â thirweddau dynodedig a'r amgylchedd ehangach.

Mae hyrwyddo mwy ar y Cod Cefn Gwlad, gan adeiladu ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Cod Cefn Gwlad newydd a Rhaglen Diwygio Mynediad Llywodraeth Cymru, yn bwysig o ran creu diwylliant sy'n llawn parch, cydweithrediad a chysylltiad yn nhirweddau ac amgylchedd naturiol Cymru, gan feithrin ymdeimlad o stiwardiaeth ac ymddygiadau sy'n bleidiol i gadwraeth – gan ysgogi cysylltiad â natur ar raddfa briodol.

**HRLN 17 - Tystiolaeth gan: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030** | **Halting and reversing the loss of nature by 2030**

## 1. Eich barn ar effeithiolrwydd polisïau / cyllid / dyletswyddau statudol cyfredol wrth atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

1 Er bod polisïau a dyletswyddau statudol cyfredol yn ffurfio sail gadarn ar gyfer adfer natur, mae nifer o heriau a bylchau yn parhau wrth fynd i'r afael â graddfa'r argyfwng bioamrywiaeth. Gellir cryfhau polisïau a'u hintegreiddio fwy, er enghraifft, mae sawl maes polisi yn defnyddio ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu wrth symud ymlaen, ond mae hyn yn cael ei wneud ar wahân , a all ei gwneud yn anodd ar lefel leol i integreiddio gweithgareddau.

2 Mae angen i ddulliau o fynd i'r afael â Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth gael eu hintegreiddio yn well i bopeth a wnawn, er mwyn sicrhau bod adfer natur yn cael ei gynnwys mewn cynigion ar gam cynnar. Rydym yn gweithio gydag Uchelgais Gogledd Cymru i ddatblygu canllawiau ar ddatblygu achos busnes, a fydd yn integreiddio cyfleoedd datgarboneiddio a bioamrywiaeth ar gam cynnar mewn prosiectau. Rydym yn gobeithio y gall hyn liniaru ychydig o'r materion yn y maes hwn.

3 Er bod y fframwaith presennol yn ymddangos yn ddigonol, gall y dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd ymyraethau natur godi o fonitro hirdymor yn unig, er enghraifft, yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a gyhoeddwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae her go iawn yn nhermau mesur yr effeithiolrwydd hwn, gan achosi problemau yn nhermau adrodd, ond hefyd wrth gynnig tystiolaeth ar gyfiawnhad ariannol yr ymyraethau.

4 Mae gweithrediad yn cael ei gyfyngu gan adnoddau ar gyfer cyflawni, cholli arbenigedd parhaus o fewn llywodraeth leol. Er ein bod yn cefnogi'r achos ar gyfer dulliau uchelgeisiol o weithio er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng natur, mae

angen i gyflwyniad dyletswyddau newydd ar gynghorau gyd-fynd â rhaglen ariannu tymor canolig i hirdymor.

5 Rydym yn derbyn bod adrodd a thargedau yn allweddol i fesur llwyddiant ymyraethau a pholisïau. Serch hynny, ni fyddwn yn cefnogi targedau neu adrodd newydd yn cael ei 'orfodi' ar gynghorau oherwydd yr anawsterau wrth fesur y gweithgareddau hyn yn gywir. Ar hyn o bryd, mae her wirioneddol ar gyfer y llywodraeth leol i flaenoriaethu'r maes hwn o waith wrth wynebu pwysau eraill. Mae cynghorau yn ardystio'r egwyddor o atal colli bioamrywiaeth yn llwyr, sy'n cael ei amlygu gan y mwyafrif o gynghorau sy'n datgan argyfwng natur. Serch hynny, mae'r hinsawdd ariannol sydd ohoni'n ei gwneud yn heriol i ddarparu pob gweithgaredd yr hoffa'r Cyngor eu cyflawni, pan maent yn cystadlu am adnoddau yn erbyn gwasanaethau allweddol neu brosiectau isadeiledd (gan gydnabod y gall y dulliau a gymerwyd i ddarparu'r gwasanaethau a'r prosiectau isadeiledd hynny gyfrannu at ein nodau bioamrywiaeth eu hunain). Gall targedau gosbi cynghorau efallai, am beidio gwneud digon, pan, mewn gwirionedd maent yn wynebu sawl her, ar yr un pryd, sy'n aml yn gwrthdaro.

6 Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rolau allweddol mewn trawsnewid i fod yn ddi-garbon, gan graffu ar ddatblygiad, rheoli ystadau coetir sylweddol, hwyluso rhaglenni Rhywogaethau Estron Goresgynnol, a symud rhaglenni adfer natur yn eu blaenau drwy ystod o bolisïau a gweithgareddau. Serch hynny, nid yw'r gweithgareddau hyn yn agored i raglenni ariannu tymor byr, ond mae angen ymrwymiadau gweithredol hirdymor. O ganlyniad, rydym yn teimlo bod lefel y cyllid yn annigonol er mwyn galluogi graddfa'r ddarpariaeth angenrheidiol i atal a gwrthdroi colli natur, ac mae angen ymrwymiadau hirdymor i sicrhau bod rheolaeth a chynnal a chadw ymyraethau yn mynd tu hwnt i'r cam creu a gosod cychwynnol. Gwellir gwneud mwy, gweithio gyda LlC i sicrhau intergeiddiad arferion da colli natur ar draws pob maes strategol, ynghyd â newid hinsawdd yn genedlaethol ac yn lleol.

7 Mae sylwad mwy penodol yn cynnwys yr angen am reolaeth lymach o fewn polisïau cynllunio, gan fod modd iddynt fod yn wan, ac yn hawdd eu trechu gan ddiwydiant nad ydynt yn cofleidio'r cyfeiriad cenedlaethol efallai, os nad yw'n cael effaith ar elw.

Yn ogystal â hynny, gall y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2026 chwarae rôl effeithiol yn y maes adfer natur ehangach. Serch hynny, mae angen i raglenni megis plannu coed gael tystiolaeth fwy cadarn o ran lle mae cyfleoedd effeithiol yn bodoli, a chefnogaeth ar gyfer rheoli coetiroedd presennol.

## 2. Beth yw eich barn ar gynnydd tuag at weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

8 Rydym yn dal i aros am fanylion gan Lywodraeth Cymru ynghylch goblygiadau argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, ac o ganlyniad, nid oes modd darparu adborth manwl.

Serch hynny, mae'n bwysig nodi bod cyfleoedd cyllid a chydweithio drwy Bartneriaethau Natur Lleol wedi bod yn gadarnhaol, gan alluogi cynnydd cadarnhaol mewn ystod o feysydd. Yn ogystal â hynny, efallai bod cyfle i gryfhau polisi cynllunio yn PPW 12, er mwyn sicrhau bod dull cyfannol o weithio mewn perthynas ag Adfer Natur (dull cam wrth gam i ddarparu budd net ar gyfer bioamrywiaeth). Mae Isadeiledd Gwyrdd a Choed wedi bod yn ganlyniad cadarnhaol.

Fel rhai o adolygiadau eraill LlC, er enghraifft, adolygiad ôl-weithredol y ddeddf draenio cynaliadwy, mae cynnydd gyda chyflawni rhai o'r argymhellion wedi bod yn araf. O ganlyniad felly, mae angen cynhyrchu perchnogaeth genedlaethol o'r adolygiadau/argymhellion hyn (gyda chyfle am fewnbwn gan lywodraeth leol a phartneriaid eraill lle bo'n briodol) heb ychwanegu rhagor o faich ar gynghorau, ac i LlC gyflawni ar yr adolygiadau/argymhellion hyn yn ddigonol.

9 Gan ystyried Argymhelliad 5, cynyddu gallu, newid ymddygiad, codi ymwybyddiaeth a datblygu sgiliau, mae'n amlwg fod bwlch mawr yma sy'n endemig ledled sectorau yng Nghymru. Hoffwn weld rhagor o gynnydd ac integreiddiad gyda Chynllun Gweithredu Sgiliau LlC sy'n cefnogi'r cynllun sero net.

## 3. Beth yw eich barn ar y trefniadau presennol ar gyfer monitro bioamrywiaeth?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

10 Mae anawsterau gwirioneddol wrth fonitro bioamrywiaeth, gan y gall gymryd sawl blwyddyn i weld canlyniadau. Yn ogystal â hynny, mae bioamrywiaeth yn aml yn cael ei fonitro mewn modd tameidiog gan wahanol fudd-ddeiliaid, sy'n ei gwneud yn anodd deall goblygiadau gweithgareddau ar raddfa fawr neu hybu mentrau ar raddfa fwy. Mae cyfleoedd posib i wella llwybrau sydd eisoes yn bodoli er mwyn monitro bioamrywiaeth, er enghraifft drwy SAB neu'r broses gynllunio, ond byddai angen ystyried sgiliau a chapasiti yn ofalus.

11 Mae'n werth nodi ein bod eisoes yn gweld diffyg capasiti wrth fonitro dangosyddion bioamrywiaeth megis Dangosyddion Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU. Er bod dangosyddion dirprwyol yn ddefnyddiol, megis ardal o dir pwrpasol fel Safleoedd o Bwysigrwydd o safbwynt Cadwraeth Natur, gweithrediad polisïau bioamrywiaeth yn y Cynllun Datblygu Lleol, a'r nifer o wirfoddolwyr sy'n ymgysylltu mewn gweithgareddau cadwraeth natur, mae ganddynt gyfyngiadau, ac nid ydynt yn cefnogi monitro hirdymor rhywogaethau a chynefinoedd unigol. Byddai angen adnoddau ychwanegol ar awdurdodau lleol i allu darparu hyn yn effeithiol.

12. Rydym yn nodi'r targedau bioamrywiaeth arfaethedig yn y Papur Gwyn ar egwyddorion amgylcheddol, trefniadau llywodraethu a thargedau bioamrywiaeth, a gallai cytuno ar hyn helpu i fonitro bioamrywiaeth ynghyd ag adroddiadau adran 6. Serch hynny, byddai angen datblygu'r targedau hyn mewn partneriaeth â llywodraeth leol i sicrhau bod modd eu cyflawni, ac ystyried goblygiadau ar adnoddau yn briodol.

## 4. Beth yw eich barn ar ddulliau newydd sydd eu hangen i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

12 Mae 88% o Gymru'n dir amaethyddol, ac mae angen dull newydd o weithio i fynd i'r afael ag effaith amaeth ar newid hinsawdd, bioamrywiaeth, rheolaeth ar gynefinoedd ac ansawdd dŵr drwy 'Gynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru', sydd wedi cael ei ohirio nes 2026. Er ein bod yn ymwybodol o'r effeithiau ariannol gan SFS ar dirfeddiannwyr, mae tir sy'n perthyn i'r cyhoedd a'r trydydd sector yn annigonol i wrthdroi colli natur, a dim ond buddion cyfyngedig all hyn ei gynnig oherwydd darnio gofodau.

Rydym yn credu bod angen cynnal gwaith pellach yn sgil Papur Gwyn Llywodraeth Cymru '*Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy*: Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach' cyn y gallwn fod yn hyderus, mae gennym yr hawl i ffframwaith er mwyn atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030.

13 Yn yr un modd ag ymatebion blaenorol, mae angen ymrwymiad hirdymor gyda chyllid (10 mlynedd+), mae angen i fioamrywiaeth gael gwerth ariannol (gwasanaethau ecosystem), ac mae angen ystyried datrysiadau ar sail natur yn ofalus

**5. A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn?**

(Byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

14 Mae Archwilio Cymru yn ymgymryd ag astudiaeth genedlaethol ar Fioamrywiaeth a Chadernid Dyletswyddau Ecosystem dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Rydym yn disgwyl iddi gael ei chyhoeddi (ar y gweill yn hydref 2024) ac wedi cyflwyno tystiolaeth debyg i nodi eu hadroddiad.

# WLGA CONSULTATION RESPONSE on ‘*Halting and reversing the loss of nature by 2030*’, Climate Change, Environment and Infrastructure Committee, Welsh Parliament

## 22nd August 2024

## INTRODUCTION

1. The Welsh Local Government Association (WLGA) represents the 22 local authorities in Wales, and the three national park authorities and three fire and rescue authorities are associate members.
2. The WLGA is a politically led cross-party organisation, with the leaders from all local authorities determining policy through the Executive Board and the wider WLGA Council. The WLGA also appoints senior members as Spokespersons and Deputy Spokespersons to provide a national lead on policy matters on behalf of local government.
3. The WLGA works closely with and is often advised by professional advisors and professional associations from local government, however, the WLGA is the representative body for local government and provides the collective, political voice of local government in Wales.

---

**FOR FURTHER INFORMATION PLEASE CONTACT**


Jean-Francois Dulong, Climate Change Mitigation and Adaptation Policy Officer

[redacted]

Welsh Local Government Association
One Canal Parade
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
Tel: 029 2046 8600

**HRLN 31 - Tystiolaeth gan: Cyfoeth Naturiol Cymru**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030** | **Halting and reversing the loss of nature by 2030**

# Tystiolaeth Ysgrifenedig: Atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn 2030

## 1. Eich barn ar effeithiolrwydd polisïau / cronfeydd / dyletswyddau statudol cyfredol o ran atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn 2030.

Rhaid i natur fod yn rhan annatod o bob penderfyniad. Mae atal a gwrthdroi colli byd natur eisoes wedi'i nodi yn fframwaith cyfreithiol Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Cynllunio (Cymru). Mae gan Bolisi Adnoddau Naturiol Cymru a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, Cymru'r Dyfodol, Polisi Cynllunio Cymru a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru hefyd nodau, amcanion a pholisïau sy'n cefnogi bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Fodd bynnag, mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 ac Adroddiad Sefyllfa Byd Natur 2023 ill dau'n dangos yn glir bod colli bioamrywiaeth yn parhau. Er mwyn symud Cymru i adferiad o ran byd natur, rhaid inni fod yn feiddgar ac yn rhagweithiol wrth weithredu deddfwriaeth a pholisi presennol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru), wrth wneud dull rheoli y Cenhedloedd Unedig ar lefel yr ecosystem yn gyfraith, yn darparu fframwaith i helpu i gydlynu polisi a chyflawni. Cyflwynodd y Ddeddf asesiad cynaliadwyedd pob pum mlynedd ar gyfer Cymru, ymateb o ran polisi sy'n berthnasol ar draws Cabinet Cymru, a chynlluniau gweithredu, sef yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Datganiadau Ardal. Mae llawer o botensial sydd heb ei ddefnyddio o ran y pwerau a'r dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae gan yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol y potensial i ymgysylltu â chymdeithas sifil yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol Cymru, yn ogystal â bwydo gwybodaeth i'r system cynllunio gwlad a thref. Gall y Polisi Adnoddau Naturiol nodi polisi amgylcheddol wedi'i adnewyddu a fydd yn weithredol ar draws Cabinet Cymru. Gall Datganiadau Ardal gydlynu'r sector cyhoeddus i helpu i gyflawni'r Polisi Adnoddau Naturiol, gan ddefnyddio pwerau adran 11 a 12 yn ogystal â bwydo i'r system gynllunio.

Mae Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn ddarnau sylfaenol o ddeddfwriaeth ar gyfer diogelu cynefinoedd a rhywogaethau. Gall y rhain fod yn effeithiol wrth helpu i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth, yn enwedig pan gânt eu cefnogi gan y system cynllunio gofodol a gorfodi priodol. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn darparu sylfaen ddefnyddiol i ymgorffori gwytnwch ecosystemau yn y system gynllunio, ond megis dechrau mae effeithiolrwydd y dull budd bioamrywiaeth net presennol o hyd ac nid yw ei effaith yn glir.

Mae mecanweithiau ac offer statudol mwy diweddar yn profi i fod yn ddefnyddiol wrth ymgorffori byd natur yn ehangach yn y broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru, er bod cael adnoddau i gefnogi rhoi hyn ar waith yn heriol.O dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru), mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus – gan gynnwys CNC – ystyried natur drwy eu swyddogaethau. O ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol, mae trafodaethau cychwynnol ar y gweill rhwng partneriaid cyrff gwasanaethau cyhoeddus ynghylch prif ffrydio bioamrywiaeth, gyda natur a hinsawdd bellach yn amlwg iawn yng nghynlluniau llesiant diweddaraf y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.Fodd bynnag, ni all cyrff cyhoeddus yn unig fynd i'r afael ag achosion colli natur. Gall mecanweithiau eraill, megis Datganiadau Ardal, fod â rôl bwysig wrth gefnogi gwaith partneriaeth ehangach sydd ar waith, er enghraifft wrth ddatblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth ledled Cymru.

Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn cael ei drosi'n bolisi a deddfwriaeth yng Nghymru i gyflawni ymrwymiadau a chamau gweithredu Cymru fel rhan o Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol newydd y DU.Yng Nghymru, rydym yn defnyddio dulliau cydweithredol, megis drwy argymhellion Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth y Gweinidog, gan roi safleoedd gwarchodedig wrth wraidd ecosystemau cydnerth ac addasu ein ffyrdd o weithio. Yn unol â hynny, ac yn adlewyrchu'r cyfeiriad polisi a deddfwriaethol presennol ac yn y dyfodol, mae adfer natur wrth wraidd cynllun corfforaethol CNC i sicrhau bod natur a chymdeithas yn ffynnu gyda'i gilydd yn seiliedig ar ymrwymiad a rennir i ddefnydd cynaliadwy sydd hefyd yn darparu ar gyfer anghenion hanfodol, megis bwyd, dŵr ac ynni.

Yn ein rôl unigryw fel corff cadwraeth natur statudol Cymru, rydym yn gwybod bod mynediad at dystiolaeth ac arbenigedd perthnasol yn hanfodol i gefnogi penderfyniadau cadarn, gan gynnwys penderfyniadau ariannol, i gyflawni ein holl swyddogaethau niferus, a bod data a gwybodaeth yn aml yn dyddio ac yn gallu bod yn anghyflawn neu o ansawdd gwael. Mae bod yn hyblyg yn ariannol yn ein galluogi i dargedu'r seiliau tystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer prosiectau a rhaglenni byw ac rydym yn chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag eraill yng Nghymru a thu hwnt i alluogi tystiolaeth a chyllid arloesol a chydgysylltiedig i lywio penderfyniadau gwell.

O safbwynt rheoleiddio, adroddir ar y sbectrwm eang o offer sydd ar gael, a gymhwysir yn unol â'r Cod Rheoleiddwyr a'n Hegwyddorion Rheoleiddio, yn ein hadroddiad rheoleiddio blynyddol (Cyfoeth Naturiol Cymru / Adroddiad Rheoleiddio Blynyddol 2022). Pan fo camau gorfodi yn arwain at ddirwyon, rydym yn dadlau bod y cronfeydd hynny'n cael eu hailfuddsoddi mewn gweithgareddau adfer natur.

Bydd maint yr argyfwng natur, a mynd i'r afael â'r heriau sy'n ymwneud ag atal colli bioamrywiaeth a sicrhau adferiad, hefyd yn gorfodi newidiadau trawsnewidiol. Mae hyn yn cynnwys cynhyrchu mwy o adnoddau ariannol, sicrhau llywodraethu sy'n ymgorffori natur yn y broses o wneud penderfyniadau sefydliadol, defnyddio datblygiadau gwyddonol a ffrydiau data a thystiolaeth cadarn y gellir eu hailadrodd, ac addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd i gefnogi newidiadau cymdeithasol ac ymddygiadol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur. Mae cydweithredu rhwng llywodraethau, awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau, cyrff anllywodraethol, busnesau ac unigolion i gyflawni hyn yn hanfodol.

## 2. Eich barn ar y cynnydd tuag at weithredu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth.

Mae argymhellion a chamau gweithredu yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn gymysgedd o gamau newydd i'w cymryd ar unwaith, ehangu a chyflymu cynlluniau presennol, a chamau gweithredu tymor hwy sy'n cyflawni drwy gydol tymor y Senedd a thu hwnt. Mae angen y camau gweithredu uchelgeisiol ac integredig hyn i roi natur ar y llwybr at adferiad; mae cyflawni'r camau gweithredu yn gofyn am ymateb ar y cyd, momentwm, adnoddau, ac ymrwymiad hirdymor gan bawb.

Roedd CNC wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o ddatblygu'r argymhellion ac mae'n sefydliad allweddol wrth eu cyflawni. Wrth iddynt symud i'w hymgorffori, rydym yn parhau i gyfrannu at Grŵp Craidd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth gyda Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, yn cadeirio'r Grŵp Arbenigol ar Fonitro a Thystiolaeth. Mae ein harbenigwyr yn ymwneud â Grŵp Arbenigol Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal ac Ardaloedd Enghreifftiol Adfer Natur, Grŵp Arbenigol Tirweddau Dynodedig, a Phartneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru.Trwy ein hymwneud â'r grwpiau hyn, rydym wedi bod yn gyrru gweithgareddau'n gyflym gyda chanfyddiadau cychwynnol, adroddiadau a chamau nesaf wedi'u paratoi. Mae'r newid i ymgorffori wedi gweld cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud ar nifer o gamau gweithredu uniongyrchol.Rydym yn cyfrannu diweddariadau o ran cynnydd at yr adroddiad chwe-misol (Mai 2023) a datganiad ysgrifenedig diweddar y Gweinidog (Gorffennaf 2024).

O ran cyflawni argymhellion penodol, mae CNC, er enghraifft, wedi darparu map rhwydweithiau natur, gan gyhoeddi Rhwydweithiau Ecolegol â Blaenoriaeth daearol a morol. Mae'r dystiolaeth hon yn cefnogi blaenoriaethu gweithredu ar lawr gwlad ar gyfer cydnerthedd ecosystemau a byddwn yn parhau i fireinio'r mapiau hyn i gefnogi camau gweithredu pellach wedi'u targedu gennym ni a'n partneriaid. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ei Rhaglen Rhwydweithiau Natur, sy'n parhau i ehangu i wella cyflwr a chysylltedd safleoedd gwarchodedig trwy weithredu uniongyrchol o fewn CNC a thrwy raglen grantiau ehangach a weinyddir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Rydym yn cwmpasu'r adolygiad o'r gyfres Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i lywio rhaglen hysbysu gyflymedig, ac mae capasiti cyflawni'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd yn cael ei gynyddu i darged o adfer 45,000 hectar o fawndir erbyn 2050.Mae CNC wedi cynhyrchu canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer awdurdodau tirweddau dynodedig ar lunio eu cynlluniau rheoli, sydd bellach yn cryfhau'r cyngor ar gyfer ymgorffori camau adfer natur ar raddfa tirwedd. Er hynny, mae cynnydd pellach yn dibynnu ar ymdrechion a chydweithio parhaus i gyrraedd y targed o 30 erbyn 30, sy'n dibynnu ar allu partneriaid i gyfrannu yn absenoldeb adnoddau penodol megis cyllid craidd.

Fodd bynnag, nid mater i Lywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn unig yw cyflawni argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, ac ni ddylid ei gymryd i fod felly. Mae dull Tîm Cymru cydweithredol o weithio'n gyflym yn hanfodol i gyflawni'r raddfa a'r uchelgais sydd eu hangen i gefnogi cyflawni'r targed 30 erbyn 30 yn ystyrlon. Mae Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru yn bwrw ymlaen â nifer o feysydd gwaith galluogi/trawsnewidiol i gefnogi canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein moroedd yn unol ag argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, ac mae corff sylweddol o waith cydweithredol a chyflawni bellach wedi'i sefydlu o'u cwmpas. Bwriedir cyhoeddi Strategaeth Llythrennedd Morol i Gymru yn ddiweddarach yn 2024 gyda phartneriaid yn cydweithio ar gynnig ariannu i gyflawni'r camau gweithredu a nodwyd. Ar yr un pryd, mae

partneriaid yn gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i sefydlu Cronfa Forol Cymru, gan ddwyn ynghyd arian preifat i ddarparu gweithgareddau sy'n cefnogi adferiad byd natur yn y môr. Yn yr enghreifftiau cadarnhaol hyn, mae CNC a Llywodraeth Cymru yn rhan o bartneriaeth ehangach sy'n ceisio archwilio a llywio camau gweithredu ar y cyd. Rydym yn awgrymu bod angen cynllun gweithredu ar gyfer yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth cyfan sy'n galluogi Tîm Cymru i gyflawni'r argymhellion ar y cyd i sicrhau perchnogaeth glir ac amserlenni disgwyliedig ar gyfer camau gweithredu, gan felly sicrhau mwy o atebolrwydd a thryloywder.

Mae grwpiau arbenigol yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth sy'n gweithio ar Fframwaith y Mesurau Cadwraeth Effeithiol Eraill ar sail Ardal, tirweddau dynodedig a gwaith monitro wedi amlygu'r heriau a'r ddibyniaeth ar 'ewyllys da' gan aelodau'r grŵp yn hytrach na chael unrhyw adnoddau penodol neu ychwanegol i helpu i ysgogi effaith cyflawni a gweithredu. Mae diffyg capasiti gan bartneriaid yn ffactor cyfyngol ar gyfer datblygu argymhellion yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth ymhellach. Mae hyn wedi rhoi pwysau ychwanegol ar CNC er mwyn galluogi cynnydd i gael ei wneud drwy waith y grwpiau hyn.

## 3. Eich barn ar y trefniadau presennol ar gyfer monitro bioamrywiaeth.

Mae monitro bioamrywiaeth yng Nghymru yn cynnwys amrediad o weithgareddau pwysig. Mae'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yn defnyddio'r data sydd ar gael o raglenni monitro niferus ac yn defnyddio asesiadau fel yr Adroddiad Sefyllfa Byd Natur a'r Adroddiad Asesu Byd-eang ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystemau. Dywedodd Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 *fod angen mwy o ddata arnom i olrhain newid mewn bioamrywiaeth, pennu effeithiolrwydd polisi bioamrywiaeth, cyflawni canlyniadau strategol, a darparu rhybuddion am newidiadau i'r amgylchedd. Gallai datblygiadau technegol fel eDNA, mapio cyfleoedd, ac arsylwi ar y Ddaear fod o gymorth i gyflawni hyn, ond ni ddylai hyn ddisodli arbenigedd ac arsylwi amhrisiadwy ar lawr gwlad.*

Yn realistig, nid oes gennym y gallu i fynd i'r afael â'r holl fylchau mewn tystiolaeth a nodwyd. Er ein bod yn cydnabod y byddai hyn yn ddymunol, rydym yn mynd i'r afael â bylchau mewn tystiolaeth trwy ddefnydd wedi'i flaenoriaethu o'n hadnoddau sydd wedi'i dargedu'n benodol ar sail risg er mwyn canolbwyntio ar gynhyrchu tystiolaeth lle mae ei angen arnom fwyaf. Mae ymagwedd o'r fath sy'n seiliedig ar risg yn helpu i liniaru'r risgiau sy'n ymwneud â bylchau mewn tystiolaeth ac yn helpu i sicrhau'r effaith fwyaf posibl a'n dealltwriaeth o bwysau strategol allweddol ar ein hamgylchedd. Er enghraifft, rydym yn defnyddio offer asesu risg i nodi pryd a ble y dylid monitro dŵr fel rhan o'n cynllunio blynyddol o'r rhaglen.

Mae'r goblygiadau tystiolaeth penodol ar gyfer cefnogi 30 erbyn 30 yn parhau i grisialu. Mae CNC yn cymryd rhan weithredol ym mhroses yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth a gyda'r grwpiau arbenigol ategol i nodi'r anghenion tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a sut y gellid mynd i'r afael â nhw mewn ffyrdd costeffeithiol. Rydym wedi ymrwymo i barhad is-

grŵp monitro a thystiolaeth yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth i ddatblygu dulliau o gynhyrchu'r dystiolaeth ofynnol ac i ddeall goblygiadau cost ystod o opsiynau.

Mae'r gwersi a ddysgwyd o'r Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn amlygu heriau, gan gynnwys diffyg adnoddau sy'n bodoli eisoes i fonitro safleoedd gwarchodedig (mae 55% o'r rhain gyda statws sy'n anhysbys), sy'n ymestyn dros ~11% o Gymru. Mae ehangu monitro i gynnwys o leiaf 30% o'r tir a'r môr yn her sylweddol yn wyneb cyfyngiadau o ran adnoddau, rheoli data, safoni, blaenoriaethu monitro a meithrin gallu.Mae goresgyn y rhwystrau hyn yn gofyn am ymdrech ar y cyd i fuddsoddi mewn seilwaith monitro, datblygu dulliau safonol, a meithrin gallu ar bob lefel.

Mae monitro safleoedd gwarchodedig statudol (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac ati) yn dilyn y model Monitro Safonau Cyffredin rhyngasiantaethol. Mae'r dull hwn sy'n seiliedig ar risg yn canolbwyntio ar gynefinoedd a rhywogaethau y dynodwyd safleoedd ar eu cyfer. Fe'i cynlluniwyd i ddarparu adborth costeffeithiol ar gyfer rheolaeth a pholisi gyda'r nod o gynnal neu wella cyflwr nodweddion dynodedig.

Dangosodd ein gwerthusiad wrth y ddesg o gyflwr safleoedd gwarchodedig yn 2020 ar draws yr amgylcheddau daearol a dŵr croyw fod 15% o nodweddion yn ffafriol, 29% yn anffafriol, a 55% mewn cyflwr nad yw'n hysbys, gan amlygu bylchau sylweddol mewn gwybodaeth. Mewn asesiad morol tebyg yn 2018, dangosodd asesiadau cyflwr dangosol ar gyfer y 128 o nodweddion morol mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig fod 46% o nodweddion morol mewn cyflwr ffafriol, 45% mewn cyflwr anffafriol, a 9% mewn cyflwr nad yw'n hysbys.

Mae darparu adnoddau ar gyfer monitro safleoedd gwarchodedig, coladu data, a chynnal dadansoddiadau ac asesiadau i lywio penderfyniadau ar sail tystiolaeth yn parhau i fod yn her hirdymor sylweddol oherwydd cyfyngiadau ariannu hanesyddol a chyfredol. Mewn ymateb, mae ein strategaeth monitro safleoedd daearol gwarchodedig yn adlewyrchu dull monitro hynod dargededig i gefnogi anghenion tystiolaeth sy'n seiliedig ar le, ond mae'n ddull sy'n ei chael yn fwyfwy anodd cynnal sicrwydd ynghylch deall iechyd safleoedd ar raddfa genedlaethol. Ategir dulliau tebyg yn yr amgylchedd morol gan setiau data hirdymor gwerth uchel, sy'n olrhain newid bioamrywiaeth dros amser, ee monitro Parth Cadwraeth Morol Sgomer.

Mae rhaglenni monitro rhywogaethau strwythuredig yn cael eu cynnal yn bennaf gan wirfoddolwyr gwyddoniaeth dinasyddion, sydd yn aml yn cael eu cydlynu ar lefel y DU (ee Arolwg Adar Gwlyptir, Cynllun Monitro Glöynnod Byw y DU) gyda data o ran tueddiadau ar lefel y DU neu ar lefel Cymru gyfan yn dibynnu ar ansawdd y data.Yn yr un modd, mae'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethol a statudol adrodd ar gylch chwe blynedd ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd a nodir yn y rheoliadau.

Mae prosiectau strategol fel y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Corsydd Crynedig LIFE, Twyni Byw LIFE a Phrosiect SIARC hefyd yn cynnwys gwaith monitro i gefnogi camau adfer wedi'u targedu. Mae

prosiectau diweddar wedi cael effaith gadarnhaol ar tua 250 o safleoedd, gan gynnwys mawndiroedd, afonydd, ardaloedd morol, twyni tywod a glaswelltiroedd.

Mae rhaglenni monitro amgylcheddol ehangach megis Rhaglen Monitro a Modelu’r Amgylchedd a Materion Gwledig a gwaith monitro Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) yn cynnwys cydrannau sy’n ymwneud â bioamrywiaeth. Yn fwy penodol, mae monitro cydymffurfedd â’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cynnwys: macroffytau, macroinfertebratau dyfrol, a physgod ar gyfer afonydd a llynnoedd; infertebratau benthig, morwellt, a physgod (mewn dyfroedd aberol) ar gyfer dyfroedd aberol ac arfordirol; a stociau o bysgod dŵr croyw (yn enwedig eogiaid a brithyllod). Mae monitro cydymffurfedd â’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cofnodi dangosyddion ansawdd dŵr eraill, gan gynnwys data cemegol (ee amonia, ffosffadau) i helpu i asesu cyflwr yr ecosystemau hynny.

Y tu allan i’r dulliau monitro strwythuredig hyn, mae gwaith monitro lleol gan sefydliadau amrywiol (ee cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol neu’r byd academaidd) yn canolbwyntio ar fuddiannau bioamrywiaeth penodol, a gall arsylwadau ad hoc o rywogaethau ledled Cymru a goladir yn aml drwy Ganolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol a dulliau eraill ddarparu tystiolaeth atodol ar newidiadau bioamrywiaeth.

Mae'n hanfodol cydnabod a mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth er mwyn llywio lle mae angen yr ymdrech fwyaf i fynd i'r afael â’r argyfyngau natur a hinsawdd ar y cyd.

Mae rhannu data monitro yn effeithiol yn agwedd allweddol ar gydweithredu. Yn gysylltiedig â hyn, rydym hefyd yn ymwybodol bod data arolygu a monitro sylweddol yn cael ei gadw'n breifat gan ddatblygwyr ac yn cael ei ystyried yn fasnachol gyfrinachol; gallai dod o hyd i ffyrdd o rannu’r data hwn, ee drwy amodau trwydded, ddarparu tystiolaeth werthfawr ychwanegol. Rydym yn cydnabod bod angen mwy o fuddsoddiad mewn perthynas â rhannu data, gyda datblygiad parhaus gwasanaethau fel MapDataCymru a thrafodaethau parhaus gyda phartneriaid ynghylch y ffordd orau o rannu tystiolaeth. Mae datblygu platfform rhannu data effeithiol yn cymryd amser ac adnoddau.

## 4. Eich barn ar ddulliau newydd sydd eu hangen i atal a gwrthdroi colli byd natur erbyn 2030.

Mae Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020 yn pwysleisio’r cydgysylltiad rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae’n amlygu’r pwysau sylweddol ar adnoddau naturiol Cymru, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, colli cynefinoedd, llygredd, a rhywogaethau goresgynnol. Mae mynd i’r afael â’r heriau cymhleth sy’n wynebu byd natur yn gofyn am ddull cyfannol sy’n ystyried cydgysylltiad gwahanol systemau, megis bwyd, ynni, a thrafnidiaeth. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r cysyniad o "Bontydd i'r Dyfodol" fel fframwaith ar gyfer sicrhau dyfodol cynaliadwy.

Mae'r argyfyngau natur a hinsawdd yn ei gwneud yn glir nad yw'r system economaidd ac ariannol bresennol yn cyflawni ar gyfer pobl na'r blaned ar hyn o bryd. Wedi'i adeiladu ar gynyddu twf ac elw tymor byr i'r eithaf, mae ein model economaidd presennol yn gosod costau enfawr ar gymunedau a natur. Mae economi gynaliadwy wyrddach yn gofyn am newid yn y berthynas rhwng yr economi a thir a dŵr. Mae'n ymwneud â'i hailgynllunio i ddarparu bywoliaethau o ansawdd da drwy weithio i wasanaethu ein gilydd, diwallu anghenion pawb, gwerthfawrogi a mesur yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, ailddiffinio cynnydd cymdeithasol, a rhoi darpariaeth llesiant a ffyniant hirdymor pob cenhedlaeth cyn metrigau cul sy'n canolbwyntio ar dwf cynnyrch domestig gros.

Mae'n amlwg bod angen dulliau newydd, megis cyllid gwyrdd, i gynhyrchu'r capasiti a'r cyllid cynyddol sydd eu hangen, ac er mwyn symud oddi wrth fusnes fel arfer – lle mae rhywfaint o waith rhagweithiol strwythuredig, yn ogystal â gwaith ad hoc neu adweithiol yn digwydd – tuag at ymgorffori gwelliant natur yn barhaus gyda busnes a chymdeithas.Roedd yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth yn canolbwyntio ar un targed o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i weithredu fel catalydd i fynd ati i fwrw ymlaen gyda'r 22 o dargedau eraill yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.Ein barn ni yw bod targedau 14-23 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu mwy o gapasiti a phrif ffrydio gweithredu o ran bioamrywiaeth (ee ymgorffori bioamrywiaeth ym mhob proses gwneud penderfyniadau, mynd i'r afael â chymhellion negyddol a chreu rhai cadarnhaol, a gweithio gyda rhanddeiliaid newydd) yn allweddol i gyflawni yr uchelgais a ddymunir. Heb y newid trawsnewidiol hwn, credwn ei bod yn annhebygol y bydd y nod i atal colli byd natur a'i adfer yn cael ei gyflawni, nid yn unig erbyn 2030 ond ymhell ar ôl hynny.

Ar hyn o bryd, amaethyddiaeth yw'r defnydd tir mwyaf o ran arwynebedd yng Nghymru (80-90%). Mae gan amaethyddiaeth rôl amlwg wrth adfer natur gan fod y mwyafrif o'n safleoedd gwarchodedig yn gysylltiedig â ffermio. Rydym yn cefnogi'r egwyddor yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bod ffermwyr yn cael eu hariannu i ddarparu nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol, nid ar draul bwyd, ond fel rhan annatod o'r cynhyrchion a ddarperir drwy ffermio yng Nghymru. Ymchwil, datblygu ac arloesi yw conglfaen dyfodol cynaliadwy ac mae angen ffynonellau cyllid newydd y tu hwnt i'r pwrs cyhoeddus ar ffermwyr i fanteisio ar ffermio manwl a thechnolegau arsylwi'r Ddaear, er enghraifft. Byddem yn croesawu trafodaeth ar y cwmpas a'r awydd i ysgogi cyllid i archwilio synergeddau posibl rhwng y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a buddsoddiad gwyrdd wedi'i reoleiddio'n dda gan y sector preifat, gan wneud cynnydd tuag at economi adfywiol yng Nghymru.

Bydd y gofynion monitro 30 erbyn 30 sy'n dod i'r amlwg yn dylanwadu ar adfer byd natur Cymru, gyda ffocws cynyddol ar ddulliau rhwydwaith, asesiadau rheoli effeithiol, a manteisio ar dechnolegau arsylwi'r Ddaear. Bydd angen rhannu data a chydweithio yn well er mwyn sicrhau bod y gymuned fonitro yng Nghymru yn mynd i'r afael â'r heriau hyn gyda'i gilydd.

Er mwyn cyflymu adferiad byd natur, mae'n hanfodol bod yr offer sydd ar gael yn ategu ac yn cyflawni ar gyfer natur ac nad ydynt yn gwrthdaro nac yn amharu ar ei gilydd. Gellir a dylid datblygu'r canlyniadau bioamrywiaeth o Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth Llywodraeth Cymru i ategu a darparu adnoddau ac ysgogiad i feysydd gwaith hirsefydlog a strategol

sy’n bodoli eisoes, megis cynlluniau adfer natur lleol, Datganiadau Ardal, rhwydweithiau ecolegol cadarn ac asesiadau seilwaith gwyrdd.

Mae rhwydweithiau natur yn rhoi’r cyfle i ddatblygu dull strategol o adfer a gwella tirwedd Cymru drwy gysylltu rhwydweithiau ecolegol cadarn ledled Cymru a gefnogir gan bartneriaethau ardal a thirwedd.

Yng Nghymru, mae ffermwyr yn berchen ar lawer o’r tir, ac yn ei reoli. Gall y dull sy’n seiliedig ar leoedd a hwylusir gan Ddatganiadau Ardal a rhwydweithiau ecolegol cadarn nodi canlyniadau yn y dirwedd sy’n grymuso a dirprwyo penderfyniadau i bartneriaethau lleol ac unigolion.

Mae dulliau ariannu presennol i atal a gwrthdroi colledion natur erbyn 2030 yn tueddu i fod yn rhai tymor byr, yn drwm o ran cyfalaf, a manteisgar, gyda ffocws cyfyngedig ar reoli a gwerthuso hirdymor. Byddai dull mwy strategol, tymor hwy, gyda mwy o gyllid ar gyfer gweithgarwch refeniw ac ar gyfer monitro/gwerthuso a rheoli hirdymor yn fwy cynaliadwy ac yn fwy effeithiol o ran canlyniadau i natur.

## 5. A oes gennych unrhyw bwyntiau eraill yr hoffech eu codi o fewn cwmpas yr ymchwiliad hwn?

Ochr yn ochr â mwy o ffocws ar gyflawni’n uniongyrchol ar gyfer cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau drwy fecanweithiau fel targed 30 erbyn 30 Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth y Gweinidog, er enghraifft, mae’n dod yn fwyfwy amlwg pa mor hanfodol yw hi hefyd i gynhyrchu mwy o gapasiti a chyllid, sydd eu hangen i gyflawni ymrwymiadau strategaeth y DU yn gyfannol ac uchelgeisiau adfer cyfatebol y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Ar yr un pryd, mae galw cynyddol hefyd am wybodaeth a diddordeb cynyddol gan sectorau eraill mewn perthynas â'u heffeithiau, dibyniaethau a chyfleoedd sy'n ymwneud â byd natur.

Gyda Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol y DU ac ymrwymiadau Cymru cysylltiedig, rydym yn hynod gefnogol i ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet i gynhyrchu targedau natur statudol ar gyfer Cymru ynghyd â gwaith monitro ac adrodd cryfach er mwyn sefydlu a llywio gweithredu ac atebolrwydd yn llawnach.

Hoffem i dargedau natur Cymru a’r Bil newydd adlewyrchu hyn ochr yn ochr â chamau uniongyrchol i wella cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau, ac iddynt fynd i’r afael yn fwy cynhwysfawr â’r materion a’r pwysau a sbardunau negyddol sy’n gyfrifol am golli bioamrywiaeth.Hoffem hefyd weld mwy o gydnabyddiaeth a phwyslais yn cael eu rhoi ar weithio'n fwy gweithredol, creadigol a chydweithredol gyda'r ystod eang o sectorau a buddiannau sefydliadol, a buddiannau eraill, nad ydynt yn ymwneud ag adfer natur ar hyn o bryd.

Mae’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, a strategaeth a thargedau cysylltiedig y DU sy’n cynnwys ymrwymiadau natur Cymru, yn gyfle arwyddocaol i wella ymdrechion bioamrywiaeth Cymru a datblygu dulliau newydd.Mae dilyn ymagwedd ehangach, ragweithiol ochr yn ochr ag ymyriadau mwy penodol ar gynefinoedd a rhywogaethau yn hanfodol ar gyfer atal colli natur. Bydd sicrhau bod holl dargedau’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, fel y’u hamlinellir yn strategaeth y DU ar gyfer Cymru, yn cael eu hymgorffori ym mholisi Cymru a deddfwriaeth newydd yn helpu i ddarparu fframwaith cynhwysfawr, clir a mesuradwy ar gyfer olrhain cynnydd a dwyn llunwyr polisi ac asiantau cyflawni allweddol i gyfrif.

Mae’r amgylchedd morol yn cyfrif am bron i hanner Cymru a bydd gwarchod ac adfer bioamrywiaeth yma yn rhan sylweddol o’r gwaith o adfer byd natur. Fodd bynnag, mae natur y gweithgarwch sydd ei angen i warchod a rheoli ecosystemau ar y môr yn aml yn wahanol i ddulliau a ddefnyddir ar y tir. Mae bron popeth sy’n digwydd ar dir yn effeithio arno hefyd, gan bwysleisio’r angen am ddulliau cyfannol a defnyddio ysgogiadau ‘daearol’ priodol (fel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Pholisi Cynllunio Cymru) i sicrhau canlyniadau morol cadarnhaol.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys yr angen am gynlluniau a phrosiectau i wella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wrth gynllunio datblygiadau, ac mae hyn yn dod yn fwy adnabyddus fel budd net ar gyfer bioamrywiaeth.Fodd bynnag, nid yw datblygu polisïau cynllunio megis budd net ar gyfer bioamrywiaeth, atebion ar sail natur ac asesiadau ynni adnewyddadwy wedi'u cefnogi eto gan ganllawiau ar gyfer awdurdodau cynllunio lleol, a allai fod yn gyfle a gollwyd i ymgorffori adran 6 mewn swyddogaethau cynllunio datblygu. Rydym yn gweld bwlch yn y canllawiau presennol i gefnogi’r gwaith o gyflawni polisïau, yn ogystal â’r angen i sefydlu polisi budd net ar gyfer bioamrywiaeth clir.

Ers cyhoeddi Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, cyhoeddwyd nifer o ddatblygiadau allweddol, gan gynnwys y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth y Gweinidog, a Sefyllfa Byd Natur 2023.O ganlyniad, mae angen i ganllawiau adran 6 adlewyrchu'n well y raddfa, y cyflymder a'r newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen i ymateb i'r argyfwng natur ac mae angen gwaith monitro mwy gweithredol ac atebolrwydd cliriach mewn perthynas â chyflawni adran 6. Mae’r datganiad argyfwng natur yn pwysleisio pwysigrwydd y ddyletswydd a gellir disgwyl i awdurdodau cyhoeddus ddangos ymrwymiad cryfach i fioamrywiaeth yn eu proses gwneud penderfyniadau.

Hoffem weld mwy o sylw yn canolbwyntio ar sut i newid a datblygu prosesau gwneud penderfyniadau systemig a sefydliadol ar draws pob sector i gefnogi adfer byd natur yn well. Mae’r rhain yn hanfodol ar gyfer cynhyrchu’r capasiti cynyddol, y cyfleoedd ar gyfer cyflawni, a’r ariannu ar y cyd sydd eu hangen i alluogi pawb i helpu i adfer byd natur yn unol ag ymrwymiadau natur Cymru ac i’n symud y tu hwnt i ddibynnu ar fecanweithiau a chyllid presennol y llywodraeth, a’r cyfyngiadau sy’n gysylltiedig â nhw.

# Eitem 4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Briff ar gyfer y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith: Cydymffurfiaeth ym maes dŵr, ac ymateb i ddigwyddiadau

Diolch am y cyfle i drafod ein dulliau rheoleiddio mewn perthynas â dŵr gyda'r pwyllgor. Bwriad y briff hwn yw darparu gwybodaeth gefndirol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth cyn cyfarfod y pwyllgor.

Rydym ni'n cymryd ein cyfrifoldebau o ran gwarchod yr amgylchedd o ddifrif.

Er ein bod yn cydnabod bod mwy i'w wneud o hyd, gwnaed cynnydd gwirioneddol o ran gwella ansawdd ein dŵr, ein tir, a'n haer ledled Cymru dros y 30 mlynedd diwethaf.

Mae'r heriau sydd ynghlwm â phoblogaeth sy'n cynyddu, a'r argyfyngau hinsawdd a natur, yn dwysáu; a felly hefyd ein hymrwymiad i ddiogelu pobl a natur rhag effeithiau digwyddiadau amgylcheddol.

## Ein Dull Rheoleiddio

Rydym yn cryfhau'r ffordd rydym yn rheoleiddio er mwyn ysgogi gwell perfformiad ar draws y sector dŵr. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno swyddogion arbenigol ar lawr gwlad, cynyddu nifer y gwiriadau cydymffurfiaeth a wneir, a defnyddio pecynnau ac offerynnau gwybodaeth a data newydd i lywio ein gwaith. Rydym yn parhau i geisio pwerau ychwanegol i ystyried sancsiynau sifil ar gyfer ystod ehangach o droseddau amgylcheddol.

Pan gaiff difrod difrifol neu fwriadol ei wneud i'r amgylchedd, rydym yn barod i gymryd y camau gorfodi angenrheidiol, a rheiny'n rhai cymesur. Fodd bynnag, ein blaenoriaeth bob amser fydd atal difrod rhag digwydd yn y lle cyntaf. Hynny, a sicrhau bod gweithredwyr yn ailddechrau cydymffurfio mewn ffordd amserol. Caiff camau gorfodi bob amser eu hystyried ar ôl ystyried a rhoi cynnig ar ddulliau eraill i atal niwed. Hynny, neu er mwyn atal troseddu pellach.

Fodd bynnag, fel pob corff cyhoeddus, nid yw ein hadnoddau'n ddiderfyn, ac mae'n rhaid i ni wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch sut a ble i ganolbwyntio ein hymdrechion i ddiogelu bywydau, bywoliaethau a'r amgylchedd. Er y byddwn yn dal ati i ddefnyddio'r adnoddau sydd gennym mewn ffordd graff ac arloesol, bydd angen i ni flaenoriaethu'r camau hynny i sicrhau'r canlyniadau gorau i bobl ac i fyd natur ac i gyflawni'r gwelliannau i'n hamgylchedd y mae pawb am eu gweld.

# Y Byd ar Bedwar

Codwyd pryderon yn y rhaglen hon ynghylch biwrocratiaeth ganfyddedig a methiant i ymateb i ddigwyddiadau llygredd tybiedig - ac mae'n bwysig inni ymateb i'r pryderon hynny.

Rydym yn parhau i weld cynnydd o ran y digwyddiadau llygredd dŵr sy’n cael eu hadrodd i ni - gydag ychydig dros 3300 yn 2023 o'i gymharu ag ychydig o dan 2500 yn 2019. Mae hyn yn siomedig pan fo cymaint yn cael ei fuddsoddi i wella ein hafonydd ac ansawdd dŵr ar gyfer byd natur a phobl.

Rydym, hefyd, yn parhau i weld cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn mewn digwyddiadau llygredd sy'n gysylltiedig â'r diwydiant dŵr - gydag ychydig dros 600 o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd yn 2023 o'i gymharu â thua 430 yn 2019.

Yn gyffredinol, rydym yn mynychu tua 20% o'r digwyddiadau a gaiff eu hadrodd inni. Rydym yn blaenoriaethu ein presenoldeb ar sail pa ddigwyddiadau sy'n achosi'r risg uchaf i bobl a/neu'r amgylchedd. Nid yw bob amser yn angenrheidiol inni fynychu fel rhan o ymchwiliad i ddigwyddiad – a hynny oherwydd, mewn llawer o achosion, bod y wybodaeth a geir yn yr adroddiad yn ddigonol, ynghyd â thrafodaethau ffôn a lluniau, i ni benderfynu ar yr hyn a achosodd y digwyddiad, a'i ganlyniadau.

Mae ein Cynllun Corfforaethol, [Byd Natur a Phobl yn Ffynnu Gyda'n Gilydd], yn nodi tri Amcan Lles sy’n flaenoriaeth: 1. Byd natur wrthi’n gwella 2. Cymunedau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a 3. Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf

Wrth gyflawni ein Hamcanion Lles, byddwn yn mabwysiadu dull o ymateb i ddigwyddiadau sy’n fwy seiliedig ar risg ac sy’n targedu - byddwn yn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ymateb i'r digwyddiadau sy'n peri’r risgiau mwyaf difrifol a sylweddol i'r amgylchedd ac i iechyd y cyhoedd. Fel sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, mae CNC wedi bod yn destun pwysau sylweddol o ran cyllid yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac o ganlyniad mae'n rhaid i ni weithredu o fewn sefyllfa ariannol dynn. Rydym, felly, yn canolbwyntio ein hadnoddau ar fynychu digwyddiadau lle mae mwy o risg i’r amgylchedd. Nid yw'n bosibl - nac hyd yn oed yn angenrheidiol - inni fynychu pob digwyddiad a gaiff ei adrodd inni.

Wrth adolygu ein hymateb i ddigwyddiadau, rydym yn gwella effeithlonrwydd drwy ddull gweithredu sy’n cael ei lywio gan wybodaeth. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir o’r adroddiadau i greu darlun cynhwysfawr o fygythiadau amgylcheddol, gan ein galluogi i ganolbwyntio ein hymdrechion ar gamau atal sydd wedi'u targedu, a hynny drwy ymgysylltu, rheoleiddio a gwaith gorfodi effeithiol. Fel y nodwyd uchod, bydd atal digwyddiad rhag digwydd yn y lle cyntaf bob amser yn fwy buddiol nag ymateb i ddigwyddiad llygredd.

Fel corff cyhoeddus sy’n atebol, mae gennym brosesau llywodraethu sefydledig ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau a gwaith gorfodi, a hynny er mwyn sicrhau bod gennym yr offerynnau, y dulliau, a'r canllawiau cywir ar gael i'n staff, ac i sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson ac yn amserol. Rydym wedi’n hymrwymo i ganllawiau'r llywodraeth

- fel y Cod Rheoleiddwyr, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a rheolau recriwtio'r gwasanaethau sifil - sy'n sicrhau bod ein prosesau a'n penderfyniadau yn rhai priodol.

## Dulliau rheoleiddio CNC o ran rheoli perfformiad Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, ac ysgogi gwelliannau.

Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gyhoeddi adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol cwmnïau dŵr 2023 ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Mae perfformiad Hafren Dyfrdwy wedi gwella ychydig mewn perthynas â pherfformiad digwyddiadau llygredd ers 2022, er bod cynnydd bach mewn digwyddiadau llygredd yn deillio o asedau cyflenwad dŵr, a hynny o 2 i 3. Cafodd y tri effaith amgylcheddol isel.

Er gwaethaf mwy o bwysau oddi wrthym ni fel rheoleiddwyr, a chan wleidyddion a'r cyhoedd, mae Dŵr Cymru wedi methu â gwneud y math o welliannau rydym eisiau ac yn disgwyl eu gweld. O ganlyniad, ar gyfer 2023, arhosodd perfformiad DCWW ar statws 2*.

Wrth i ni barhau i symud ymlaen drwy'r cyfnod adrodd Asesiad Perfformiad Amgylcheddol (2021-25), rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy wneud cynnydd cadarnhaol ar draws pob un o'r saith metrig. Bydd metrigau'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn parhau i dynhau dros y cyfnod adrodd hwn (2021-25), gan sicrhau bod targedau'n heriol i'r cwmni.

Rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar draws ein cylch rheoleiddio i ysgogi gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr.

### Adolygiadau Prisiau Ofwat

- Mewnbwn CNC i Adolygiadau Prisiau Ofwat. Ni sy'n datblygu Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd ar gyfer Cymru. Ar gyfer PR24 Ofwat, a fydd yn cael ei gyflwyno yng nghyfnod Rhaglen Rheoli Asedau 8 (AMP 8), o 2025 i 2030, mae gennym Raglen Genedlaethol yr Amgylchedd gytunedig sy'n cyfarwyddo gwaith Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy, ac - i raddau llai - Severn Trent, United Utilities a South Staffordshire Water er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau amgylcheddol yng Nghymru.
- Mae AMP8 yn cwmpasu 2025-2030 a bydd y Rhaglen Genedlaethol yr Amgylchedd cysylltiedig yn arwain at fuddsoddi bron i £2 biliwn yn amgylchedd Cymru, gan gynnwys adnoddau a seilwaith dŵr yfed, systemau casglu a thrin dŵr gwastraff, yn ogystal â rhwymedigaethau ehangach yn ymwneud â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau, rhywogaethau estron ymledol, a thargedau sero net. Mae'r rhan fwyaf o'r buddsoddiad hwn yn ymwneud â safleoedd Dŵr Cymru.
- Daeth yr ymgynghoriad ar benderfyniad drafft Ofwat ar y cynlluniau buddsoddi i ben ar 28 Awst 2024. Bydd Ofwat yn penderfynu ar gynlluniau busnes yn derfynol ym mis Rhagfyr 2024.

## Adolygiadau trwyddedau a thrwyddedu

- Caiff gollyngiadau dŵr eu rheoleiddio o dan Drwydded Amgylcheddol sy'n gosod amodau i ddiogelu'r amgylchedd. Gall CNC adolygu amodau er mwyn sicrhau bod gweithredwyr yn gallu bodloni safonau modern ac i ymateb i anghenion amgylcheddol sy'n newid.
- Yn ddiweddar, mae CNC wedi cwblhau'r Adolygiad o Drwyddedau ar gyfer trwyddedau gollwng dŵr Dŵr Cymru yn y 9 dalgylch afon sydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ledled Cymru. Roedd hyn yn canolbwyntio ar y gwaith trin dŵr mwy o faint, ac arweiniodd at ychwanegu terfyn ar allyriadau ffosfforws at 162 o drwyddedau ar draws dalgylchoedd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- Mae hwn yn gam sylweddol o ran rheoli llygredd maetholion i afonydd yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, a fydd yn sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn llygredd ac yn cyfrannu tuag at gynnal a gwella'r ecosystemau o fewn afonydd ein Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
- Rydym hefyd yn y broses o ddiweddaru trwyddedau er mwyn gwneud gwell monitro a rheoli yn ofynnol o ran llif dŵr gwastraff ar weithfeydd trin carthion. Bydd hyn, ochr yn ochr â buddsoddiad AMP8, yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn gollyngiadau gorlif carthffosydd drwy'r rhwydwaith.

## Gweithgarwch Cydymffurfiaeth Reoleiddiol

- Rydym yn asesu cydymffurfiaeth ag amodau trwyddedau gollwng dŵr trwy gynnal ystod o weithgareddau rheoleiddio, gan gynnwys archwiliadau cyffredinol ac archwiliadau safle, samplu gollyngiadau ac asesu data, megis data hunan-fonitro ffurflenni rheoleiddio gweithredwyr cwmni dŵr.
- Yn dilyn asesiad cydymffurfio, rydym yn cofnodi ein canfyddiadau mewn Adroddiad Asesu Cydymffurfiaeth (CAR), gan nodi unrhyw achosion o dorri amod trwydded a phennu camau gweithredu i unioni, a lleihau'r risg o ailadrodd. Mae'r rhain ar gael ar ein Cofrestr Gyhoeddus.
- Ers 2018, mae nifer yr asesiadau cydymffurfiaeth diwydiant dŵr a gynhaliwyd gan CNC wedi cynyddu'n sylweddol o tua 100 yn 2019 i dros 450 yn 2023 a bydd hyn yn cael ei gynyddu ymhellach yn 2024.
- Yn yr un cyfnod, mae canran y diffyg cydymffurfio ag amodau trwydded a nodwyd ar safleoedd Dŵr Cymru wedi gostwng yn raddol o tua 80% i ychydig dan 20%. Mae hyn yn dangos bod gwelliant cyson wedi bod yng nghydymffurfiaeth y diwydiant dŵr, o ystyried yr holl amodau trwydded. Gwelwyd yr un duedd o arolygiadau’n cynyddu a chanrannau’n lleihau o ran diffyg cydymffurfio ar safleoedd Hafren Dyfrdwy hefyd.
- Fodd bynnag, mae tuedd tuag i lawr yn parhau ym mherfformiad cyffredinol Dŵr Cymru fel y'i mesurir gan yr Asesiad Perfformiad Amgylcheddol. Mae'r Asesiad Perfformiad Amgylcheddol yn canolbwyntio ar saith metrig gwahanol, sy'n caniatáu i berfformiad y deg cwmni dŵr a charthffosiaeth mwyaf gael ei fonitro a'i asesu mewn ffordd gyson gan y rheoleiddwyr amgylcheddol.

- Mae'r metrig cydymffurfiaeth yn canolbwyntio ar berfformiad yn erbyn cyfres o amodau trwydded rhifol a gofynion samplu, h.y. is-set o amodau yn unig, heb gynnwys, er enghraifft, amodau trwydded disgrifiadol.
- Er gwaethaf gostyngiad mewn gweithgarwch nad yw'n cydymffurfio, rydym yn parhau i weld cynnydd yn nifer y digwyddiadau llygredd dŵr difrifol o gyfleusterau carthffosiaeth a chyflenwi dŵr Dŵr Cymru. Gofynnwyd i Dŵr Cymru wella eu dadansoddiad achosion sylfaenol o ddigwyddiadau er mwyn nodi meysydd ymyrraeth i sicrhau gwell perfformiad cyffredinol.

## Gwaith Gorfodi

- Mae'r ymatebion gorfodi a gymerwn yn erbyn y diwydiant dŵr yn gyson â'n polisi Gorfodi a Sancsiynau, ac yn seiliedig ar ein Opsiynau Ymateb i Droseddau a'n cynllun categoreiddio digwyddiadau.
- O'r 483 achos gorfodi sy'n deillio o ddigwyddiadau diwydiant dŵr, ers dechrau 2018, mae 437 o'r rhain wedi'u cau gyda thua 80% yn arwain at gyhoeddi llythyrau Rhybudd, 5 Rhybudd Ffurfiol, a 3 Erlyniad. Arweiniodd y gweddill at naill ai Cyngor a Chanllawiau yn cael eu rhoi, neu benderfyniad nad oedd angen gweithredu ymhellach.
- Mae 46 o achosion yn parhau i fod dan ymchwiliad, gydag ymatebion gorfodi i ddilyn. Mae nifer o'r achosion hyn yn sylweddol, a allai arwain at erlyn.
- Mae oedi anochel rhwng torri amod trwydded / digwyddiad ac ymateb gorfodi, a hynny oherwydd ymchwilio i achos y digwyddiad. Yn ogystal, mae erlyniadau yn gofyn am amser llys ac mae oedi'n parhau o fewn y Llysoedd oherwydd effeithiau Covid-19.
- Ar hyn o bryd mae gennym ddau achos wedi'u rhestru yn y llys ym mis Medi a mis Hydref.

## Gweithgareddau pellach sy'n cefnogi gwella ansawdd afonydd

**Tasglu Ansawdd Dŵr**

- Cyfoeth Naturiol Cymru sy’n arwain ar y Tasglu Ansawdd Dŵr sydd â chynrychiolaeth gan bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol.
- Mae'r Tasglu yn parhau i ganolbwyntio ar - ac ymateb i - y darlun o amgylch gorlifoedd storm a'r sylw parhaus gan randdeiliaid, y cyhoedd a gwleidyddion i’r mater hwn sy’n esblygu o hyd. Mae'r Tasglu hefyd wedi dechrau edrych ar faterion cysylltiedig ag ansawdd dŵr sy'n effeithio ar y rhwydwaith carthffosiaeth.
- Bydd penderfyniad terfynol PR24 a chwmnïau dŵr yn gweithio drwy'r canllawiau rheoleiddio newydd yn sbarduno camau gweithredu newydd a fydd yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid ehangach.
- Ar hyn o bryd mae'r Tasglu yn adolygu'r pum cynllun gweithredu, gyda blaenoriaeth i gynllun gweithredu “Dealltwriaeth y cyhoedd ac ymgysylltu” ym mis Ebrill. Yng mhwyllgor diweddar y Senedd, cyflwynwyd argymhelliad i ddatblygu mwy o gyfathrebiadau â rhanddeiliaid. Mae'r tasglu eisoes yn edrych ar sut rydym yn cyfleu'r cynnydd a'r cyfeiriad yng Nghymru.

- O'r 62 o gamau gweithredu ar draws y pum cynllun, cwblhawyd 31; mae gan y gweddill naill ai ddyddiadau cwblhau ar gyfer y dyfodol sy'n cysylltu â chyflawni, neu maent yn ddibynnol ar gadarnhau cyllid fel rhan o PR24.
- Ymhlith y llwyddiannau hyd yma mae cynhyrchu Adroddiad Rheoleiddio CNC ar gyfer Monitro Hyd Digwyddiadau (yn flynyddol), monitro amser real gan gwmnïau dŵr, a chanllawiau rheoleiddio ar gyfer categoreiddio gorlifoedd storm, gan gynnwys asedau heb drwydded.
- Dros y deuddeg mis nesaf, caiff sylw hefyd ei roi i ddatblygu rhaglen fonitro o amgylch gorlifoedd stormydd er mwyn helpu i gefnogi'r dystiolaeth a rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid am eu heffaith.

**Lleihau effaith Allyriadau Carthffos Gyfunol**

- Ar 26 Hydref 2023, cyhoeddodd CNC 2 ganllaw i gwmnïau dŵr yng Nghymru ar gategoreiddio ac asesu gorlifoedd storm a'r broses ar gyfer gorlifoedd heb drwydded (y rhai sydd heb drwydded Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ar hyn o bryd).
- Yn ogystal â gweithredu'r canllawiau hyn, fel rhan o'r Adolygiad Cyfnodol (PR24) rydym wedi bod yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, Llywodraeth Cymru ac Ofwat i ddatblygu'r Rhaglen Gwella'r Amgylchedd a fydd yn darparu buddsoddiad mewn asedau cwmnïau dŵr yng Nghymru dros y 5 mlynedd nesaf. O fewn cynlluniau busnes drafft ar gyfer Dŵr Cymru, dyrannwyd tua £720m i ddarparu gwelliannau gollyngiadau storm.
- Rydym yn disgwyl i Dŵr Cymru fod wedi asesu'r holl asedau ysbeidiol yn erbyn ein canllawiau erbyn diwedd cyfnod AMP 2025-30 gyda'r bwriad o nodi'r asedau hynny sydd angen buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi niwed nac yn dirywio mewn perfformiad.

**Newid deddfwriaethol**

- Rydym yn gefnogol i'r cynigion yn y Bil Dŵr (Mesurau Arbennig) ac yn benodol i gael trefn gosb sy'n berthnasol i'r sector dŵr, er mwyn galluogi cosbau awtomatig i gael eu cyhoeddi gan CNC am restr ddiffiniedig o droseddau.
- Ar hyn o bryd nid oes gennym y pwerau sancsiwn sifil i gyhoeddi Cosbau Ariannol Amrywiol (VMPs), Cosbau Ariannol Penodedig (FMPs) a Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPNs) am droseddau cwmnïau dŵr. Felly, yng Nghymru, byddai'n rhaid cynnwys y cynnig hwn mewn bwndel o newidiadau sydd eu hangen i gyflwyno sancsiynau sifil ar gyfer y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yng Nghymru.
- Mae'n bwysig nodi bod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cael sancsiynau sifil ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ers 2016. Roedd Adroddiad diweddar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar berfformiad Dwr Cymru yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn pwerau gorfodi CNC er mwyn galluogi'r rheoleiddiwr i dderbyn ymrwymiadau amgylcheddol o ran achosion o dorri amodau trwydded o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Derbyniodd y Gweinidog mewn egwyddor, ac ers hynny rydym wedi mewnbynnu i ystyriaethau diweddar Swyddogion Llywodraeth Cymru ar Sancsiynau Sifil

Edrychwn ymlaen at drafod ymhellach gyda chi ym mis Hydref.

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

17 Gorffennaf 2024

Annwyl Huw,

Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol

Yn ystod ein cyfarfod ar 26 Mehefin 2024, fe wnaethom ystyried y Sefydliad Coedwig y DU/Ewrop: Cytundeb Gwlad Letyol fel rhan o'n gwaith craffu ar gytundebau rhyngwladol o fewn ein cylch gwaith.

Mae'r Cytundeb yn ymwneud â sefydlu presenoldeb y DU ar gyfer Sefydliad Coedwig Ewrop, sy'n sefydliad rhyngwladol a sefydlwyd gan wladwriaethau Ewropeaidd. Mae'r Cytundeb yn darparu'r breintiau a'r imiwneddau sy'n angenrheidiol i Sefydliad Coedwig Ewrop, iddo weithredu'n effeithiol yn y DU.

Rydym yn cydnabod fod y Cytundeb yn dod o fewn cymhwysedd a gadwyd yn ôl, sef cysylltiadau rhyngwladol, sy'n cynnwys cysylltiadau â thiriogaethau y tu allan i'r DU, ac nad yw rhoi breintiau ac imiwneddau o dan gyfraith ryngwladol wedi'u datganoli.

Er gwaethaf hyn, nodasom hefyd fod gweithgareddau Sefydliad Coedwig Ewrop yn ymwneud â choedwigaeth, sef maes o gymhwysedd datganoledig sydd o ddiddordeb mawr i ni. Gwnaethom nodi ei bod yn ymddangos bod gan Sefydliad Coedwig Ewrop gysylltiadau â Phrifysgol Bangor a bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dod yn aelod o Gymdeithas Coedwigoedd Talaith Ewrop, EUSTAFOR, yn 2020.

Ar y sail hwn, cytunwyd i ysgrifennu atoch i ofyn am ragor o wybodaeth am y cyfleoedd posibl a rydd y Cytundeb hwn i Gymru.

Byddem yn croesawu barn Llywodraeth Cymru ar y materion a ganlyn:

- sefydlu Sefydliad Coedwig Ewrop yn y DU, gan gynnwys sut y gall Cymru elwa o'i bresenoldeb yn y dyfodol;
- y berthynas rhwng asiantaethau a sefydliadau ymchwil yng Nghymru a Sefydliad Coedwig Ewrop;

- p’un ai a ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch datblygiad y Cytundeb; a
- gwybodaeth am unrhyw waith rhynglywodraethol sy'n digwydd, neu sydd i ddigwydd ar y cyd â Sefydliad Coedwig Ewrop, gan gynnwys mewn cysylltiad â'i ffocws bwriadedig i wella gwaith llywodraethu coedwigoedd yn fyd-eang.

Byddwn yn ddiolchgar o gael ymateb cyn gynted â phosibl, ac erbyn 14 Awst fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0243/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

16 Medi 2024

Annwyl Llŷr

Diolch am eich llythyr ar 17 Gorffennaf ar Gytundeb Gwlad Letyol Sefydliad Coedwigoedd Ewrop (EFI) / y DU.

Mae EFI yn sefydliad rhyngwladol pwysig y mae gan y DU berthynas hirsefydlog ag ef. Fe'i sefydlwyd i gynnal ymchwil a darparu cyngor polisi ar faterion sy'n ymwneud â choedwigoedd.

O ran y Cytundeb Gwlad Letyol, ni ymgynghorwyd â ni ar y penderfyniad i sefydlu presenoldeb yn y DU. Wrth gwrs, mae gennym ddiddordeb parhaus ac rydym yn disgwyl cael ein diweddaru gan yr Uned Goedwigoedd Ryngwladol (tîm FCDO ar y cyd a'r Adran Diogelwch Ynni a Sero Net) yn ogystal ag yn barhaus drwy'r swydd Gynghori ar Goedwigaeth Ryngwladol yn Forest Research.

Cynrychiolir y DU, fel aelod-wlad, ar Gyngor EFI gan Forest Research ac mae Pennaeth yr Uned Goedwigoedd Ryngwladol yn eistedd ar ei Fwrdd Cyfarwyddwyr. Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad sy'n aelod. Mae gennym sedd ar Fwrdd Forest Research a thrwy'r berthynas honno y byddwn yn clywed am waith EFI ac yn bwydo i mewn iddo. Ond byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Uned Goedwigoedd Ryngwladol wrth i waith ar ei sefydlu yn y DU fynd rhagddo.

Cenhadaeth EFI yw cysylltu gwybodaeth â chamau gweithredu ac i gyflawni ei genhadaeth, mae strategaeth EFI wedi'i llunio o amgylch tair thema ryng-gysylltiedig a rhyngddisgyblaethol: **Bioeconomi**, **Cydnerthedd** a **Llywodraethu** a thri nod strategol sy'n atgyfnerthu ei gilydd:

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy’n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Maes ymchwil ac arloesi uchelgeisiol yn ymwneud â choedwigoedd Ewrop
- Polisïau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth i fynd i'r afael â heriau a chyfleoedd cymdeithasol
- Ymwybyddiaeth mewn cymdeithas o bwysigrwydd coedwigoedd

Mae eu rhagolwg ar yr effeithiau disgwyliedig allweddol ar gyfer y cyfnod sydd i ddod a blaenoriaethau newydd ar gyfer pynciau ymchwil a pholisi i'w hystyried mewn cydweithrediad â'i bartneriaid wedi'i nodi yn ei Gynllun Gweithredu Strategaeth 2022-2025.

Rydym yn deall y bydd ffocws swyddfa EFI yn y DU yn cefnogi'r ymdrechion i atal coedwigodd rhag cael eu colli a thir rhag dirywio yn fyd-eang, a helpu i gwrthdroi hynny. Bydd dau brif maes gwaith:

- diwygio'r dull o lywodraethu coedwigoedd a defnydd tir mewn gwledydd partner;
- trawsnewid tir sydd wedi dirywio yn dirweddau adfywiol sy'n gynhwysol, yn fio-gadarnhaol ac yn niwtral yn yr hinsawdd, sy'n cefnogi marchnadoedd a chymunedau cynaliadwy.

Bydd dwy raglen allweddol yn bresennol yn swyddfa'r DU - **Cyfleuster Partneriaethau Rhyngwladol** (https://efi.int/partnerships) a'r **Gynghrair Bioeconomi Gylchol** (https://circularbioeconomyalliance.org).  Mae'r Cyfleuster Partneriaethau Rhyngwladol yn ganolfan wybodaeth ac arbenigedd fyd-eang sy'n cefnogi diwygiadau polisi a llywodraethu i ddiogelu coedwigoedd y byd. Mae'n hwyluso partneriaethau rhwng gwledydd cynhyrchu a gwledydd sy'n defnyddio cynhyrchion i sicrhau eu bod yn meithrin pren yn gyfreithiol ac mewn ffordd gynaliadwy sy'n erbyn datgoedwigo, ac yn hwyluso'r ffordd y caiff nwyddau amaethyddol eu cynhyrchu a'u masnachu.

Bydd yr FCDO yn gweithio gyda EFI i sefydlu Canolfan Ryngwladol ar gyfer Llywodraethu Coedwigoedd (IFGH) a fydd yn gwasanaethu rhwydwaith eang o bartneriaid gan adeiladu o fodel ymgysylltu EFI â llunwyr polisi a chyrff ymchwil. Y gobaith yw y bydd yr IFGH yn gweithredu o swyddfeydd newydd EFI yn y DU.

Disgwylir i swyddfa'r DU gryfhau'r berthynas a'r cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU ac EFI ymhellach a chaniatáu i arbenigwyr EFI gymryd rhan fwy gweithredol mewn cyfarfodydd a thrafodaethau sy'n digwydd yn y DU. Unwaith y bydd y Cytundeb Gwlad Letyol ar waith, dylai fod yn haws i bob corff ac unigolyn yn y DU ymgysylltu'n uniongyrchol ag EFI oherwydd ei bresenoldeb ffisegol yn y DU.  Byddwn yn parhau i fonitro sut mae'n cyflawni dros Gymru drwy'r sefydliadau sy'n aelodau.

Unwaith eto, diolch am godi'r pwnc pwysig hwn.  Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd
a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 5.2

Y Pwyllgor Deisebau

Petitions Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Claire Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Danfonwyd copi at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

17 Gorffennaf 2024

Annwyl Claire Pillman,

**Deiseb P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas**

Ystyriwyd y ddeiseb uchod gan y Pwyllgor yn ein cyfarfod ar 8 Gorffennaf ynghŷd ag ymateb gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, dyddedig 21 Mehefin, ac ymateb y deisebydd, dyddedig 30 Mehefin.

Mae ateb Ysgrifennydd y Cabinet ac ymateb y deisebydd yn nodi ei bod yn parhau'n aneglur a yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y posibilrwydd o gau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas. Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech nodi eich penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted â phosibl a phryd y gwnaed y penderfyniad hwnnw, ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynlluniau i ymgysylltu â'r deisebwyr a'r gymuned leol.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys gohebiaeth gysylltiedig, ar gael ar ein gwefan: **https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=44000&Opt=0**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor yn y cyfeiriad e-bost isod, neu ar 0300 200 6454. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy e-bost at y tîm clercio ar **deisebau@senedd.cymru**

Yn gywir,



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Jack Sargeant AS
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Our Ref: CX24-130
Your Ref: P-06-1447

Jack Sargeant MS
Petitions Committee
Welsh Parliament

By email: petitions@senedd.wales

14 August 2024

Dear Jack,

## Petition P-05-1447 Stop Natural Resources Wales closing the visitor centre at Ynyslas National Nature Reserve

Thank you for your recent letter regarding the status of Ynyslas Visitor Centre.

On Wednesday 31 July, we launched a consultation with our Trade Unions and started the process of engagement with staff on proposals to restructure our organisation and reduce our Grant in Aid staff budget by £13 million before 1 April 2025.

The purpose is to re-focus our resources on the activities that will have the most impact on nature, climate and minimising pollution, as well as the statutory work that only NRW can do. Our aim is to mitigate job losses as much as possible.

As a result of our prioritisation work, one proposal is that we will no longer operate catering and retail provision at our visitor centres at Bwlch Nant y Arian, Coed y Brenin and Ynyslas. Instead we propose to actively seek out other partners to run the centres, while site access will remain open for walking, biking, play areas, car parking and toilet provision.

The National Nature Reserves and forests around visitor centres are key sites for us. There is no question that we want to conserve and protect these sites so that nature can recover, and we are unequivocal that public access to these sites will be maintained. We will continue to carry out all statutory duties and will consider the indirect effects of any recommendations.

Following our consultation, which will run until Friday 13 September, the NRW Board will make a final decision on the change proposal. At that point, we will write again and explain what the changes mean for the delivery of services at these sites, and our plans to inform and engage with the local community.

There will not be a public consultation on our proposals. In 2022/23 we held a public consultation on our new Corporate Plan, Nature and People Thriving Together, which sets our strategic direction and priorities through to 2030. The current internal consultation is about how we ensure a focus on those Corporate Plan priorities whilst adapting to live within our financial means.

Yours sincerely,



**Clare Pillman**

**Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru**
**Chief Executive, Natural Resources Wales**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg a byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hynny arwain at oedi.
Correspondence in Welsh is welcomed, and we will respond in Welsh without it leading to a delay.

CILIP CYMRU WALES Ar gyfer gweithwyr proffesiynol Llyfrgell a gwybodaeth

CILIP CYMRU WALES For library and information professionals

Annwyl Syr neu Fadam,

A fyddech mor garedig ag ystyried y llythyr atodedig fel rhan o'ch ymgynghoriad, byddwn yn gwerthfawrogi cadarnhad o hyn os gwelwch yn dda.

Cofion, Louis

>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>>. >>>>>>>>>>

Welsh Government Offices
Cathays Park
King Edward VII Avenue
Cardiff
CF10 3NQ

10 Medi 2024

**Llythyr agored ynghylch effaith y bwriad i gau Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru**

Mae Sefydliad Siartredig Gweithwyr Proffesiynol Llyfrgell a Gwybodaeth (CILIP) yn cynrychioli miloedd o weithwyr proffesiynol llyfrgell, gwybodaeth, gwybodaeth a data ledled y DU a thu hwnt. Gyda'n cefnogaeth ni, mae ein haelodau'n darparu buddion cyhoeddus trwy wasanaethau rhagorol ar draws pob sector gan gynnwys llyfrgelloedd cyhoeddus; y rhai mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion; ar draws y GIG; y tu mewn i lywodraethau a seneddau; ac mewn diwydiant. Mae ein fframwaith moesegol a'n Siarter Frenhinol yn ein hymrwymo i gynnal, hyrwyddo ac amddiffyn yr egwyddor o fynediad cyffredinol at wybodaeth ddibynadwy a chadw gwybodaeth.

Rydym yn ysgrifennu i fynegi ein pryder ynghylch y bwriad i gau Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, i nodi sut y bydd hyn yn effeithio ar gyfanrwydd a hygrededd Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar wead ehangach gwybodaeth ac ymchwil arbenigol yn y DU.

Mae'r llyfrgell ei hun yn gartref i gasgliad unigryw ac ystorfa o wybodaeth o bwys rhyngwladol. Mae hyn yn llywio penderfyniadau nid yn unig Cyfoeth Naturiol Cymru ond hefyd Llywodraeth Cymru a'i weinidogion, awdurdodau lleol, a swyddogion.

Arbenigedd llyfrgellwyr proffesiynol sy'n galluogi'r casgliadau hyn i gael eu catalogio, eu cadw, eu dehongli, eu strwythuro, a sicrhau eu bod ar gael mewn ffordd sy'n gynaliadwy, yn atebol, ac yn gydnaws â galluogi staff Cyfoeth Naturiol Cymru, amgylcheddwyr, gweinidogion, ymchwilwyr, curaduron, a defnyddwyr lleyg i gael y budd mwyaf posibl ohonynt, yn bersonol ac ar-lein.

Fel sefydliad sy'n ystyried cau eich gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth, byddem yn eich annog yn gryf i ystyried y canlynol:

• Dros amser, daw llyfrgellydd proffesiynol neu bwnc-arbenigol nid yn unig yn arbenigwr yn y ddisgyblaeth bwnc, ond hefyd ar gymhwyso'r casgliad i'r ddisgyblaeth honno. Nid mewn gwybod y pwnc yn unig y mae eu harbenigrwydd, ond mewn mwyhau gwerth y defnydd wrth oleuo y pwnc hwnw i wahanol ddefnyddwyr ;

• Mae llyfrgellwyr arbenigol mewn sefyllfa unigryw i ddefnyddio'r offer technoleg diweddaraf i ddatgloi cyfleoedd newydd ar gyfer ymgysylltu â deunydd, mewn ffordd foesegol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith;

• Am yr un rheswm, mae'n bwysig lleoli gwasanaethau llyfrgell a gwybodaeth o fewn eich sefydliad mewn ffordd sy'n rhyngweithio ag adrannau eraill yn ogystal â chynlluniau digidol a strategol, ac sy'n cynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig yng ngoleuni'r materion amgylcheddol brys sy'n effeithio ar Gymru.

• Llyfrgellwyr proffesiynol sydd yn y sefyllfa orau i weithredu fel 'pont' rhwng potensial eich casgliadau a chenhadaeth eich sefydliad. Rôl ein proffesiwn yw sicrhau bod newid yn llwyddiannus ac yn cael yr effaith fwyaf ar eich sefydliad a'ch cymuned.

Rydym yn cydnabod y bydd hwn yn gyfnod heriol ac anwadal i Cyfoeth Naturiol Cymru fel sefydliad, ond rydym yn eich annog yn gryf i ailystyried eich cynnig i gau'r gwasanaeth llyfrgell a gwybodaeth, er mwyn cyfyngu ar yr effaith negyddol ar staff proffesiynol i'r graddau mwyaf posibl, a chynnal mynediad at y casgliadau, yr adnoddau a'r arbenigedd tra byddwch yn gweithio drwy unrhyw ailstrwythuro.

Rydym yn parhau i fod ar gael ichi os byddai'n ddefnyddiol cyfarfod i drafod y pryderon hyn. Gobeithiwn y byddwch yn cadw mynediad at Wasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru fel ei fod yn parhau i chwarae rhan hanfodol mewn penderfyniadau am bolisïau amgylcheddol Cymru yn y dyfodol.

Cofion cynnes,



**Louis Coiffait-Gunn**
**CEO, CILIP – y gymdeithas llyfrgell a gwybodaeth**

**Jamie Finch**

**Cadeirydd, CILIP Cymru Wales**

CILIP Cymru Wales is CILIP in Wales. It's the leading voice for the information, knowledge management and library profession in Wales. Our goal is to put information and library skills and professional values at the heart of a democratic, equal and prosperous Welsh society. CILIP is a registered charity, no. 313014.

**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Claire Pillman
Prif Weithredwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfeydd Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd
CF10 3NQ

Anfonwyd copi at Gadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith yn y Senedd

16 Medi 2024

Annwyl Claire,

P-06-1474 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

Heddiw, fe drafododd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb uchod gan Gareth Jones, sydd wedi bod yn casglu llofnodion ar ein gwefan. O'r 13,245 llofnod ar y ddeiseb, mae 8,270 yn dod o Gymru. Roedd y deisebwyr am iddi gael ei thrafod heddiw am eu bod yn credu y bydd tîm Gweithredol Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwneud penderfyniad terfynol i gau pob canolfan ymwelwyr oddeutu 20 Medi.

*Geiriad y ddeiseb*

Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas

*Mae cau'r canolfannau hyn yn mynd yn groes i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.*

*Byddai cau'r canolfannau ymwelwyr hyn yn cael effaith negyddol pellgyrhaeddol ar yr economi leol, yr amgylchedd, a llesiant cymunedol.*

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael gohebiaeth a lofnodwyd ar y cyd gan Cycling UK, Beicio Cymru, UK MTB Trail Alliance, Beicio Mynydd Cymru a Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru, ynghyd â dros 90 o grwpiau, sefydliadau a busnesau eraill sy'n codi pryderon ynghylch effaith y cau arfaethedig hwn.

Yn ogystal â'r ddeiseb hon, gwnaeth y Pwyllgor hefyd drafod eich ymateb dyddiedig 14 Awst i ddeiseb gysylltiedig, P-06-1447 Atal Cyfoeth Naturiol Cymru rhag cau'r ganolfan ymwelwyr yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Ynyslas, a gyflwynwyd gan Kim Williams. Ysgrifennodd y Pwyllgor atoch yn flaenorol i ofyn am eglurhad o'r penderfyniad i gau canolfan ymwelwyr Ynyslas, ac mae hefyd wedi sicrhau bod gan Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith wybodaeth am y mater hwn.

O ystyried natur frys y sefyllfa, mae'r Pwyllgor yn ysgrifennu i rannu pryderon y deisebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb cyn i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud ei benderfyniad. Bydd y Pwyllgor yn gofyn am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y ddeiseb hon, ni waeth beth yw penderfyniad Cyfoeth Naturiol Cymru.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ganlyniad trafodaethau Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru ar y mater hwn, drwy anfon e-bost at y tîm clercio yn deisebau@senedd.cymru.

Yn gywir,



Gareth Price

Clerc i'r Pwyllgor Deisebau

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

19 Medi 2024

Annwyl Lywydd,

**Dadl ar y Cyd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig: Cynigion ar gyfer cynllun ffermio cynaliadwy**

Fel y gwyddoch efallai, y tymor diwethaf cyhoeddwyd adroddiadau gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar gynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig hefyd adroddiad ar raglen Cyswllt Ffermio.

Mae ein Pwyllgorau wedi bod yn cydweithio'n agos i sicrhau bod y broses o ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn destun gwaith craffu digonol, ac i geisio lleihau dyblygu gwaith ar gyfer Aelodau a'n rhanddeiliaid. Mae hyn yn adeiladu ar waith y Pwyllgorau ar y cyd wrth graffu ar ddatblygiad Deddf Amaeth (Cymru) 2023.

Er mwyn sicrhau dadl gynhwysfawr ar adroddiadau'r ddau Bwyllgor ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac i barhau â'n hymdrechion i leihau dyblygu gwaith ar gyfer Aelodau a rhanddeiliaid, rydym yn ysgrifennu i gynnig bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried caniatáu i'r Pwyllgorau gynnal dadl ar y cyd ar y ddau adroddiad.

Rydym yn cynnig hefyd y dylid trafod adroddiad Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig ar y rhaglen Cyswllt Ffermio fel rhan o'r un ddadl, a hynny oherwydd y bydd Cyswllt Ffermio,

neu'r rhaglen a ddaw yn ei le, yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi ffermwyr a rheolwyr tir i ddeall ac addasu i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Os cynhelir dadl ar y cyd, rydym yn rhagweld y bydd angen rhai mân newidiadau i'r drefn arferol ar gyfer dadleuon pwyllgorau, sef:

- byddai'r cynnig ar gyfer y ddadl yn gofyn i'r Senedd nodi'r tri adroddiad;
- teitl y ddadl fyddai "Dadl ar y cyd ar adroddiadau gan Bwyllgorau ynghylch y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a Chyswllt Ffermio";
- byddai Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Paul Davies AS, yn agor y ddadl ac yn ymateb iddi; a
- byddai Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd, a Seilwaith, Llyr Gruffydd AS, yn cael ei alw i siarad yn syth ar ôl i Paul Davies AS agor y ddadl.

Gobeithiwn y bydd y drefn hon yn ffordd effeithlon o ddefnyddio amser y Senedd gyfan. Fodd bynnag, gan y byddai'r drefn hon ychydig yn wahanol i'r arfer, gofynnwn ichi ystyried y canlynol:

- rhoi amser ychwanegol i Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith i siarad, gan gydnabod y bydd yn cyflwyno adroddiad;
- rhoi amser ychwanegol i'r Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig siarad, gan gydnabod y bydd yn ymateb i dri adroddiad; ac
- o fewn rheswm, rhoi cyfle i bob Aelod o'r Senedd sy'n dymuno siarad yn ystod y ddadl wneud hynny.

Nid ydym yn credu y byddai angen unrhyw newidiadau sylweddol eraill i'r weithdrefn arferol ar gyfer dadleuon y Senedd ar adroddiadau pwyllgorau. Rydym yn rhagweld y byddai angen caniatáu awr ar gyfer y ddadl hon.

Rydym yn gobeithio y gallwch ymateb yn ffafriol i'n cais. Credwn y bydd y drefn a gynigiwn yn gwella'r broses graffu drwy ganiatáu i'r Aelodau drafod y materion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau gyda'i gilydd, ac felly edrych ar yr holl faterion yn eu cyfanrwydd. Credwn hefyd mai dyma'r ffordd fwyaf effeithlon o ddefnyddio amser i drafod yr adroddiadau hyn ar gyfer Aelodau, y Llywodraeth, rhanddeiliaid ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Masnach
a Materion Gwledig

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr
Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Copi at: Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd,
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

12 Awst 2024

Annwyl Llŷr,

**Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024.**

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch ar 16 Gorfennaf. Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol osod Rheoliadau Fframwaith Windsor (Cynllun Symud Nwyddau Manwerthu: Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid) 2024 mewn perthynas â Chymru. Rwyf wedi cyflwyno Datganiad Ysgrifenedig sydd i'w weld yma.

Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisi datganoledig a byddant yn gymwys i Gymru. Mae'r Rheoliadau'n ymestyn i Gymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Offeryn Statudol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chafodd ei osod gerbron Senedd y DU ar 9 Awst 2024 a daw i rym ar 26 Awst 2024 am Rheoliad 3 a 2 Medi 2024 am unrhyw ddiben arall.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud a'i diwygio yng Nghymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i sylwedd y diwygiadau fod yn gymwys i Gymru. Mae'r Offeryn Statudol yn ymwneud â maes datganoledig. O ystyried y ffaith ei fod yn gymwys i Ogledd Iwerddon, ni fyddai o fewn cymhwysedd Gweinidogion Cymru i wneud yr Offeryn Statudol hwn yn un i Gymru yn unig. Yn ogystal, nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Mae hyn yn sicrhau llyfr statud cydlynol a chyson a bydd y rheoliadau ar gael mewn un offeryn. Mae gwneud y rheoliadau yn rhai sy'n berthnasol i Brydain Fawr gyfan hefyd yn sicrhau na fydd perygl o wahaniaeth deddfwriaethol yn y DU a fyddai'n debygol o beryglu parhad gweithrediad Fframwaith Windsor.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Mike Hedges MS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad.

Yn gywir

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



**Huw Irranca Davies AS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jack Sargeant AS
Y Pwyllgor Deisebau

14 Awst 2024

P-06-1395 (Atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent)

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin mewn perthynas â deiseb P-06-1395 (atal datblygiadau newydd sylweddol ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Gwastadeddau Gwent).

Nid yw'r Pwyllgor yn gallu cynnal darn penodol o waith ar y mater hwn ar hyn o bryd, ond bydd yn gwneud yn siŵr ei fod yn cael ei gadw mewn cof wrth inni ystyried ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Yn benodol, efallai yr hoffech chi nodi y bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad ar atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, gan ddechrau ym mis Medi.

Byddaf yn rhoi copi o'n hadroddiad ichi ar ôl iddo gael ei gyhoeddi.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS,

Cadeirydd, y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg | We welcome correspondence in Welsh or English.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HID/PO/227/2024

Mike Hedges AS
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

30 Awst 2024

Annwyl Mike,

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r cytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol i roi gwybod i chi y bydd y Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn cael ei gynnal ar 16 Medi yn swyddfeydd DEFRA yn Marsham Street, Llundain.

Dyma fydd cyfarfod cyntaf y grŵp hwn ers mis Medi 2023 ac rwy'n obeithiol y bydd yn arwain at ailosod cysylltiadau.

Byddaf yn cynrychioli Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth ar draws y DU, rhaglen waith ar y cyd ar gyfer gwella cydweithredu, cyfleoedd a heriau i farchnadoedd amaeth y DU a diogelu a gwella bioamrywiaeth y DU. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trafodaethau, a bydd hysbysiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl y cyfarfod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn hefyd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Yr eiddoch yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd MS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

2 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu yn dilyn eich ymholiad ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor 'Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25', yn enwedig mewn perthynas ag argymhelliad rhif 16. Fel y byddwch yn cofio, ysgrifennais atoch yn flaenorol ym mis Mehefin i ddarparu gwybodaeth am ddadansoddiad cyllid Teithio Llesol. 'Rwyf bellach yn gallu darparu rhagor o wybodaeth am gyllid cyfalaf Bws. Hoffwn ymddiheuro am yr oedi wrth ymateb.

| Cyllid Cyfalaf Bws | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2019-20** | **2020-21** | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** |
| Cyfanswm | £ - | £1,850,000 | £ 1,318,164 | £16,717,596 | £19,900,914 | £41,802,000 |
| Poblogaeth* | 3,152,879 | 3,169,586 | 3,131,640 | 3,131,640 | 3,131,640 | 3,131,640 |
| Tocynnau Integredig | | | | | £ 1,815,474 | £ 2,622,000 |
| Trawsnewid Bysiau | | | | | £ 80,721 | £ 4,185,000 |
| Dadgarboneiddio Bws | | | | | £ 7,974,535 | £23,193,000 |
| Bws sy'n gysylltiedig ag Awdurdodau Lleol | | £1,850,000 | £ 1,318,164 | £21,912,166 | £ 25,000 | |
| Cyfnewidfa Caerdydd | | | | £17,689,310 | £ 6,331,410 | |
| TrC - Metro – Bws gan gynnwys Burns | | | | | £ 8,839,755 | £11,802,000 |
| Cyfanswm y pen | £ - | £ 1 | £ 0 | £ 5 | £ 6 | £ 13 |

*Amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn yw ffigyrau'r poblogaeth. Mae'r ffigyrau ar gyfer y blynyddoedd diweddar a'r blynyddoedd presennol yn seiliedig ar yr amcangyfrif diweddaraf sydd ar gael, sef 2022.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales

**Ken Skates AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd, Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

11 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu i roi rhagor o wybodaeth i'r pwyllgor yn dilyn llythyr fy rhagflaenydd ar 1 Mawrth. Yn y llythyr hwnnw, ymrwymodd y Llywodraeth i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ynghylch argymhelliad 9, ac ymateb i argymhelliad 13.

**Argymhelliad 9**

Dylai'r Gweinidog egluro'r meini prawf ar gyfer dyrannu Grant Cymorth Rhwydwaith Bysiau a sut y bydd yn rhyngweithio â'r Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau presennol. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithredu'r grant o fewn y chwe mis nesaf.

**Ymateb: Derbyn**

Gofynnwyd i ATCO (Cymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth), y sefydliad ymbarél sy'n cynrychioli cydgysylltwyr trafnidiaeth awdurdodau lleol; a CLlLC (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) nodi methodoleg a fyddai'n darparu rhaniad cyfartal o gyllid ar draws rhanbarthau. Ystyriwyd llawer o opsiynau, fodd bynnag, roedd yr un a ddewiswyd yn ymwneud â'r fformiwla a ddefnyddir i ddyrannu'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau. Cytunodd bob un o'r 22 o arweinwyr awdurdodau lleol ar hyn mewn cyfarfod o Fwrdd Gweithredol CLlLC ym mis Ionawr eleni a'i gyfleu i bob awdurdod arweiniol rhanbarthol cyn i'r cyllid gael ei ddosbarthu.

Ystyriwyd nifer o fetrigau ac ystyriaethau a oedd yn cynnwys y fethodoleg o amgylch rhaniad y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES); rhaniad y Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau (BTF); cyfanswm teithwyr; milltiroedd; poblogaeth; Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.  Roedd ystyriaeth arall yn ymwneud â'r Cymorth Trafnidiaeth Gyhoeddus a Theithio Rhatach o fewn Gwybodaeth Gefndir Llywodraeth Cymru ar gyfer Asesiadau o Wariant Safonol (Llyfr Gwyrdd).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd CLlLC yn cydnabod nad oedd atebion hawdd er mwyn pennu rhaniad teg rhanbarthol, gan fod gan bob rhanbarth nodweddion gwahanol gyda gwahanol fetrigau yn ffafrio rhanbarthau'n wahanol.

Roedd ystyried y fethodoleg hefyd yn cynnwys edrych ar fynegi dyraniadau 2023/24 ar gyfer Grant Cynnal Gwasanaeth Bysiau (BSSG), BES a BTF fel canran yn ôl rhanbarth neu drwy gymryd cyfartaledd o'r dyraniad gorau yn seiliedig ar fetrig, dyraniad yn seiliedig ar anghenion a nodwyd a'r dyraniad BSSG, BES a BTF cyfun. Nid oedd yn y naill na'r llall yn cyflawni'r ymrwymiadau a nodwyd, a byddent yn golygu trosglwyddiadau rhyng-ranbarthol a fyddai'n rhwystro penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau y gellid eu gosod.

Felly, cytunwyd gydag ATCO a CLlLC mai'r fformiwla ddiweddaraf a ddefnyddiwyd i ddyrannu BTF yn ôl rhanbarth oedd y dull dosbarthu mwyaf teg o hyd.

Trefnwyd cyfarfodydd gan swyddogion gyda holl arweinwyr rhanbarthol awdurdodau lleol, cynrychiolwyr o ATCO a CLlLC i fynd drwy'r fethodoleg a'r rhesymeg er mwyn sicrhau bod pawb yn rhan o'r broses.

Yna paratowyd adroddiad CLlLC yn seiliedig ar yr uchod a'i gyflwyno yn ei Fwrdd Gweithredol (arweinwyr pob un o'r 22 awdurdod lleol ledled Cymru) ar 19 Ionawr eleni (2024) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y dyraniadau rhanbarthol arfaethedig. Cafodd yr adroddiad ei glirio gan y Cynghorydd Andrew Morgan ac fe'i derbyniwyd/cefnogwyd yn y cyfarfod hwn gan arweinwyr awdurdodau lleol.  Yn dilyn y cyfarfod hwn, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddyrannu'r cyllid fel y cytunwyd arno.

Mae'r rhaniad pellach o gyllid a wnaed gan bob awdurdod arweiniol rhanbarthol i bob un o'u hawdurdodau lleol cyfansoddol wedi bod yn fater iddynt hwy gytuno arno yn unol â'u dyletswyddau statudol, asesiad o anghenion lleol, ac amodau'r cynllun, ac nid yw wedi cynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'r cynllun Grant Rhwydwaith Bysiau (BNG) yn cyd-fynd â'r cynllun Cynnal Gwasanaethau Bysiau (BSSG) presennol i ddarparu cyllid i awdurdodau lleol i sicrhau gwasanaethau na fyddent fel arall yn cael eu darparu drwy eu dyletswyddau statudol presennol.

Ers cyflwyno'r cynllun mae rhwydweithiau bysiau wedi sefydlogi ledled Cymru ac wedi rhoi hyder i deithwyr a rhanddeiliaid ehangach.  Mae swyddogion yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd â'r awdurdodau rhanbarthol arweiniol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei gyflawni a'i fonitro.

**Argymhelliad 13**

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf o fewn y chwe mis nesaf ar y cynnydd a wnaed wrth fwrw ymlaen â'r argymhellion gan y Grŵp Trawsbleidiol ar Deithio Llesol.

**Ymateb: Derbyn**

Gwnaeth y Grŵp Trawsbleidiol 51 o argymhellion, gan gwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:
- Cyflawni
- Llywodraethiant
- Newid ymddygiad
- Cydraddoldeb
- Teithio llesol i'r ysgol
- Monitro a data

- Newidiadau deddfwriaethol

Yr argymhelliad mwyaf pellgyrhaeddol oedd datblygu cynllun cyflawni teithio llesol cenedlaethol. Cafodd ein Cynllun cyflawni teithio llesol newydd 2024 i 2027 | LLYW.CYMRU ei lywio gan argymhellion y Grŵp Trawsbleidiol ac mae'n nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a phartneriaid eraill yn eu cymryd i weithredu'r ymrwymiadau teithio llesol yn Llwybr Newydd ac i gryfhau'r fframwaith ar gyfer darparu teithio llesol ledled Cymru hyd at 2027. Cafodd ei gyhoeddi ar 14 Mawrth 2024. Ochr yn ochr â'i gyhoeddi, darparodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl i bob un o'r 51 o gamau gweithredu i Gadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol a Chadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol.

Yn gywir,



**Ken Skates AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Cabinet Secretary for the Economy, Transport and North Wales

## Welsh Government Response to Cross-Party Group on the Active Travel Act's Review of the Active Travel (Wales) Act 2013

The Welsh Government welcomes the Cross-Party Group's report and appreciates its initiative in reviewing the Active Travel (Wales) Act 2013. The following is the Welsh Government's response.

### Welsh Government response to each recommendation

### Delivery

**1.** TfW should endeavour to streamline its active travel funding bidding and monitoring processes whilst maintaining the effectiveness of its audit function.

**Response - Accept**

The Welsh Government and Transport for Wales (TfW) amended the application process for 2023-24 and further refined it for 2024-25. The processes for delivering the Active Travel Fund are regularly reviewed; for example, the Active Travel Board has scrutinised the management and delivery of the Active Travel Fund. Where improvements are identified that we agree can improve the delivery of the Active Travel Fund, these are implemented.

**2.** Welsh Government should find digital solutions that will enable greater use of the data compiled in ATNMs [Active Travel Network Maps] such as incorporating route information into services provided by platforms like Google Maps and linking more efficiently into the Street Gazetteer.

**Response - Accept in principle**

The data is owned by the local authorities and can only be made available with their permission. We are in the process of putting permissions in place and addressing concerns of local authorities about how the data can be used.

**3.** All local authorities should develop an Active Travel Delivery Programme which should include: its approach to modal shift in favour of active travel; its priorities for the delivery of infrastructure; how it will promote active travel; how the various departments of the council will contribute to developing active travel; its approach to increasing active travel to school; and how it intends to monitor active travel levels. Transport for Wales should develop a model programme, in consultation with the Active Travel Board.

**Response - Accept**

We have included this in the Active Travel Delivery Plan and accept that it can provide significant value if it has high level ownership within each authority and is concise and focused on actions and outcomes. We need to avoid this being regarded and treated as a hurdle that diverts staff time.
Corporate Joint Committees are currently developing Regional Transport Plans (RTPs). The RTPs will incorporate and apply our strategic national programmes to

regional and local priorities. The RTPs will provide a strategic framework for local authorities to deliver, including planning and prioritisation of strategic cross-boundary active travel routes.

**4.** An extensive workforce development package for active travel should be put in place. This should involve working with professional bodies, allocating increased funding to better resource active travel delivery units, and developing mechanisms for the effective sharing of best practice.

**Response - Accept**

We are developing, with TfW, a leadership, training and professional development programme – Academi Teithio Llesol. This will provide a focus for training and development in active travel for leaders and practitioners across Wales. The first training courses and materials were made available in 2023.

**5.** The development of a small number of centrally funded, expert delivery units, that can be called upon by local authorities to deliver routes and associated services that will deliver high levels of modal shift. This to be accompanied by a new funding package to pay for such routes and measures aimed at addressing all the barriers to active travel likely to be encountered by the target group for the infrastructure. Part of the function of the package will be to demonstrate, with systematic monitoring, how effective active travel can be in bringing about modal shift. In establishing the units, Welsh Government should draw on the experience and best practice of the Burns Delivery Unit.

**Response - Accept**

We will enhance the capacity and skill base in TfW to support the delivery of active travel schemes and programmes across Wales, in the form of the TfW Active Travel Design Hub and creating regional teams. This will build on TfW's existing roles and includes:

- a design team to develop and design complex and challenging high-impact schemes;
- enhanced programme management to support the delivery of complex and challenging schemes by partners;
- provide expert technical advice and guidance to local authorities on delivery of their active travel programmes;
- updating and developing the Active Travel Act Guidance;
- identifying and developing innovative technical and delivery solutions; and
- gathering and sharing best practice.

**6.** The new National Delivery Plan should set out priorities for infrastructure development and delivery based on maximising modal shift. These priorities will determine how the bulk of the Active Travel Fund is invested, though with increased weighting for projects in deprived areas, and utilising percentages rather than absolute numbers in rural areas. The ATNM compilation process should be amended to make it clear in consultations with the public which routes are being prioritised and indicating projected delivery dates.

**Response - Accept in part**

The Active Travel Fund appraisal process already gives increased weighting for projects in deprived areas and looks at relative rather than absolute potential to account for schemes in rural areas.

The new prioritisation tool facilitates better provision of information to the public on the relative priority of schemes. Active Travel Act Guidance advises that the main prioritisation stage should take place following public consultation and take feedback received into account. Prioritisation can be iterative and take place before and after consultation.

Requiring local authorities to specify projected delivery dates during public consultation would be unfair when this will depend on how much funding is made available and the competing schemes from other local authorities.

**7.** The revised approach to WelTAG should reflect and emphasise the important role of the ATNM process in informing the early stages of development of active travel schemes and support a more streamlined approach to the development and delivery of active travel projects, focusing on the inclusion of key requirements and reducing the need for any unnecessary work.

**Response - Accept**

The new WelTAG approach provides guidance on the appropriate level of appraisal required for schemes of different scales and at different stages of development.

**8.** Welsh Government should develop a dedicated procurement framework agreement for active travel related activities.

**Response - Accept in principle**

As part of their remit, TfW are strengthening the public sector's ability to access a wider range of active travel goods and services. They review existing and in-development procurement routes, initially signposting local authorities on how to access and make more effective use of existing frameworks. TfW will also work to inform the development of future frameworks being developed by other organisations, to further widen access to active travel related services and activities. TfW will identify and address gaps in provision for specific active travel activities, such as cycle hire roll-out, to improve access for key partners, including local authorities, whilst ensuring that relevant frameworks also fulfil wider government objectives.

**9.** Welsh Government should move to a three-year funding allocation cycle for the Active Travel Fund, including the core funding element.

**Response - Accept in principle**

In practice, multi-year funding can be allocated for construction schemes. If a scheme progresses as intended through the stage gates, there is a presumption in

favour of continued funding and local authorities only need to update the scheme information each year. This approach will continue to be subject to the processes by which the Senedd agrees Welsh Government budgets.

**10.** There is a need for a significant increase in revenue funding for active travel to develop behaviour change programmes and other measures designed to break down barriers to active travel.

**Response - Accept in principle**

Welsh Government accepts that an increase in behaviour change activities helps to overcome barriers to active travel and has consequently made additional funding available in 2023-24 and 2024-25. However, budgets, particularly for revenue, are extremely challenging and Welsh Government cannot currently commit to further increases in funding for behaviour change activities.

**11.** The Welsh Government should develop an active travel communications package for local authorities incorporating the publication of the long promised active travel promotional toolkit.

**Response - Accept**

TfW has developed a promotional toolkit to support local authorities in engaging with their communities on active travel developments and opportunities. This toolkit, published in Spring 2024, will be used to communicate the use of active travel for purposeful everyday journeys, helping to increase the impact of investment in active travel infrastructure.

The toolkit will support the preparation of high-quality promotional materials for specific schemes or developments, as well as audiences. It includes resources that encompass key information to generally promote active travel such as key statistics, key messaging on the benefits of active travel, case studies, inclusive images and other resources such as templates and designs. These resources can be used for general local campaigns or presented alongside scheme specific materials to reinforce the opportunities to change. The toolkit will be reviewed and updated regularly throughout the life of the plan.

**12.** The Welsh Government should produce a succinct and practical guide to active travel and the Act targeted at local authority members and officers in departments whose work impacts on the delivery of active travel.

**Response - Accept**

The Welsh Government will work with local authorities to develop guidance on the new duties, arising from the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024, to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution. As part of this consultation, the Welsh Government will identify and target local authority members and officers in departments whose work impacts on the delivery of active travel and consider how best to support them to promote active travel.

**13.** The time taken, and inconvenience caused by the difficulty of crossing busy roads is a key barrier to increasing walking. Local authorities should be encouraged to review crossing timings to favour pedestrians and to increase crossing availability significantly. Active travel provision at junctions should facilitate the new priorities given to walkers and cyclists in the recent revision of the Highway Code.

**Response - Accept**

The Welsh Government was involved in developing the changes to the Highway Code and will, with the support of the TfW Design Hub, identify ways in which these can be best supported when the Active Travel Act Guidance is next updated, alongside guidance on other improvements to the walking and cycling environment.

**14.** The new National Delivery Plan should set out a series of measures for securing better integration of active travel with public transport.

**Response - Accept**

Through the Active Travel Delivery Plan, the Welsh Government will continue to improve the accessibility of bus and rail services by active travel through working with local authorities, TfW and other public transport providers. The Welsh Government will work with partners to enhance active travel routes to create a seamless, attractive and efficient transport system, building on and extending the existing station network plan and station travel plan programmes. These programmes will be enhanced by programmes to increase the provision of quality active travel facilities at bus and rail interchanges.

**Governance**

**15.** A new National Delivery Plan for Active Travel in Wales should be put in place by the end of 2022. The Plan should contain a clear statement that its aim is to help realise the Welsh Government's commitment in Llwybr Newydd to achieving significant levels of modal shift.

**Response - Accept in principle, but reject the timescale**

The National Transport Delivery Plan already includes 17 actions for improving active travel in Wales. The Welsh Government agrees that there is merit in supplementing this with a more detailed Active Travel Delivery Plan covering our priorities for 2024-2027, and reinforcing our commitment to achieving modal shift. This Plan needed to be developed in collaboration with delivery partners and had been shared in draft form with the Active Travel Board. The final version was published in Spring 2024.

**16.** The new National Delivery Plan should clarify and codify the role of TfW, local authorities, third sector bodies and Corporate Joint Committees in the delivery of active travel infrastructure and services. It should include a clear statement of who is responsible for doing what, and to whom they are accountable and how they work together.

**Response - Accept in principle**

The Active Travel Delivery Plan clarifies the roles and responsibilities of organisations involved in delivering active travel. However, this will be a snapshot and will be kept under review as the roles of Corporate Joint Committees and TfW evolve.

**17.** Local authorities, TfW and the Active Travel Board should be required to jointly produce ambitious but achievable national and local targets for outputs (such as metres of route brought to Guidance standards, number of schools enrolled in an active travel package) and outcomes (such as modal shift, number of people making at least one active travel journey each week, number of active travel journeys to school). These targets should be coupled with a standardisation of the monitoring of active travel across Wales. Baseline data, which can be used to assess impact on modal shift, should be put in place for all major active travel projects.

**Response - Accept in principle**

The Welsh Government will commence the development of targets when we have baseline data from the first National Travel Survey; these will be developed in consultation with the Active Travel Board and delivery partners, supported by an appropriate accountability framework.
The Welsh Government is currently finalising the national monitoring framework with TfW.

**18.** There should be a refreshed and restructured Active Travel Board with a small, dedicated and adequately resourced independent secretariat. The membership of the Board should be reviewed to ensure it has the degree of independence required to support its scrutiny function. The local authority presence and role on the Board should be enhanced. It should have clear terms of reference and defined powers that emphasise its role in scrutinising the Welsh Government and bodies that are charged with delivering active travel or are in receipt of active travel funding. It will have a remit to challenge the pace of change. It will advise on the development and implementation of the new Active Travel Delivery Plan. A key part of its role will be embedding active travel in relevant Welsh Government policies across all departments, with powers to access all relevant policy papers. It should have as an early priority the oversight of the implementation of the new active travel behaviour change programme. It will be a key monitor of compliance with the Act and its guidance, and will investigate and highlight instances of non-compliance. It will keep under review the effectiveness of the Welsh Government’s targets for active travel. It will be required to publish an annual report containing enhanced monitoring data (see the Data and Monitoring section of this report) from local authorities and the Welsh Government; progress on the implementation of the Delivery Plan; and progress made, and obstacles encountered, in embedding active travel provision across the Welsh Government and local authorities.

**Response - Accept in part**

We have reshaped the Active Travel Board with an independent chair, Dr Dafydd Trystan, and independent members to scrutinise and challenge the delivery by the Welsh Government, TfW and local authorities.

An independent secretariat was provided by the Design Commission for Wales on a trial basis. We are currently considering options for how the Board can be most effectively supported during 2024-25.

There is no non-legislative mechanism by which the Board can be given powers to access policy papers. However, where Welsh Government is aware of policy being developed that is relevant to active travel, this will be brought to the Board's attention.

**19.** The new National Delivery Plan for Active Travel should clearly state the importance and value of involving and engaging with local communities and local advocacy groups in all stages of the development of active travel. This must include serious efforts to engage with marginalised groups.

**Response - Accept**

This is already stated very clearly in the Active Travel Act Guidance and all application documentation. This has also been subject of Ministerial letters to local authority leaders.

**20.** Local authorities are the key bodies for delivering active travel. They should be supported and guided more to deliver Welsh Government policies on active travel. They should be incentivised further to deliver; and face the possibility of sanctions if they fail to do so.

**Response - Accept in principle**

The Cabinet is committed to treating local authorities as trusted partners in the context of Welsh Government funding of policy priorities, and this will continue to guide our approach.

Strengthening of local authority support functions is underway within TfW, as stated above. There has also been strengthening of guidance on active travel in relation to other policy areas, such as education and health. Welsh Government will also work with Local Authorities to develop its guidance in relation to the new duties arising from the Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024.

Where local authorities fall short of expectations, this almost always translates into failure to secure funding for schemes through the competitive allocation process. Further sanctions will be considered as a last resort and may be explored should support and guidance prove unsuccessful.

**21.** TfW's role as a centre of excellence and provider of expertise should be built on to deliver the Welsh Government's Active Travel Delivery Plan. TfW's role and

responsibilities in relation to active travel should be clarified and made public by the Welsh Government. Active travel should be built in to TfW's transport integration, including in its brand and publicity.

**Response - Accept**

TfW has a key role to play as a public transport guiding mind that integrates bus, rail and active travel. Their remit letter requires the TfW Board to lead the change to a multi-modal organisation.

The Active Travel Delivery Plan clarifies the roles and responsibilities of TfW in delivering active travel.

Active travel features heavily in TfW's brand and publicity. There are dedicated TfW active travel officers to ensure integration into the organisation's wider programme of work.

**22.** Should the restructured Active Travel Board fail to enthuse and change practice in local authorities, and to hold the Welsh Government to account over active travel progress, such that there is insufficient progress in achieving the aims of the Act, then the position should be reviewed within three years. Consideration should then be given to appointing a Commissioner, as in Manchester and England.

**Response - Accept in principle**

There are opportunities to consider the Board's work and provide support and make improvements on an on-going basis, rather than wait for a formal review.
The success of the restructured board will be reviewed in 2026.

**Behaviour Change**

**23.** Welsh Government should establish a centre of expertise on behaviour change within Transport for Wales.

**Response - Accept**

The Welsh Government recognises the importance of behaviour change in delivering mode shift in Wales. TfW have been growing their capacity in behaviour change and now have staff with dedicated expertise. They have also undertaken extensive research to inform behaviour change and communication activity and this will also be incorporated into the active travel promotional toolkit.

Behaviour change must be informed by reliable insight. We will use data to understand trends and provide information to support the removal of barriers and to influence behaviour change.

**24.** The new National Delivery Plan should set out the structure for a coordinated behaviour change programme that contains a range of hard and soft measures, which should include a clear role for Public Health Wales. Parallel to this, there

should be a culture change programme to promote the benefits of active travel amongst the general public and to improve driver behaviour around pedestrians and cyclists.

**Response - Accept in principle**

The Welsh Government supports behaviour change across a number of schemes and portfolios both within and outside of transport. Each scheme has a different focus and will therefore approach behaviour change in different ways and adapt approaches to their specific context or locality. Climate Action Wales is our public facing communication hub to encourage uptake of climate friendly behaviours, including active travel.

The Active Travel Delivery Plan highlights the role Public Health Wales can play in supporting active travel and we will strengthen collaboration between the different delivery partners working in this field to increase synergy and avoid duplication.

**Equalities**

**25.** Training in equalities issues for officials and contractors involved in the delivery of active travel, to form an integral part of the training programme advocated elsewhere in this report.

**Response - Accept**

This will be incorporated into the training programme as well as through dedicated inclusive design reviews.

**26.** Review the effectiveness and use of Equality Impact Assessments.

**Response - Accept in principle**

The Welsh Government is of the view that the first priority should be to offer additional training and support on use of EQIA and to identify schemes that would benefit from more detailed inclusive design review, as has been started in 2023-24 and carry these out to improve scheme design. As part of the application process for the Active Travel Fund TfW are already gathering more general information on EQIA, which can form the basis of a wider review.

**27.** There should be a targeted marketing campaign demonstrating the benefits of active travel and the Act to excluded groups.

**Response - Accept in principle**

The promotional toolkit provides resources to support local authorities to promote active travel, including specific messaging and resources to target underrepresented groups. The content of the toolkit will grow over time and additional resources will be developed to cover the widest breadth of audiences. The Welsh Government will also consider how best to promote the benefits of active travel, especially in relation to reducing or limiting air pollution. Consideration will also be given to how to best reach excluded groups. This may not necessarily be through a marketing campaign.

**28.** There should be encouragement and support for third sector enterprises providing access to low cost, quality bikes, and training in riding and maintaining bikes, particularly in areas of deprivation. Bike libraries could be a solution to the need to buy multiple replacement bikes as children grow out of them.

**Response - Accept**

The Welsh Government has already supported such schemes including E-move, See Cycling Differently, and Beics Ogwen. We will explore the most appropriate mechanism to provide easy-to-access support for not-for-profit schemes across Wales. The Welsh Government funded active travel promotion in schools programme often includes bike maintenance and repair sessions in schools. The Welsh Government also funds cycle training, instructor training and school bike fleets.

We will build on our existing support to not-for-profit organisations that provide access to lower cost second-hand bikes, bike repair and maintenance schemes, with a view to set up a new small volume grant scheme for such and related purposes.

**29.** Barriers that impede access for people using adapted bikes or trikes should be removed from all active travel routes in Wales.

**Response - Accept**

We recognise the importance of barrier free routes and fund barrier removal through the core grant to local authorities as well as on the National Cycle Network through Sustrans. As a result, according to Sustrans' own data, we have made quicker progress in barrier removal than elsewhere in the UK.

**30.** Ensure inclusive messaging in the promotion of active travel. Consideration to be given to the creation of a pooled bank of positive, inclusive active travel images across the sector.

**Response - Accept**

Inclusive messaging and images are part of the image bank that is being made freely available by TfW as part of the promotional toolkit described above. The content will be further expanded in response to gaps identified and requests from local authorities.

**31.** Many people have missed out on the opportunity to learn to ride earlier in life, therefore there needs to be widespread provision for adult cycle training, particularly for people with disabilities.

**Response - Accept**

Guidance for current funding for cycle training already highlights the increased emphasis to offer adult training as well as that aimed at children. Whenever we are able to, we offer additional funding to local authorities to deliver more cycle training, and in particular inclusive, adult and family cycle training. We allocated over £100k to this in 2023-24 in addition to our regular annual funding for cycle training from the Road Safety Grant.

**32.** To ensure greater equality of access to the benefits of active travel, a package of actions should be put in place aimed at providing better pathways into active travel for groups with currently low levels of participation in active travel, including women, the elderly, deprived communities, disabled people and ethnic minorities. Catering for the needs of these groups will improve active travel provision for all of us. Active travel monitoring data should capture information about these groups.

**Response - Accept in principle**

Inclusivity is a cross-cutting theme for our actions. Our e-move pilot included gender budgeting and, as mentioned above, inclusivity will be an important part of active travel promotion.

A specific survey commissioned in 2022 included questions about active travel and will provide data on active travel behaviour and attitudes amongst groups with currently low levels of active travel. This data will be published during 2024.

**Active Travel to School**

**33.** All local authorities should be encouraged and supported to deliver an extensive School Streets programme.

**Response - Accept**

The Welsh Government has prioritised School Streets schemes as part of the Safe Routes in Communities Grant since 2021-22. For 2023-24, we offered funding to all local authorities to undertake pre-work to identify suitable schools for the introduction of school streets, where they are not yet ready to implement schemes.
School streets guidance will be published in Spring 2024.

**34.** The Welsh Government and local authorities should work together with Public Health Wales in promoting active travel to schools utilising the opportunities offered by the Travel to Schools Hands Up Survey and the School Health Research Network, Student Health and Wellbeing Survey.

**Response - Accept**

The Welsh Government is working with a wide range of partners to promote active travel in schools. The Hand Up Survey outputs will become a key way of measuring success and supporting action.

**35.** All central funding for new and re-developed schools should be dependent on the incorporation of an effective package of measures to increase active travel to school.

**Response - Accept in principle**

The Business Case guidance for Sustainable Communities of Learning has been revised and a new checklist developed that sets out clearly the expectation of prioritised active travel access. Schemes are amended regularly as a result of this scrutiny process, however there is currently no effective mechanism to mandate embedding ongoing promotion of active travel to school into the schools' operation.

**36.** Local authorities should be encouraged to apply for the powers that at present only Cardiff has, to issue Fixed Penalty Notices for moving traffic offences, under the Traffic Management Act - which makes it easier to implement Low Traffic Neighbourhoods and school zones. The forthcoming Regulations on pavement parking might provide a suitable opportunity to implement this recommendation.

**Response - Accept**

We have already facilitated several knowledge sharing webinars to support local authorities' decisions on how to enforce school streets and the practicalities of using Moving Traffic Offence enforcement. The school streets guidance will also cover this topic. The individual decision will be a matter for local authorities.

**37.** All active travel related activities in schools should be refocused on increasing active travel to school. The encouragement of parents to take up active travel themselves should be seen as a central part of all the packages.

**Response - Accept**

The Welsh Government's Active Journeys Programme is already focused on promoting and enabling walking and cycling to school in a way that reaches the wider school community. This requirement is also included in the specification for the procurement of the successor programme which will commence in 2024. We are providing funding to Sustrans to develop resources and provide support for introducing active travel school plans. When we review and update child pedestrian training we will seek to strengthen the focus on encouraging walking.

**38.** Schools should be encouraged to incorporate active travel elements into their new curriculum.

**Response - Accept**

Active travel curriculum resources have been prepared to support the new curriculum and are being disseminated alongside other interventions. The ethos of the new curriculum is to give greater autonomy to teachers, so this cannot be mandated.

**39.** Estyn should be required to comment on schools' promotion of active travel.

**Response - Accept in principle**

A discussion between education and transport policy leads on this is planned.

**Monitoring and Data**

**40.** Active travel monitoring systems should be designed, whenever practicable, to capture meaningful information about people with protected characteristics.

**Response - Accept in principle**

Most automated monitoring systems (counters and camera-based analysis) are not able to distinguish user groups by characteristics, and gathering data on the characteristics of users relies on surveys and the willingness of users to share this information. Many local authorities are supplementing counts with user surveys for this reason, but these are labour intensive. For national programmes the Welsh Government is committed to gather and evaluate data on how these impact on different groups. For example, monitoring for the e-move pilot captured detailed information about people with protected characteristics.

**41.** If an opportunity to amend the Act arises then the reporting section should be broadened to include a wider range of indicators. Alternatively, the detail could be delegated to a new power for Welsh Ministers to make statutory guidance on reporting. In the interim, an effective solution, and one that should ensure compliance, would be to make complying with revised guidance on standardised monitoring requirements a condition of receiving Welsh Government funding for transport schemes.

**Response - Accept**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be consulted on. Work on improving monitoring at the local level by providing detailed guidance is at an advanced stage by Transport for Wales and monitoring and evaluation plans are a requirement of funding.

**42.** Welsh Government and local authorities must adopt a standard approach to monitoring active travel development and usage in order for the reporting to be meaningful. It should be a requirement that all such reports are published, and in a manner that makes them easily accessible to the public.

**Response - Accept in principle**

Work on improving monitoring at the local and national level is at an advanced stage by TfW. It is likely that this will recommend a differential approach recognising that monitoring needs to be tailored to the circumstances. The aim is however to have consistent high quality monitoring data.

**Legislative Change**

**43.** Change the cycle of ATNM submission from three to five years.

**Response - Accept**

If the opportunity for amendments to the Act arises, we propose to include this change. In the interim, the timescale for the third iteration has been extended until 1 December 2026 by Ministerial Direction. It is also expected that future reviews of the maps will be significantly less labour intensive than the first two iterations, given the extent of network coverage achieved in the latest cycle.

**44.** Revise the definition of active travel routes so that it is not dependent on whether a route is located inside or outside of a designated locality.

**Response - Accept in principle**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be consulted on. In practice, this has been addressed in the Active Travel Act Guidance and the approved Active Travel Network Maps already include a large number of routes outside the designated localities, which are eligible for funding.

**45.** Make the design standards of the AT Act Guidance statutory so that they apply to all active travel infrastructure in Wales, however funded and include provisions empowering Welsh Government to make statutory guidance for all sections of the Act.

**Response - Accept in principle**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be considered and consulted on.

**46.** The Act should be amended to strengthen and widen the duty to promote active travel. The current wording of the duty to promote, restricts its application to when Welsh Government and local authorities are ‘exercis(ing) their functions under this Act’. The duty to promote active travel should be a general requirement on the public sector, not confined to when they are fulfilling their other duties under the Act.

**Response - Accept**

The Environment (Air Quality and Soundscapes) (Wales) Act 2024 contains provisions amending the Active Travel (Wales) Act 2013, including new duties on the

Welsh Ministers and local authorities to promote active travel as a way of reducing or limiting air pollution. During 2024, the Welsh Government, working with local authorities, will develop statutory guidance on the exercise of this duty. The Welsh Government will also issue a statement at the end of 2024 on how it intends to carry out its duty to promote active travel.

**47.** The duty to continually improve the network should be quantified using such indicators as an annual percentage increase in the size of the network meeting design guidance standards.

**Response - Accept in principle**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be considered. However, it is unlikely that mandating a specific annual percentage increase in legislation will be advisable or practicable, and this may be better considered as part of the performance framework for local authorities, or local targets.

**48.** Ensure that the wording of the highways duties in section 9 of the Act are enforceable in law.

**Response - Accept in principle**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be considered and consulted on. In the interim, the Welsh Government will work with other partners to significantly raise awareness of these duties and, through the training programme, offer training to improve compliance without the need for legislation.

**49.** Amendment of the UK contractors' Red Book to bring it in line with Welsh Government's guidance on providing for active travellers at street works.

**Response - Accept in principle**

Welsh Government does not have responsibility for the UK contractors' Red Book. We will continue to raise this matter with UK Government's Department for Transport and work with partners to increase awareness among contractors of the Welsh Government guidance where it applies.

**50.** Compliance with the requirements of the Active Travel Act and its guidance should be a condition for the receipt of any Welsh Government transport funding.

**Response - Accept in principle**

This is already partially the case in so far that eligibility to apply for the Active Travel Fund is linked to inclusion on the approved Active Travel Network Map. In respect of the other duties under the Act, there is currently no mechanism to effectively assess compliance without imposing additional administrative burdens on local authorities (which would not be in line with our Programme for Government commitment to reduce such burdens) and TfW. However, this could be taken forward as part of the scrutiny of local authorities by the Active Travel Board and the development of a wider performance assessment framework for local authorities.

**51.** Renew the requirement for a review of the Act every five years.

**Response - Accept in principle**

If the opportunity for amendments to the Act arises, this will be considered and consulted on.

# CCEI RECOMMENDATION 21 SUSTAINABLE FINANCE RESPONSE

## SUSTAINABLE INVESTMENT PRINCIPLES

On 10 September 2024 we launched the consultation period of our Sustainable Investment Principles. These principles set out the traits we seek when considering projects and engaging with investors and developers.

The consultation documents are available at the following links:

- Egwyddorion Buddsoddi Cynaliadwy drafft | LLYW.CYMRU
- Draft Sustainable Investment Principles | GOV.WALES

These principles form part of our new approach to sustainable finance for nature recovery, as recommended by the Finance Earth report on developing nature markets in Wales.

The Principles were co-developed with the sustainable finance Task and Finish group which comprises of eNGOs including RSPB, Wildlife Trusts Wales, WWF and Marine Conservation Society, Dwr Cymru and NRW. These Principles aim to increase and diversify the available funding to effectively tackle the nature emergency and the pressures that drive biodiversity loss – including climate change, pollution, and unsustainable management of natural resources. These Principles will help ensure that any funding is of high integrity, benefits and engages local communities and avoids inappropriate land use change and greenwashing.

Welsh Government is proposing the following four principles to guide its approach towards private investment in nature.

1. Support integrated land use and the equitable sharing of the benefits
    - This principle is to ensure that those seeking to invest in natural capital markets due so in partnership with the landowners and managers. Under this principle, investments and projects should strive to deliver supplementary outcomes, such as biodiversity improvements in addition to carbon sequestration.
2. Deliver public, private, community and cultural well-being benefits
    - This sets out that investment and management decisions must account for the local conditions and suitability while showing consideration of the four capital resources (natural, social, economic and cultural).
3. Demonstrate best practice engagement and collaboration
    - Under this investors and land managers must collaborate openly with the wider public and public bodies to develop a coherent approach to delivering their projects.
4. Demonstrate values-led and high integrity

- This principle considers additionality, data robustness, transparency of assessment techniques and methodology and the duration of derived benefits.

## SUPPORT FOR NATURE MARKET DEVELOPMENT

Sustainable finance, payments for ecosystem services, and natural capital markets are still a relatively new sector. In order to begin building Wales' capacity and knowledge base Welsh Government has funded two pathfinder pilots (see below for further information) and is considering further pilots.

### MARINE CYMRU FUND

- Welsh Government has recently provided £85,000 of funding to the WCVA to recruit a Fund Development Manager for the Marine Cymru Fund. The Marine Cymru Fund seeks to invest in programmes and projects that enable, maintain and enhance the resilience of marine and coastal ecosystems for the long term, facilitating the delivery of wider benefits to individuals, communities and businesses. The Fund Development Manager will draft a strategic framework to guide project funding and will work to attract seed funding from investors.

### BANNAU BRYCHEINIOG NATIONAL PARK AUTHORITY

- Welsh Government has provided Brecon Beacons National Park Authority (Y Bannau) with £119,000 of funding for a Head of Natural Capital Development position to accelerate the realisation of benefits from private finance nature investment. This role will help scale up nature recovery funding by exploring and implementing high-integrity ecosystem service markets and disseminating this knowledge across our other national park authorities.

### UK GOVERNMENT ENGAGEMENT

- We continue to engage with Defra and the British Standards Institute (BSI) on developing a Nature Investment Standards Programme, which will provide a benchmark for industry codes and markets recognised as sufficiently robust and credible. Our engagement ensures that our Welsh values are reflected within these new standards. BSI concluded their consultation on the Overarching Principles at the beginning of the summer and are preparing to consult on their Biodiversity and Carbon standards early this fall.

**Councillor / Cynghorydd Geraint Thomas**
**Leader of Council / Arweinydd y Cyngor**



Civic Centre, Castle Street,
Merthyr Tydfil, CF47 8AN

*Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell,*
*Merthyr Tudful, CF47 8AN*

Tel/*Ffôn*: **(01685) 725000**

**www.merthyr.gov.uk**

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Lukas Santos
Deputy Clerk
Climate Change, Environment, and
Infrastructure Committee

Email: seneddclimate@senedd.wales

Date/*Dyddiad*: 13th September 2024

---

Please ask for/***Gofynnwch am***: **Michelle Edmunds**
Direct Line/***Llinell Uniongyrchol:*** 01685 725320
e-mail/***e-bost***: michelle.edmunds@merthyr.gov.uk

Dear Sirs,

**Re: Report on Restoration of Opencast Mining Sites**

Thank you for your letter of 5th August 2024.

Merthyr Tydfil County Borough Council wish to make the following observations in respect of the section that relates to the Ffos- y-fran open cast mine.

We find it important to point out that the scheme was granted planning permission by the Ministers, and that the final report, along with the conditions, was prepared by an Inspector appointed by the Welsh Ministers and approved by the Ministers.'

The Council makes no comment in respect of paragraphs 59 to 64 or in respect of the sections labelled "Incident Response and Preparedness", "Merthyr (South Wales) Ltd – Statement – 9 May 2024", "Restoration", "Application of the Recommendations of the 2014 report", "Interim Restoration Work", "Revised Restoration Plan", "Community Involvement" or "Engagement with Stakeholders".

With regard the section labelled "Our View" the Council notes the view of the Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee. The Council would however point out that it considers that the Coal Authority's criticism of the Council is unwarranted and lacks credibility. In order to set the record straight we consider it important to clarify the Council was in active discussion with the mine operator in October 2023 and had been for some time. The active discussions which were ongoing at the time of the Coal Authority's letter were in relation to an agreed and updated Strategy for the remainder of the Site. It must be noted that the developer in consultation with the Council has agreed an acceptable restoration of part of the site which accords with the approved restoration Strategy. Discussions are continuing in relation to the submission of a planning application to allow for a revised restoration strategy. It is anticipated that the application will be

received towards the end of 2024. It should also be noted the Coal Authority, together with representatives from NRW and WG have also been party to these discussions.

The Coal Authority's letter of October 2023 appears to conflate "abandonment" with "escheat" and it is fundamentally wrong on the following; (a) if the Site were to revert to the Crown Estate by escheat, this would not mean that the obligations as to restoration of the land, as set out in the planning conditions of the 2011 planning permission, ceased to bind it (and so any third party into whose hands it may later come, including the Welsh Government acting for the Crown), and (b) the obligations currently binding MSW are secured by a parent company guarantee with a limit of £15m and, in addition, a £15m fund held in escrow ("the Fund").

With reference to the recommendations the Council has no observation to make in respect of recommendation 21. This is a matter upon which the Welsh Government should respond.

With reference to recommendation 22 the recommendation is accepted.

With reference to recommendation 23 the Committees views are noted. The Council considers that it would be appropriate to expect any revised restoration scheme to secure the appropriate restoration of the land as approved under the 2015 approved strategy, this would cover re-profiling of the land, cultivation and the establishment of ecological features, as well as the preservation of any historic assets and the reinstatement of public rights of way. Any revised scheme would inevitably differ in that overburden mounds 2 and 3 are likely to be retained and a body of water will be incorporated into the scheme. The developer has also indicated that they would wish to retain the motorcross facility. Any revised scheme that is submitted by the applicant could provide greater ecological interest and the reinstatement of as much land as possible for the commoners.

Recommendations 24 and 25 are noted.

The Council has no observation to make in respect of recommendation 26. This is a matter upon which the Welsh Government should respond.

Yours sincerely

G. v Thomas

Cllr Geraint Thomas
Leader, Merthyr Tydfil CBC

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# **Adfer Safleoedd Glo Brig**

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (Awst 2024)

20/09/2024

Ar 8 Awst 2024, cyhoeddodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (CCEI) y Senedd ei *Adroddiad ar Adfer Safleoedd Glo Brig*. Roedd yr adroddiad yn cynnwys 26 o argymhellion, gyda 22 ohonynt wedi'u cyfeirio at Lywodraeth Cymru. Mae'r ddogfen hon yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad....3**

**2. Ymatebion i'r 22 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru.....4**

Argymhelliad 1....4
Argymhelliad 2....5
Argymhelliad 3....6
Argymhelliad 4....7
Argymhelliad 5....7
Argymhelliad 6....8
Argymhelliad 7....8
Argymhelliad 8....9
Argymhelliad 9....10
Argymhelliad 10....10
Argymhelliad 11....11
Argymhelliad 12....11
Argymhelliad 13....12
Argymhelliad 14....12
Argymhelliad 15....13
Argymhelliad 16....14
Argymhelliad 17....14
Argymhelliad 18....14
Argymhelliad 19....15
Argymhelliad 20....15
Argymhelliad 21....15
Argymhelliad 26....16

# 1. Cyflwyniad

Yn gynnar yn 2024, cwblhaodd Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd ddarn byr o waith i archwilio adfer hen safleoedd glo brig yn y De. Canolbwyntiodd y gwaith ar y canlynol:

**1.** y trefniadau ariannol ac ymarferol ar gyfer adfer safle glo brig Ffos-y-frân;

**2.** sut y gellir mynd ati i adfer safleoedd glo brig, a chynlluniau wrth gefn os na fydd digon o arian ar gael; a

**3.** canfyddiadau ac argymhellion adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ymchwil i'r methiant i adfer safleoedd glo brig yn ne Cymru (Ebrill 2014) ac a yw'r rhain yn dal i fod yn berthnasol.

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau tystiolaeth yn ystod mis Mai 2024, gan dderbyn tystiolaeth lafar gan gynrychiolwyr yr Awdurdod Glo, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, yn ogystal â sawl grŵp amgylcheddol a chymunedol.

# 2. Ymatebion i'r 22 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru

## Argymhelliad 1

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod polisïau sy'n ymwneud â chloddio glo brig a gweithgareddau cloddio eraill yn rhai cadarn a chyfredol, a'u bod yn darparu amddiffyniadau priodol i awdurdodau lleol a chymunedau.

**Ymateb: Derbyn**

Cyhoeddwyd Datganiad Polisi Glo Llywodraeth Cymru ar 22 Mawrth 2021 (Datganiad polisi glo [HTML] | LLYW.CYMRU).

Mae'r Datganiad Polisi Glo yn nodi'n glir:

“Rhaid i bob cynnig ar gyfer echdynnu glo, **gan gynnwys unrhyw gynhyrchion glo eilaidd a gynhyrchir yn ystod gweithrediadau cloddio**, sydd ar gael ar gyfer marchnadoedd ynni, ddangos yn glir pam y mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd. Mae y marchnadoedd ynni yn cynnwys y defnydd domestig o gynhyrchion glo a chynhyrchu trydan, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt.”

Yn y cyfamser, mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW) yn datgan "ni ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo. Pe bai cynigion yn cael eu cyflwyno o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, byddai'n rhaid iddynt ddangos yn glir pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni" (paragraff 5.10.14). Byddai pob cynnig yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau unigol, ond rhaid i gynigion ddangos yn glir:

- Pam mae angen codi glo i gefnogi defnyddiau diwydiannol o lo heblaw cynhyrchu ynni.
- Pam mae angen codi glo yng nghyd-destun datgarboneiddio a thargedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd, neu i sicrhau bod gweithrediadau cloddio neu adfer safle yn dod i ben yn ddiogel.
- Sut mae cloddio glo yn cyfrannu at ffyniant Cymru a'n rôl fel Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang.

Caiff penderfyniadau eu gwneud yn ôl amgylchiadau penodol pob achos ar sail ei effaith ar yr hinsawdd, ond bydd rhagdybiaeth yn erbyn codi glo.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r holl offer sydd ar gael, lle maent yn cael eu defnyddio'n iawn, i roi effaith i'r amcan polisi clir hwn o ragdybio yn erbyn codi glo.

Er mai ein nod yw atal codi a defnyddio glo, mae gennym ddyletswydd hefyd i reoli cau ac adfer seilwaith glo presennol a hanesyddol yn ddiogel. Efallai y bydd codi glo cyfyngedig yn anorfod hefyd wrth adeiladu prosiectau seilwaith. Felly, efallai y bydd angen codi glo o dan amgylchiadau cwbl eithriadol a phenderfynir ar bob cynnig yn ôl ei rinweddau ei hun, ond bydd y rhagdybiaeth bob amser yn erbyn codi glo.

Mae'n werth nodi bod polisi Cymru wedi’i lunio bron i ddwy flynedd cyn polisi cyfatebol Llywodraeth yr Alban. Mae'n werth nodi hefyd fod Polisi Llywodraeth yr Alban wedi'i lywio

gan drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a'i fod yn defnyddio iaith debyg iawn i'r polisi a fabwysiadwyd yng Nghymru. Mae Fframwaith Cynllunio Cenedlaethol 4 Llywodraeth yr Alban yn datgan "Development proposals that seek to explore, develop, and produce fossil fuels (excluding unconventional oil and gas) will not be supported other than in exceptional circumstances. Any such exceptions will be required to demonstrate that the proposal is consistent with national policy on energy and targets for reducing greenhouse gas emissions."

Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau (MTAN1) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN2) yn cynnwys polisi cynllunio cynhwysfawr sy'n gadarn ynghylch rheoli effeithiau cloddio am lo a chwarela.

Dylai cynlluniau datblygu nodi'n glir y meini prawf a fydd yn cael eu cymhwyso i gynigion mwynau i sicrhau nad ydynt yn cael effaith annerbyniol o niweidiol ar yr amgylchedd ac amwynder trigolion cyfagos. Mae'r materion y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw yn cynnwys mynediad a chynhyrchu traffig, gan gynnwys y llwybrau i'w defnyddio ar gyfer cludo mwynau; sŵn, o ran terfynau, math a lleoliadau; a rheolaethau ffrwydro.

Dywed Polisi Cynllunio Cymru mai un o egwyddorion allweddol echdynnu mwynau yw gwarchod nodweddion amgylcheddol a diwylliannol lleoedd, gan gynnwys y rhai a werthfawrogir am eu priodoleddau cynhenid megis bywyd gwyllt, tirweddau, coetiroedd hynafol a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch a llesiant cyffredinol pobl. Rôl yr awdurdod cynllunio hefyd yw lleihau effaith echdynnu mwynau a gweithrediadau cysylltiedig yn ystod y cyfnod gwaith drwy sicrhau bod yr effeithiau ar briodoleddau amgylcheddol perthnasol a achosir gan echdynnu a chludo mwynau, er enghraifft, ansawdd aer a seinwedd, o fewn terfynau derbyniol.

Mae polisi cynllunio, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru, ei fod yn addas i'r diben a'i fod yn berthnasol

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 2

Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro ei pholisïau sy'n ymwneud ag adfer tomenni glo gyda'r nod o sicrhau na chaiff effeithiau negyddol cloddio glo brig eu hailadrodd.

**Ymateb: Derbyn**

Polisi Llywodraeth Cymru ar adennill tomenni glo yw lleihau'r bygythiadau i bobl Cymru a nodi cyfleoedd posibl i droi tomenni nas defnyddir yn asedau buddiol i gymunedau.

Mae'n bwysig bod unrhyw strategaeth adennill hirdymor yn gweithio gyda systemau presennol ac yn eu hategu (systemau cynllunio, adfywio, yr amgylchedd ac ati) a bod cyfleoedd yn cael eu nodi i gefnogi uchelgeisiau strategol ehangach i Gymru.

Gall adennill tomenni glo gyflwyno manteision economaidd sylweddol, sgiliau newydd a mwy o swyddi i ardaloedd sydd eu hangen, ond gall tomenni glo wedi'u hadfer helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur hefyd. Gall rhai o'n tomenni glo fod yn safleoedd ar gyfer gwella bioamrywiaeth, gan gyfrannu at rwydweithiau ecolegol a gwella gwytnwch ecosystemau. Serch hynny, nid oes 'un dull sy'n addas i bob sefyllfa' wrth adennill tomenni glo. Yn y pen draw, bydd yr opsiwn gorau ar gyfer adfer yn dibynnu ar

bob tomen unigol, gan gynnwys ei statws perygl a'i agosrwydd i dderbynleoedd sensitif megis cymunedau.

Ar hyn o bryd, ein prif ffocws yw sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio fodern sy'n addas i'r diben. Unwaith y bydd y Bil wedi'i weithredu, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ddatblygu gallu a chapasiti adnoddau (sy'n ffactor cyfyngol wrth weithredu strategaeth adennill hirdymor), yn ogystal â datblygu dull strategol manylach o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru – bydd angen i hyn gynnwys adennill tomenni glo nas defnyddir a rheoli safleoedd glo brig.

**Goblygiadau ariannol:** Nid yw costau gweithredu strategaeth adennill tomenni glo nas defnyddir yn hysbys ar hyn o bryd.  Fodd bynnag, tybiwn na fydd modd bwrw ymlaen â dull strategol heb fewnbwn ariannol sylweddol gan Lywodraeth y DU - er enghraifft, amcangyfrifir y gall adennill un domen lo nas defnyddir gostio rhwng £30 a 40 miliwn.

## Argymhelliad 3

Dywed Polisi Cynllunio Cymru y gellir caniatáu codi glo o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, lle mae'r cynigion yn dangos pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid hinsawdd ac am resymau diogelwch ynni cenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru egluro'r meini prawf y mae'n rhaid eu defnyddio wrth asesu cynigion yn hyn o beth.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Fel y cyfeirir ato mewn ymateb i Argymhelliad 1, mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi "ni ddylid caniatáu cynigion ar gyfer datblygiadau glo brig, pyllau glo dwfn na gwaredu gwastraff pyllau glo. Pe bai cynigion yn cael eu cyflwyno o dan amgylchiadau cwbl eithriadol, byddai'n rhaid iddynt ddangos yn glir pam mae eu hangen yng nghyd-destun targedau lleihau allyriadau newid yn yr hinsawdd a diogelwch ynni" (para 5.10.14).

O dan Ddeddf y Diwydiant Glo 1994, mae angen trwydded oddi wrth yr Awdurdod Glo i gynnal unrhyw weithrediadau cloddio am lo.  Dywed adran 26A o'r Ddeddf na chaniateir cynnal gweithgareddau cloddio am lo yng Nghymru sydd wedi cael eu hawdurdodi trwy drwydded gan yr Awdurdod Glo heb i Weinidogion Cymru gymeradwyo'r awdurdodiad hwnnw. Cyfrifoldeb gweithredwr pwll glo yw sicrhau bod unrhyw drwydded a roddir iddo gan yr Awdurdod Glo wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Cymru cyn cychwyn ar y gweithrediadau cloddio am lo.

Cyhoeddwyd canllawiau i weithredwyr pyllau glo sy'n ceisio cael cymeradwyaeth ar gyfer trwydded yr Awdurdod Glo gan Lywodraeth Cymru ar 22 Gorffennaf 2022, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus a ddaeth i ben ar 21 Hydref 2021.

Gofyn am gymeradwyaeth i drwydded yr Awdurdod Glo ar gyfer cynnal gwaith cloddio am lo [HTML] | LLYW.CYMRU

Bwriad y canllaw hwn yw cynorthwyo gweithredwyr glofeydd i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi cais am gymeradwyaeth i drwydded.

Cydnabyddir bod pob glofa, gweithrediad a chais am drwydded yn wahanol, a bod angen hyblygrwydd er mwyn sicrhau bod gweithredwr y lofa'n cael cyfle priodol i gyflwyno'i

achos i Weinidogion Cymru dros gymeradwyo trwydded. Felly, nid yw'r canllaw drafft yn rhagnodi'n benodol pa dystiolaeth sydd ei hangen, a rhoddir rhyddid i'r gweithredwr benderfynu drosto'i hun sut orau i gefnogi cais i gymeradwyo trwydded. Mae'r canllaw hwn er hynny yn rhoi trosolwg o'r fframwaith ar gyfer penderfyniadau i gymeradwyo trwyddedau a'r math o dystiolaeth a fydd yn helpu Gweinidogion Cymru i wneud penderfyniad prydlon ynglŷn â'r cais.

Pan nad oes angen trwydded gweithrediadau cloddio am lo yr Awdurdod Glo, er enghraifft, lle mae cloddio am lo yn gysylltiedig â datblygiad ehangach, neu fel rhan o brosiect adfer, mae Datganiad Polisi Glo a Pholisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn berthnasol yn llawn.

Ymhellach, ym mhob achos lle cynigir codi glo, bydd gofynion perthnasol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a'r llwybr i sero net, a nodir yn is-ddeddfwriaeth Cymru a pholisïau perthnasol megis Cymru Sero Net yn berthnasol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 4

Dylai Llywodraeth Cymru wneud argymhellion canllawiau arfer gorau'r Awdurdod Glo yn ofynion statudol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn nodi'n glir y dylai amodau cynllunio allu sicrhau adferiad, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd safleoedd mwynau. Dylai gweithredwyr a thirfeddianwyr sicrhau bod digon o arian yn cael ei neilltuo i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau adfer ac ôl-ofal. Nid oes angen i'r gost adfer lawn gael ei rhoi ar adnau o'r cychwyn cyntaf, ond dylai gynyddu yn unol â'r rhaglen weithgareddau neu godi glo.

Mae Deddfau lleol yn y De yn cynnwys pwerau i osod bondiau neu warantau ariannol eraill ar gyfer adfer safleoedd glo, sy'n cael eu sicrhau drwy amodau / cytundebau cyfreithiol.

Ar gyfer safleoedd glo, y gofyniad polisi yw sicrhau bod y costau adfer llawn yn cael eu talu yn unol â'r cam datblygu'r gwaith fel y nodir yn nodyn cyfarwyddyd Arfer Gorau yr Awdurdod Glo.

O ystyried y ffaith ei bod yn annhebygol iawn y bydd y safleoedd glo brig yn cael caniatâd cynllunio, nid ydym yn teimlo bod angen rhoi'r canllawiau arfer gorau ar sail statudol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 5

Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir cymhwyso'r canllawiau arfer gorau yn fwy cyffredinol, yn enwedig ar gyfer adennill tomenni glo.

**Ymateb: Derbyn**

Bwriad y canllawiau yw helpu i liniaru'r problemau ariannol a achosir gan y methiant i adfer safleoedd glo brig yng Nghymru.

Prif ddiben y canllawiau yw cynorthwyo i ddehongli polisi a chanllawiau sydd wedi'u cynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo. Mae hefyd yn rhoi mwy o sicrwydd i'r rhai sy'n gweithio yn y diwydiant o ran pa reolaethau ariannol sydd eu hangen i sicrhau adferiad ac ôl-ofal safle.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at y pwyllgor pan fyddwn wedi ystyried sut y gallai'r canllawiau gael eu cymhwyso'n ehangach.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 6

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU a llywodraeth leol i benderfynu sut i fynd i'r afael â'r diffyg cyllid ar gyfer adfer safleoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Y gweithredwr a'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am adfer ac ôl-ofal safleoedd glo brig. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau adfer ac ôl-ofal.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar gyllid ar gyfer adennill safleoedd tomenni glo nas defnyddir. Nid yw ein safbwynt wedi newid; mae angen rhaglen o fuddsoddiad parhaus ar domenni glo yng Nghymru i'w gwneud yn ddiogel ac yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, ac mae'r achos y dylai Llywodraeth y DU gyfrannu at y cyllid tymor hwy a fydd yn cefnogi'r gwaith hwn yn glir ac yn gymhellol. Cafodd Llywodraeth Cymru drafodaethau gyda Llywodraethau blaenorol y DU a galwodd arnynt i gyfrannu at raglen adennill hirdymor, ond fe wnaethant wrthod eu cefnogaeth. Gyda dwy lywodraeth Lafur yn gweithio gyda'i gilydd, mae cyfle bellach i ddatblygu cynllun a rennir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Nid yw costau gweithredu strategaeth adennill tomenni glo nas defnyddir yn hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn tybio na fydd modd bwrw ymlaen â dull strategol heb fewnbwn ariannol sylweddol gan Lywodraeth y DU - er enghraifft, amcangyfrifir y gall adennill un domen lo nas defnyddir gostio rhwng £30 a 40 miliwn.

## Argymhelliad 7

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad annibynnol i asesu faint o gyllid sydd ei angen i adfer safleoedd glo brig i lefel dderbyniol. Dylai'r adolygiad annibynnol ystyried beth yw "lefel dderbyniol" mewn ymgynghoriad ag awdurdodau lleol a chymunedau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae'n gwerthuso'r gost bosibl o ddelio â mwyngloddio brig ac adennill tir fel rhan o ddatblygu dull strategol o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru. Bydd hyn yn cael ei gwblhau ar ôl gweithredu Bil sy'n edrych ar ddiogelwch tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru. Bydd y Bil

Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) yn cael ei gyflwyno i'r Senedd yr hydref hwn.

Goblygiadau ariannol: Nid yw Llywodraeth Cymru na Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am ariannu rhaglen sy'n ymdrin â mwyngloddio brig ac adennill tir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi bod â phwerau statudol dros 'dir diffaith' ers Ebrill 2006 drwy drosglwyddo swyddogaethau'r hen Asiantaeth Datblygu Cymru. Defnyddiwyd y pwerau dewisol hynny yn flaenorol i amddiffyn diogelwch y cyhoedd, creu tir datblygu a gwella lles amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae cyllid ar gyfer gweithgarwch o'r fath wedi cael ei gyfyngu ac mae'n bosibl y bydd cynnal ymarfer i asesu costau adfer safleoedd glo brig yn arwain at ddisgwyliad y bydd cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgareddau o'r fath yn dilyn.

Mae'r rhaglen yn cronni i Weinidogion Cymru neu Lywodraeth Cymru.

## Argymhelliad 8

Rhaid i Lywodraeth Cymru egluro rolau awdurdodau lleol, yr Awdurdod Glo, a Cyfoeth Naturiol Cymru o ran adfer safleoedd glo brig, gyda phwyslais arbennig ar eu cyfrifoldebau yn y broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

**Ymateb: Derbyn**

Y gweithredwr a'r tirfeddiannwr sy'n gyfrifol am adfer ac ôl-ofal safleoedd glo brig. Rhaid iddynt hefyd sicrhau bod digon o gyllid yn cael ei neilltuo i'w galluogi i fodloni rhwymedigaethau adfer ac ôl-ofal.

Yn y cyfamser, yr awdurdod cynllunio lleol sy'n gyfrifol am fonitro adfer safleoedd glo brig fel rhan o'r gofynion adfer cymeradwy.

Prif swyddogaethau'r Awdurdod Glo yw rheoli'r adnoddau glo sydd o dan ei reolaeth, annog gweithrediadau sy'n hyfyw yn economaidd i weithio'r adnoddau hyn, rhoi trwyddedau ar gyfer archwilio am lo a chodi glo, darparu rheolaeth effeithiol o hawliadau difrod ymsuddiant, a darparu gwybodaeth am weithgareddau cloddio glo yn y gorffennol a'r presennol ac unrhyw weithgareddau arfaethedig o'r fath yn y dyfodol. Os bydd unrhyw weithgareddau yn croestorri unrhyw un o fuddiannau glo yr Awdurdod, yn tarfu arnynt neu'n mynd i mewn iddynt, bydd angen caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr Awdurdod.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rhoi caniatâd a thrwyddedau, gan gynnwys trwyddedau tynnu dŵr i ddiogelu adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear, a bydd yn ymgymryd â gwaith monitro yn ystod gwiriadau cyfnodol, yn enwedig os derbynnir cwynion.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 9

Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod holl adroddiadau'r Swyddogion Cynllunio ar gael ar-lein, ochr yn ochr â dogfennau cynllunio cysylltiedig, gan gynnwys cynlluniau adfer diwygiedig, lle bo'n berthnasol.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae'n ofynnol ymgorffori ceisiadau cynllunio a dogfennau cysylltiedig yn y Gofrestr Gynllunio, sef y brif ffordd y mae ceisiadau cynllunio ar gael i'r cyhoedd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio lleol bellach yn arddangos eu cofrestr gynllunio ar-lein, ond mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi bod yn amrywiol gan fod awdurdodau'n gweithredu gwahanol systemau meddalwedd corfforaethol sydd â swyddogaethau amrywiol.

Rydym yn cytuno bod rhaid sicrhau tryloywder wrth wneud penderfyniadau cynllunio, ond mae mynnu gofynion penodol ar gyfer cyhoeddi ar y we ar hyn o bryd yn gynamserol. Ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn cefnogi Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gall atebion digidol wella cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd y system gynllunio yng Nghymru. Mae'r prosiect yn cymryd golwg gyfannol ar y broses ceisiadau cynllunio a rhagwelir y bydd cyfathrebu penderfyniadau yn rhan annatod o'r gwaith hwnnw. Bydd hyn yn dwyn ynghyd yr amrywioldeb a welir ar hyn o bryd ar draws awdurdodau mewn ffordd gosteffeithiol a reolir. Mae cam darganfod y prosiect newydd gael ei gwblhau a bydd CDPS yn cyhoeddi cam nesaf ei gwaith yn fuan

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 10

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu ag awdurdodau lleol i asesu a diwallu anghenion staffio awdurdodau lleol yn y dyfodol ar gyfer rolau arbenigol megis cynllunwyr mwynau.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod cyllidebau awdurdodau cynllunio lleol wedi gweld gostyngiadau sylweddol iawn oherwydd cyni yn y sector cyhoeddus ac yn cydnabod bod hyn wedi cael effaith andwyol ar eu gallu i wneud penderfyniadau cynllunio amserol bob amser. O ganlyniad, cynyddodd Llywodraeth Cymru ffioedd ceisiadau cynllunio 20% ym mis Awst 2020 er mwyn darparu adnoddau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol, ac mae'n ymgymryd â gwaith pellach i sicrhau y gellir adennill costau llawn wrth ddarparu'r gwasanaeth rheoli datblygu.

Nid yw ffioedd ceisiadau cynllunio yn ddigon i dalu cost wirioneddol prosesu ceisiadau yn y rhan fwyaf o achosion ar hyn o bryd. Mae adolygiad o ffioedd ceisiadau cynllunio i dalu am chwyddiant a dechrau'r daith i adennill costau llawn ar y gweill. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, ceir deialog gydag awdurdodau lleol ynghylch cadw ffioedd cynllunio o fewn y gwasanaeth cynllunio a monitro a gwella perfformiad. Gallai Cyd-bwyllgorau Corfforaethol fod â rôl bwysig o ran darparu màs critigol, yn enwedig mewn meysydd arbenigol megis mwynau a chynllunio gwastraff, treftadaeth adeiledig, ecoleg, dylunio trefol ac ati.

Mae Llywodraeth Cymru yn annog gweithredu ar lefel leol i wella safonau gwasanaethau, gan gynnwys ymchwilio i opsiynau lleol ar gyfer darparu gwasanaethau ar y cyd a

symleiddio a safoni arferion lleol. Gall y Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a sefydlwyd i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol hefyd gyfrannu at y dull cydweithredol hwn.

Mae gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda'r bwriad o gynnal ymgynghoriad yn yr hydref.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 11

Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y cynnig o adroddiad 2014 i sefydlu "Canolfan Ragoriaeth" rithwir ar gyfer gwaith cynllunio ar gyfer adfer, yn enwedig yng ngoleuni cynigion posibl i adennill tomenni glo, ac arwain trafodaethau gyda llywodraeth leol ar sut i weithredu hyn.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae cynllunio mwynau a gwastraff eisoes yn fodel llwyddiannus ar gyfer gwaith rhanbarthol. Mae timau yn Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint yn gweithredu cytundebau lefel gwasanaeth a rennir gan weithredu fel arbenigwyr mwynau a chynllunio gwastraff yn y De a'r Gogledd. Gallai'r ddau wasanaeth ehangu eu cylch gwaith i roi cyngor ar gynlluniau adfer o bosibl.

Mae polisi cynllunio codi glo Llywodraeth Cymru yn glir mai dim ond o dan amgylchiadau cwbl eithriadol y bydd cynigion datblygu yn cael eu cymeradwyo. Felly, ychydig iawn o gynlluniau fydd yn cael eu cyflwyno ac mae'n debygol y bydd gan y rhai a gynigir amcan diogelwch tomenni glo.

Ar hyn o bryd, ein prif ffocws yw sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio fodern sy'n addas i'r diben. Unwaith y bydd y Bil wedi'i weithredu, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ddatblygu gallu a chapasiti adnoddau (sy'n ffactor cyfyngol wrth weithredu strategaeth adennill hirdymor), yn ogystal â datblygu dull strategol manylach o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru – bydd angen i hyn gynnwys adennill tomenni glo nas defnyddir a rheoli safleoedd glo brig.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 12

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU gyda'r nod o ddileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Byddai unrhyw ddatblygiad cloddio glo yng Nghymru, boed yn estyniad amser neu ofod mewn pwll glo presennol, neu'n weithgarwch cloddio glo cwbl newydd, angen caniatâd cynllunio gan yr awdurdod cynllunio lleol. Heb ystyried unrhyw drwydded a roddir gan yr Awdurdod Glo, mae angen caniatâd cynllunio perthnasol bob amser (mae trwyddedau'r Awdurdod Glo yn amodol ar ganiatâd cynllunio o'r fath). Felly, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw penderfynu a oes unrhyw gloddio glo yn digwydd yng Nghymru.

At hynny, rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo unrhyw drwydded newydd a roddir gan yr Awdurdod Glo cyn y gall ddod i rym. Nid oes unrhyw drwyddedau amodol presennol a roddwyd cyn i'r pŵer hwn yn dod i rym drwy Ddeddf Cymru 2017, felly mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ym mhob achos (h.y. ar gyfer unrhyw gynigion ar gyfer gweithrediadau cloddio glo newydd neu estynedig).

Er y byddem yn dymuno i'r Awdurdod Glo ddileu ei ddyletswydd statudol i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw, nid yw'r ddyletswydd hon yn cael unrhyw effaith ymarferol yng Nghymru. Fodd bynnag, byddai Llywodraeth Cymru am weld y ddyletswydd hon yn cael ei dileu i gefnogi ymdrechion datgarboneiddio byd-eang ehangach, a'r ymdrech barhaus i symud i ffwrdd o echdynnu a defnyddio tanwydd ffosil.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Awdurdod Glo i sicrhau ymrwymiad i ddileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant cloddio glo sy'n economaidd hyfyw. Bydd swyddogion yn parhau i annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu polisïau sy'n rhagdybio yn erbyn echdynnu tanwydd ffosil, ac i wneud y newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n hyderus bod ganddi'r polisi a'r prosesau angenrheidiol ar waith i sicrhau bod yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng natur yn cael eu hystyried yn llawn mewn unrhyw benderfyniadau.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 13

Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried gwneud rhywfaint o berchnogaeth gymunedol yn ofyniad ar gyfer safleoedd glo brig a datblygiadau tebyg, gan gynnwys safleoedd adennill tomenni glo.

**Ymateb: Gwrthod**

Nid yw'r system gynllunio yn gallu penderfynu ar geisiadau cynllunio ar sail perchnogaeth. Fel y mae'r pwyllgor yn cydnabod, mae mesurau diogelu cadarn yn bosibl drwy fodelau perchnogaeth amrywiol, er gwaethaf hanes affwysol y sector preifat o ran adfer rhai safleoedd cloddio glo ledled Cymru yn llwyddiannus.

Byddai perchnogaeth gymunedol ar safle glo brig yn golygu mai'r gymuned fyddai'n atebol am y safle, felly'r gymuned a fyddai'n gwbl gyfrifol am y gost adfer.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 14

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diweddaru'r Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2 (MTAN2) i sicrhau ei fod yn ateb y gofyn, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiadau newydd ac adfer tomenni glo.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo (MTAN2) yn cynnwys canllawiau cynllunio cynhwysfawr sy'n gadarn ynghylch cynlluniau adfer ac ôl-ofal ar gyfer codi glo.

Dylai Polisi Cynllunio Cymru, Datganiadau Polisi Cynllunio Interim y Gweinidog, Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau a Chylchlythyrau gael eu hystyried gan Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru wrth baratoi cynlluniau datblygu.

Mae MTAN2 yn nodi sut y dylid asesu effeithiau a pha fesurau lliniaru y dylid eu mabwysiadu, ac mae'n ceisio nodi costau amgylcheddol a chymdeithasol gweithrediadau glo fel eu bod yn cael eu talu'n briodol gan y gweithredwr.

Mae MTAN2 yn cynnwys canllawiau ar gyflawni safon uchel o adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd. Rhaid i ddatblygiadau glo fodloni gofynion adfer ac ôl-ofal Polisi Cynllunio Cymru a sicrhau bod tir yn cael ei adfer i ôl-ddefnydd cynaliadwy a buddiol.

Dylai cynlluniau adfer geisio cynnal neu wella'r amgylchedd er budd cymunedau lleol ac ansawdd hirdymor y tir ar gyfer yr ôl-ddefnydd bwriedig

Ynghyd â phob polisi cynllunio arall, mae MTAN2 yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau ei fod yn cael ei ddiweddaru, ei fod yn addas i'r diben a'i fod yn berthnasol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru ymgorffori darpariaethau ar gyfer adfer cyn-safleoedd glo brig o fewn y Bil Tomenni Nas Defnyddir (Mwyngloddiau a Chwareli) sydd ar ddod.

**Ymateb: Gwrthod**

Yn ei Ddatganiad Deddfwriaethol ar 9 Gorffennaf 2024, gwnaeth y Prif Weinidog ar y pryd nodi'n glir nad yw cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag adfer hen safleoedd glo brig yn y Bil Mwyngloddiau a Chwareli (Tomenni Nas Defnyddir) (y Bil) sydd ar ddod yn ymarferol ar hyn o bryd. Byddai ymgorffori darpariaethau o'r fath yn ehangu'n sylweddol gyrhaeddiad deddfwriaethol Bil sydd eisoes yn gymhleth, a byddai'n golygu na fyddem yn gallu cyflawni'r Bil yn nhymor y Senedd hon.

Byddai goblygiadau ariannol sylweddol hefyd, a fyddai'n debygol o wneud y Bil yn anfforddiadwy. Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, amcangyfrifir y gall adennill un domen lo nas defnyddir gostio rhwng £30 a 40 miliwn.

Nod y Bil yw lleihau'r tebygolrwydd o dirlithriadau ar domenni glo nas defnyddir a thomenni nas defnyddir nad ydynt yn domenni glo drwy sefydlu corff cyhoeddus newydd a fydd â swyddogaethau mewn perthynas ag asesu, cofrestru, monitro a rheoli tomenni nas defnyddir. Mae hwn yn ymrwymiad sylweddol a dyma'r hyn y mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i'w gyflawni.

Ar hyn o bryd, ein prif ffocws yw sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio fodern sy'n addas i'r diben. Unwaith y bydd y Bil wedi'i weithredu, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ddatblygu gallu a chapasiti adnoddau (sy'n ffactor cyfyngol wrth weithredu strategaeth adennill hirdymor), yn ogystal â datblygu dull strategol manylach o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru – bydd angen i hyn gynnwys adennill tomenni glo nas defnyddir a rheoli safleoedd glo brig.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 16

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth y DU i geisio cyllid ar gyfer adfer tomenni glo.

**Ymateb: Derbyn**

Gweler ein hymateb i Argymhelliad 6.

## Argymhelliad 17

Mae rhaid i Lywodraeth Cymru orfodi ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer pob cam o'r broses adfer, gan gynnwys pan gyflwynir cynlluniau adfer diwygiedig.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae cyfranogiad y cyhoedd yn bwysig iawn ar bob cam o'r broses gynllunio, a dylid ei annog. Mae'r ystod eang o fathau a graddfeydd datblygiadau yn golygu mai dim ond safon ymgynghori ofynnol y gall deddfwriaeth gynllunio ei phennu.

Mae'r holl geisiadau cynllunio ar gyfer datblygu mwynau yn destun ymgynghoriad cyn ymgeisio gyda chymunedau. Rhaid i gynigion gael eu cyhoeddi gan y datblygwr cyn eu cyflwyno a chan yr awdurdod cynllunio ar ôl eu cyflwyno. Yn y cam ceisiadau cynllunio y mae'n rhaid deall materion sylweddol unrhyw gais cynllunio cyn y gellir gwneud penderfyniad. Os rhoddir caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i amodau, efallai y bydd angen cyflwyno rhagor o fanylion. Mae gan awdurdodau cynllunio lleol ddisgresiwn ynghylch a ddylid ymgynghori yn y cam diweddarach hwn gan y gall y manylion amrywio o rai dibwys i rai mwy arwyddocaol. Byddai ymgynghori ar fân fanylion yn arafu'r broses gydsynio yn ddiangen, ond rydym yn disgwyl i awdurdodau cynllunio ymgynghori lle mae'r manylion a gyflwynwyd yn effeithio'n sylweddol ar y cyhoedd.

Bydd cyfyngiad ar faint y newid y gellir ei gyflwyno er mwyn cyflawni amod. Pe bai'r newid yn mynd y tu hwnt i baramedrau'r caniatâd cynllunio gwreiddiol, byddai angen caniatâd cynllunio newydd a byddai'r trefniadau ymgynghori gorfodol yn gymwys.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 18

Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i ddynodi swyddog penodol fel cyswllt i'r gymuned leol, gan ddarparu sianel gyfathrebu uniongyrchol rhwng preswylwyr ac awdurdodau lleol ar faterion sy'n ymwneud â safleoedd neu ddatblygiadau tebyg.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Atodiad B o Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo yn cynnwys cyngor manwl ar sut y gellid sefydlu trefniadau cysylltu â'r gymuned. Mae hyn yn argymell y dylai gweithredwr y safle benodi swyddog cyswllt safle i gynnal pwynt cyswllt clir ar gyfer delio â chwynion a chynnal atebolrwydd am wneud hynny.

Awdurdodau cynllunio lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu ar y ffordd orau o drefnu eu hadnoddau i ddarparu ffocws clir tebyg ar gyfer gweithgarwch rheoleiddio o fewn eu

cylch gwaith. Bydd y swyddog perthnasol yn dibynnu ar statws y cais. Ar gyfer ceisiadau newydd, y swyddog achos fydd y swyddog perthnasol ac, ar gyfer safleoedd gweithredol, mae'n debygol mai'r tîm gorfodi fydd y cyswllt priodol.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 19

Dylai Llywodraeth Cymru gynghori awdurdodau lleol i greu pyrth ar-lein lle y gall preswylwyr gael mynediad at yr wybodaeth ddiweddaraf am bob cam o'r broses adfer.

**Ymateb: Gwrthod**

Gweler ein hymateb i Argymhelliad 9.

## Argymhelliad 20

Dylai Llywodraeth Cymru annog y defnydd o gynulliadau dinasyddion fel fforymau ar gyfer trafod dyfodol safleoedd adfer, yn enwedig pan fethodd adferiad fodloni'r caniatâd cynllunio gwreiddiol ac mae angen cyfaddawdu.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae canllawiau cynllunio cenedlaethol eisoes yn cydnabod bod pwyllgorau cyswllt sydd wedi ennill eu plwyf yn helpu i ddarparu gwell dealltwriaeth o'r effeithiau sydd i'w disgwyl yn sgil echdynnu mwynau. Mae llawer o chwareli a safleoedd glo wedi sefydlu pwyllgorau cyswllt sy'n gweithredu fel fforwm ar gyfer trafod ac esbonio problemau cyfredol yn rheolaidd. Gellir sefydlu fforymau o'r fath drwy law'r gweithredwr neu'r awdurdod cynllunio lleol.

Pan fo cwynion rheolaidd yn cael eu derbyn neu os oes pryder am effeithiau lleol, dylai'r awdurdod cynllunio lleol ofyn i'r gweithredwr gydweithredu i sefydlu cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer grŵp enwebedig. Dylai grŵp o'r fath gynnwys cydbwysedd cyfartal o breswylwyr a chynrychiolwyr y gweithredwr, ynghyd â swyddogion ac aelodau etholedig lleol yr awdurdod ac eraill, megis cynghorwyr tref neu gymuned, fel y bo'n briodol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y grwpiau'n agored ac mor dryloyw â phosibl.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 21

Rhaid i Lywodraeth Cymru archwilio mecanweithiau gorfodi cryfach yn ddi-oed i fynd i'r afael ag achosion o dorri rheolaethau cynllunio, megis y gweithgareddau mwyngloddio a barhaodd yn Ffos-y-frân ar ôl i'r drwydded ddod i ben.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ystod o opsiynau gorfodi effeithiol yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae gorfodi yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effeithiau annerbyniol datblygiad anawdurdodedig yn hytrach na chosbi'r datblygwr. O ystyried natur gymhleth yr effeithiau cynllunio ar yr amgylchedd a phobl, mae'n dderbyniol

weithiau caniatáu i weithgareddau anawdurdodedig barhau tra bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r camau gweithredu gorau. Dyna y penderfynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei wneud yn Ffos-y-frân. Fodd bynnag, lle mae niwed annerbyniol yn cael ei wneud, mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn rhoi pwerau i awdurdodau atal gweithgareddau ar unwaith, naill ai drwy hysbysiad stop neu waharddeb Llys.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

## Argymhelliad 26

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried goblygiadau ehangach y methiannau yn Ffos-y-frân a gweithredu newidiadau systemig i atal materion tebyg yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â safleoedd adfer tomenni glo.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae polisi cynllunio cloddio glo Llywodraeth Cymru yn glir mai dim ond o dan amgylchiadau cwbl eithriadol y bydd cynigion datblygu yn cael eu cymeradwyo. Felly, ychydig iawn o gynlluniau fydd yn cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, ein prif ffocws yw sicrhau bod tomenni nas defnyddir yn ddiogel a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio fodern sy'n addas i'r diben. Unwaith y bydd y Bil wedi'i weithredu, bydd yn bwysig canolbwyntio ar ddatblygu gallu a chapasiti adnoddau (sy'n ffactor cyfyngol wrth weithredu strategaeth adennill hirdymor), yn ogystal â datblygu dull strategol manylach o ymdrin ag etifeddiaeth lofaol a diwydiannol Cymru – bydd angen i hyn gynnwys adennill tomenni glo nas defnyddir a rheoli safleoedd glo brig.

**Goblygiadau ariannol:** Dim

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/6069/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Medi 2024

Annwyl Llŷr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu bod fy swyddogion wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth y DU i ddatblygu'r Bil Dŵr (Mesurau Arbennig). Fel y gwyddoch efallai, cyflwynwyd y Bil i Senedd y DU ar 4 Medi 2024, gweler y Bil a'r Nodiadau Esboniadol wedi'u hatodi. Mae'r datganiad polisi sy'n cyd-fynd â'r Bil ar gael yn Water (Special Measures) Bill: policy statement - GOV.UK (www.gov.uk).

Cyhoeddwyd y Bil yn Araith y Brenin ar 17 Gorffennaf ac mae'n adlewyrchu ymrwymiad ym maniffesto'r Llywodraeth Lafur. Mae'r Bil yn gam cynnar i wella ansawdd dŵr, sy'n destun pryder mawr i'r cyhoedd. Mae'r Bil arfaethedig yn ymateb i fethiannau canfyddedig eang yn y ffordd y mae'r sector dŵr wedi delio â llygredd a achosir gan ollyngiadau carthion a seilwaith sy'n heneiddio.

Mae darpariaethau'r Bil yn ymwneud â'r diwydiant dŵr, sy'n fater datganoledig, ac ag ansolfedd, sy'n fater sydd wedi'i gadw yn ôl. Rwyf wedi cytuno y bydd rhai o gymalau'r Bil yn berthnasol i Gymru ac wedi ceisio pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i rai'r Ysgrifennydd Gwladol. Rwy'n credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn gwneud newidiadau cadarnhaol ac yn help i orfodi gofynion rheoleiddio yn y sector dŵr, gan wella perfformiad cwmnïau dŵr yng Nghymru.

Yn dilyn gosod y Bil yn Senedd y DU, rwy'n cynnig dechrau'r broses cydsynio deddfwriaethol ac o blaid cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn Senedd Cymru.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Gan fod y Bil wedi'i ddatblygu'n gyflym, byddaf i a fy swyddogion yn parhau i graffu ar y mesurau a gynigir ac yn ystyried yr holl effeithiau posibl i Gymru drwy gydol y broses Seneddol.

Rwy'n awyddus i gysylltu'n fuan â chi am y mater, felly os hoffech drafod hyn ymhellach, rhowch wybod i mi. Byddaf hefyd yn codi'r mater hwn ar lawr Senedd Cymru'n fuan.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref HIDCC/PO/0237/24

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru

19 Medi 2024

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas â'r ymrwymiadau a wnaed i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ystod fy ymddangosiad fel Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar 26 Mehefin.

**Creu Coetir**

Cytunwyd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar yr adolygiad bras o'r Broses Creu Coetiroedd. Mae'r camau canlynol wedi'u cwblhau fel rhan o'r adolygiad:

**Newid prosesau**

- Wedi newid ffenestr Grant Creu Coetir (WCG), yn hytrach na sawl ffenestr fer, mae gennym un ffenestr hir ar agor am naw mis y flwyddyn galendr gyda dewisiadau misol, gan leihau'r amser rhwng gwirio cynllun a chael contract i blannu coetiroedd.
- Mae'r gofyniad am Asesiadau Effaith ar yr Amgylchedd (AEA) wedi gostwng yn dilyn yr adolygiad. Dim ond un o bob 20 cynllun y mae CNC yn ei anfon ar gyfer gwiriad AEA, gan leihau amser i wirio'r holl gynlluniau.
- Mae telerau ac amodau ar gyfer cynllunwyr coetiroedd cofrestredig wedi'u diweddaru a'u dosbarthu. Er mwyn gwella ansawdd a chysondeb yn y broses, cyflwynwyd model cyflenwyr a ffefrir, sy'n sicrhau mai dim ond cynllunwyr coetir sydd wedi'u cofrestru drwy RPW Arlein sy'n gallu cyflwyno cynlluniau o dan y cynllun.
- Mae canllawiau hawliadau gwaith cyfalaf wedi'u diweddaru a chyflwyniad wedi ei roi i gynllunwyr coetiroedd wrth iddynt hyfforddi ym mis Ebrill 2024.
- Mae Arolygiaeth Wledig Cymru wedi rhoi cyflwyniad i gynllunwyr coetiroedd i esbonio sut mae'r broses ddilysu yn gweithio i leihau lefel diffyg cydymffurfiaeth y cynllun.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae llenyddiaeth newydd wedi'i gynhyrchu i egluro manteision Creu Coetiroedd a pha gynllun sy'n iawn i'r cwsmer, gan esbonio'r gwahanol ddulliau yn dibynnu ar ble hoffai'r cwsmer blannu ac opsiynau a chyllid sydd ar gael.

**Newidiadau TG**
- Ychwanegwyd cwestiwn arall at y ffurflen ar-lein Mynegi Diddordeb, i gadarnhau'r manylion Cyn Ymgeisio a'r arolygon i'w dilysu cyn i'r cynllun gael ei greu.
- Cofrestr Cynllun Coetiroedd ar waith ar blatfform ar-lein Taliadau Gwledig Cymru. Mae hyn yn caniatáu uwchlwytho 'shapefiles' cynllun a dilysu'r cynllun ar unwaith, gan leihau'r amser i gyflwyno a gwirio cynlluniau.
- Cyflwyno proses sgorio awtomataidd i gyflymu'r broses ddethol ar gyfer cynlluniau i'w cymeradwyo.
- Newidiadau i ffenestri WCG gyda dewisiadau awtomataidd misol.
- Gweithredwyd taliad gwaith daear ymlaen llaw, hyd at 15% o gyfanswm gwerth gwaith cyfalaf y Contract Creu Coetir cyn plannu.

Yn ystod y sesiwn gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a oedd rhaid i Awdurdodau Lleol gynhyrchu strategaethau coed o hyd. Nid yw'n ofynnol i Awdurdodau Lleol lunio strategaeth goed ar wahân ond gallant fod yn ffordd ddefnyddiol o gyflawni rhwymedigaethau ehangach a osodir ar awdurdodau lleol drwy Bolisi Cynllunio Cymru a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a chyfrannu at Strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PPW), paragraff 6.4.39 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried:
*pwysigrwydd coed a choetir, yn enwedig coetir brodorol a choed gwerthfawr, a dylent ystyried strategaethau coed neu ganllawiau cynllunio atodol yr awdurdod lleol a'r Asesiad o'r Seilwaith Gwyrdd. Dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu targedau canopi coed gofynnol sy'n briodol, yn berthnasol yn lleol ac y mae'n rhaid eu cyflawni o fewn amser penodol ar gyfer eu hardal er mwyn llywio gwaith diogelu a, lle bo angen, ymestyn y canopi coed.* Mae'r polisi yna yn cyfeirio at nifer o ddulliau y gallent eu defnyddio i'w helpu i sefydlu llinell sylfaen a gosod targedau canopi priodol a mesuradwy.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal asesiadau seilwaith gwyrdd fel rhan o'u cynlluniau datblygu ac ymateb yn unol â hynny, ac felly dylent ystyried coed a choetiroedd fel rhan o hyn. Mae swyddogion cynllunio yn cyfrannu at baratoi cynlluniau datblygu lleol gan gyfeirio, ymhlith pethau eraill, at y gofynion yn PPW a amlinellir uchod.

Yn ddiweddar, mae swyddogion wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ac wedi cyflwyno i rwydwaith o Gyfarwyddwyr Amgylchedd Awdurdodau Lleol. Bu Swyddogion yn trafod y dull presennol o blannu coed ac a oedd ganddynt strategaeth/dargedau plannu coed. Mae fy swyddogion wedi clywed yn ôl gan 12 Awdurdod Lleol (dros hanner hyd yn hyn) ac mae gan bob un ohonynt strategaethau coed neu / coetir, yn adnewyddu neu'n datblygu eu strategaeth neu mae'n rhan o'u cynllun gweithredu ehangach ar gyfer newid hinsawdd neu ddatgarboneiddio. Rydym yn casglu'r wybodaeth y mae Awdurdodau Lleol wedi'i rhoi i ni ac yn nodi sut y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud y mwyaf o gyfraniad Awdurdodau Lleol at blannu coed a chefnogi'n effeithiol gynnal a chadw'r coetiroedd sydd ganddynt eisoes.

**Deddf Aer Glan**

Cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran ymgysylltu a chyfathrebu ar y Ddeddf Aer Glân a sut rydym yn dysgu o'n gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ar newid hinsawdd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys ein rhaglen Gweithredu ar Newid Hinsawdd.

**Gweithredu ar Newid Hinsawdd**

Cafodd dull gweithredu ein rhaglen Gweithredu Hinsawdd Cymru ei lywio gan ymchwil a dadansoddi ymddygiadol helaeth. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed hyd yma wrth lunio'r fethodoleg y tu ôl i'r rhaglen ac wrth gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd gan adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd (Mehefin 2023), a oedd yn cydnabod bod Cymru gam ar y blaen i'r DU yn y maes hwn.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar annog pawb i chwarae eu rhan wrth fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gan leihau allyriadau carbon trwy newid ymddygiad sy'n gysylltiedig â dewisiadau ynni'r cartref, trafnidiaeth, bwyd a bwyta. Fodd bynnag, lle bo'n berthnasol, mae hefyd yn tynnu sylw at yr ystod o fuddion ychwanegol a ddaw yn sgil y camau hyn, megis aer glanach trwy ymddygiadau teithio mwy gwyrdd.

Mae'r cyfathrebu a ddarperir drwy Gweithredu ar Newid Hinsawdd hefyd yn enghraifft o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wneud gweithredu ar yr hinsawdd yn haws, yn fwy cyfleus a fforddiadwy. Mae’r gwaith hwn yn egluro sut mae'r polisïau hyn yn rhyng-gysylltiedig wrth ddarparu buddion eraill i iechyd a lles y cyhoedd, diogelu'r amgylchedd a natur, hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw.

Mae cwmpas y rhaglen yn ymestyn y tu hwnt i gyfathrebu ac mae hefyd yn annog y cyhoedd i gysylltu a'r rhaglen. Mae'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn esbonio sut mae'r ddwy agwedd hon yn gysylltiedig a phwysigrwydd darparu cyfleoedd cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu e.e. drwy Wythnos Hinsawdd Cymru ac ymgysylltu â'r gymuned allgymorth drwy'r Gronfa Sgyrsiau Hinsawdd. Os caiff pobl eu cynnwys mwy yn y penderfyniadau a wneir, byddant yn fwy tebygol o gymryd rhan mewn unrhyw weithredu. Hefyd, gall helpu pobl i ddeall pam mae’r newidiadau’n digwydd, a meithrin ymddiriedaeth yn y Llywodraeth.

Mae'r rhaglen yn darparu fframwaith cenedlaethol i Lywodraeth Cymru weithio ochr yn ochr â chyrff eraill y sector cyhoeddus, rhanbarthau a chymunedau, dylanwadwyr a lleisiau dibynadwy eraill i sicrhau dull cydgysylltiedig o gyfathrebu ac ymgysylltu cyhoeddus ar newid yn yr hinsawdd. Mae hefyd yn cynnwys casglu, dadansoddi a rhannu ymchwil ymddygiadol a chymdeithasol i sicrhau bod polisïau'r Llywodraeth yn seiliedig ar dystiolaeth, yn deg ac yn cyflawni canlyniadau buddiol i'r ddwy ochr dros yr hinsawdd, ansawdd aer, iechyd y cyhoedd, ac i gymunedau ac aelwydydd ledled Cymru.

Rydym yn cydnabod yr angen am ymgysylltiad clir a chadarnhaol â'r cyhoedd os ydym am gyflawni'r ymrwymiadau i gyflawni gwelliannau yn ansawdd yr aer a nodir yn ein Strategaeth Ansawdd Aer Genedlaethol i Gymru (a elwir hefyd yn Gynllun Aer Glân Cymru) ac yn Neddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Mae codi ymwybyddiaeth y cyhoedd am ansawdd aer yn hanfodol ac felly mae'r Ddeddf yn cynnwys dyletswydd newydd ar Weinidogion Cymru i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer. Rydym yn datblygu cynllun cyflawni sy'n nodi sut y byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau i iechyd pobl a'r amgylchedd naturiol sy'n gysylltiedig â llygredd aer, ynghyd â sut i leihau a ffrwyno llygredd aer. Mae hyn yn debygol o gynnwys camau sy'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o ansawdd aer lleol, yn ogystal â chamau gweithredu sydd â'r nod o leihau llygredd o gerbydau sy'n oedi a llosgi domestig. Mae galluogi'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus am effeithiau ansawdd aer gwael a'r mesurau lliniaru gofynnol yn hanfodol er mwyn hysbysu a newid agweddau ac ymddygiad y cyhoedd. Mae'r camau hyn yn bwysig wrth gyflawni'r newidiadau uchelgeisiol sydd eu hangen i wella ansawdd aer a chefnogi uchelgeisiau ehangach y llywodraeth, megis ar gyfer datgarboneiddio.

Fel rhan o'n camau i hyrwyddo ymwybyddiaeth o lygredd aer, rydym hefyd wedi parhau i gefnogi Diwrnod Aer Glân, a gynhaliwyd eleni ar 20 Mehefin. Fel ymgyrch llygredd aer fwyaf y DU, mae'n ddigwyddiad pwysig i ymgysylltu â'r cyhoedd a chodi ymwybyddiaeth o'r camau y gallant eu cymryd i wella ansawdd aer, er enghraifft defnyddio dulliau gwahanol o deithio ar gyfer teithio bob dydd.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**

Cytunais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith sy'n digwydd rhwng CNC ac asiantaethau eraill, a'r gwaith sy'n cael ei wneud ar sail amlasiantaeth ledled y DU o ran ymchwilio a mynd i'r afael â throseddu yn y diwydiant gwastraff, gweler Atodiad 1.

**Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth**

Cyhoeddais ddiweddariad ar yr Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth fel Datganiad Ysgrifenedig ar 25 Gorffennaf, y gellir ei weld yma: Datganiad Ysgrifenedig: Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth (25 Gorffennaf 2024) | LLYW.CYMRU

**Adolygiad o Ymagweddau Cynllunio Morol yng Nghymru**

Cytunais roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar Adolygiad Annibynnol o Ymagweddau Cynllunio Morol yng Nghymru.

Bydd yr adolygiad hwn yn ystyried sut gallwn ddatblygu ein fframwaith cynllunio morol ymhellach er mwyn darparu cyfeiriad gofodol gwell, gan gydbwyso cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy a diogelu'r amgylchedd morol. Fel rhan o hyn, bydd yr adolygiad yn ystyried dulliau cynllunio morol mewn mannau eraill i lywio ein dealltwriaeth o arfer da a chyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer cynllunio morol yng Nghymru.

Yn benodol, bydd yr adolygiad annibynnol yn:

- Asesu teilyngdod dulliau a gymerwyd gan gyfundrefnau cynllunio eraill (gan gynnwys cyfundrefnau cynllunio daearol a chyfundrefnau cynllunio morol eraill).
- Ystyried cyfleoedd a dulliau ar gyfer darparu mwy o eglurder a chyfeiriad gofodol drwy'r fframwaith cynllunio morol yng Nghymru.
- Ystyried opsiynau ar sut i adlewyrchu ystyriaethau amgylcheddol o fewn y fframwaith cynllunio morol; gan gynnwys cydbwyso datblygiad â diogelu'r amgylchedd morol, a chynllunio dulliau i helpu i gydnabod, diogelu a gwella bioamrywiaeth forol.
- Ystyried goblygiadau a chyfleoedd gweithio gyda mentrau cynllunio gofodol strategol ar lefel y DU.
- Asesu opsiynau ar gyfer cymryd dulliau cyffredin gydag ardaloedd cynllunio morol cyfagos yn y DU.
- Ystyried opsiynau ar gyfer hyrwyddo integreiddio cryfach â pholisi cynllunio daearol.
- Ystyried gofynion asesu tystiolaeth ac effaith sy'n gysylltiedig â darparu mwy o eglurder gofodol.

Yn amodol ar gaffael, rydym yn rhagweld y bydd yr adolygiad yn dechrau yn hydref 2024, gyda'r gwaith i'w gwblhau yng ngwanwyn 2025.

**Bwrdd Crwn Gweinidogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy**

Gofynnodd y Pwyllgor am gael rhestr o sefydliadau ar y bwrdd crwn Gweinidogion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'i is-grwpiau. Gellir gweld yr ymateb yn Atodiad 2.

**Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig**

Yn olaf, cytunais i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal ymwybyddiaeth o'r ymchwil a wnaed yn IBERS ac yn ymgysylltu â materion penodol fel y bo'n berthnasol. Mae cydweithwyr IBERS hefyd yn weithgar yn is-grŵp Cymru o'r Ganolfan Defnydd Tir a ariennir gan y Llywodraeth ar gyfer Pobl Sero Net a Natur (LUNZ) sydd â chylch gwaith i ddarparu mynediad cyflym at ganfyddiadau o'r ymchwil gorau sydd ar gael, sefydledig a newydd gan bartneriaid y consortiwm, gan gyfuno a rhannu gwybodaeth ar draws disgyblaethau mewn fformatau hygyrch. Yn fwy cyffredinol, rydym yn gweithio i wella ein hymgysylltiad rhagweithiol â Sefydliadau Ymchwil Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys IBERS.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs

**Atodiad 1**

# Gwaith amlasiantaeth Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â throseddau gwastraff

Lluniwyd y nodyn briffio mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am ddarparu dull gweithredu sy'n seiliedig ar risg o reoleiddio'r diwydiant gwastraff er mwyn sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol ar gyfer lles dynol ac amgylcheddol. Mae ein rôl mewn gwastraff yn hanfodol wrth gefnogi LlC i gyflawni eu nod strategol o sicrhau economi fwy cylchol yng Nghymru tra'n sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli'n briodol heb gael effaith ar iechyd pobl a'r amgylchedd.

Mae ein cyfrifoldebau yn eang ac yn cynnwys rheoleiddio safleoedd a gweithgareddau a ganiateir sy'n ymwneud â symud, storio, trin a gwaredu gwastraff, yn ogystal ag ymateb i ddigwyddiadau a chymryd camau gorfodi. Rydym yn ceisio cyflawni hyn yn uniongyrchol drwy gyflawni ein dyletswyddau rheoleiddio, gan ddefnyddio pwerau ac offer sydd ar gael fel y nodir mewn deddfwriaeth; ac yn anuniongyrchol drwy ymyriadau ehangach sy'n cefnogi cyflawni canlyniadau perthnasol, megis codi ymwybyddiaeth gyda chynhyrchwyr gwastraff i sicrhau eu bod yn cymryd camau i atafaelu, dosbarthu a rheoli eu gwastraff yn gyfrifol.

**Sut mae CNC yn gweithio ar sail amlasiantaeth i fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol**

Y llwybr mwyaf cyffredin ar gyfer adnabod troseddau gwastraff yw drwy adroddiadau gan y cyhoedd, diwydiant neu asiantaethau partner eraill. Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth droseddol ac yn asesu gwybodaeth busnes, e.e. data gwastraff o ffurflenni gweithredwyr, a all ein helpu i nodi troseddau gwastraff. Pan fyddwn yn ymchwilio ac yn canfod troseddau, rydym yn ystyried yr ymateb mwyaf cymesur i'r troseddu yn unol â'n Polisi gorfodi a sancsiynau a all amrywio o gyngor ac arweiniad i erlyniad, yn enwedig pan fo'r mater yn un difrifol.

Wrth ymchwilio i droseddau gwastraff mae CNC yn cydweithio ag ystod o bartneriaid gan gynnwys yr Heddlu, DVSA, Awdurdodau Lleol ac Awdurdod Cyllid Cymru. Mae gan CNC Swyddogion Heddlu ar secondiad o 3 o'r 4 Heddlu yng Nghymru (Dyfed Powys, Gwent a Gogledd Cymru) sy'n chwarae rhan bwysig wrth gael cefnogaeth i'n gweithredoedd i fynd i'r afael â throseddau gwastraff difrifol.

Mae CNC hefyd yn ymgysylltu â phartneriaethau amlasiantaethol gyda'r nod o fynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol ar lefelau Cymru, y DU ac yn Rhyngwladol:

- Mae CNC yn cymryd rhan weithredol yn Rhwydwaith Gwybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth (GAIN). Mae Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaeth y Llywodraeth yn gydweithrediad rhwng partneriaid gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau'r llywodraeth a phartneriaid sy'n gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throseddu difrifol ac wedi'u trefnu. Mae'r rhwydwaith yn amharu ar droseddoldeb trwy rannu gwybodaeth, cyfnewid gwybodaeth a gwneud gwaith ar y cyd. Trefnir grwpiau GAIN gan 9 Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol yr Heddlu (ROCU), ac mae ganddynt gynrychiolwyr hefyd yn yr Uned ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff.

- Mae swyddogion CNC yn mynychu cyfarfodydd amlasiantaethol dan arweiniad yr heddlu yn rheolaidd gyda'r cylch gwaith penodol o fynd i'r afael â throseddu trefnedig difrifol. Mae'n amlwg bod croesi llwybrau mewn meysydd troseddoldeb ac mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu i dargedu troseddwyr sydd o ddiddordeb i drawstoriad eang o bartneriaid.

- Mae CNC yn bartner gweithredol yn yr Uned ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff (JUWC) ac mae aelod o staff yng Nghymru yn y JUWC. Mae'r JUWC yn rhwydwaith cydweithredol o asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n gweithio i dargedu troseddwyr sy'n ymwneud â throseddau gwastraff difrifol wedi'u trefnu. Gall y JUWC helpu i gydlynu ymateb amlasiantaethol lle mae'n debygol mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon.

- Mae gweithgarwch troseddau gwastraff difrifol wedi'u trefnu yn cael eu hysgogi'n ariannol. Mae'r Uned Troseddau Economaidd yn fenter yn Lloegr yn unig a ariennir gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn CNC mae gennym Ymchwilydd Ariannol Achrededig (AFI) ar hyn o bryd sy'n cynnal ymchwiliadau ariannol sy'n ymwneud â gwastraff difrifol, a throseddau amgylcheddol eraill . Gall ein AFI weithredu trwy'r Llysoedd i rewi cyfrifon banc ac adennill buddion ariannol ymddygiad troseddol.

  Er mwyn mynd i'r afael ymhellach â'r budd ariannol troseddol sy'n deillio o weithgarwch anghyfreithlon, mae CNC yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) sy'n gyfrifol am gasglu a rheoli Treth Gwarediadau Tirlenwi (LDT) yng Nghymru.

  Fel rhan o'n perthynas waith agos, mae ACC wedi dirprwyo rhai swyddogaethau i CNC mewn perthynas â chasglu a rheoli LDT. Mae gan CNC dîm penodol sy'n gweithredu yn genedlaethol sy'n cael ei ariannu'n llawn drwy ACC, gan ganolbwyntio'n llwyr ar faterion LDT, gan weithio'n agos gydag ACC.

  Mae CNC ac ACC wedi datblygu Strategaeth ar y Cyd 3 blynedd (2023-2026) sy'n canolbwyntio ein partneriaeth ar ddau faes allweddol - mynd i'r afael ag osgoi talu treth (camddisgrifio gwastraff yn bennaf) a gwarediadau gwastraff heb awdurdod (gwarediadau a wneir ar safleoedd tirlenwi ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig).

  Gyda'n gilydd, rydym yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gweithredol parhaus gan gynnwys:

  - Prosiect camddisgrifio ar y cyd sydd hyd yma wedi nodi sawl pwynt yn y gadwyn wastraff lle gellir camddisgrifio gwastraff. Wrth symud ymlaen, bydd y prosiect yn

canolbwyntio ar ffyrdd o liniaru cyfleoedd ar gyfer camddisgrifio.

- Ymholiadau i gwmnïau safleoedd tirlenwi niferus sy'n cynnwys camddisgrifio gwastraff, lle bo hynny'n berthnasol bu CNC yn cefnogi'r gwaith hwn gyda chymorth ei dîm LDT a'i swyddogion rheoleiddio.

- Cyfeiriadau at Dîm Gwarediadau Awdurdodedig ACC o warediadau a allai fod yn anawdurdodedig.

Yn ogystal â'r uchod, mae CNC ac ACC hefyd yn cydweithio ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith ledled y DU i fynd i'r afael â throseddau gwastraff, gan gynnwys trwy'r JUWC a GAIN, fel y soniwyd uchod.

- Nid yw CNC yn ymwneud yn uniongyrchol â Gwasanaeth Gwybodaeth Cludo Gwastraff Asiantaeth yr Amgylchedd (EA). Mae 'Uned Cludo Gwastraff' Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio'n agos â chydweithwyr yn yr Asiantaeth yn ogystal ag Asiantaeth Diogelu'r Amgylchedd yr Alban (SEPA) ac Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon (NIEA) i wirio a sicrhau cydymffurfiaeth allforion gwastraff sy'n dod o Gymru. Hefyd, mae CNC yn adolygu gwybodaeth sydd ar gael ar wahân (gan gynnwys ffurflenni data safle gwastraff, adrodd am Lif Data Gwastraff ar gyfer Awdurdodau Lleol, archebion cargo trwy borthladdoedd Cymru) i nodi allforion risg uwch a thargedu ein gwiriadau / arolygiadau cydymffurfio yn unol â hynny.

  Pan nodir nad ydynt yn cydymffurfio / cludo gwastraff anghyfreithlon, mae CNC yn cymryd y camau angenrheidiol i ymchwilio a chymryd ymateb gorfodi priodol yn unol â'n polisïau. Gall allforion gwastraff anghyfreithlon hefyd ddod yn destun gorchymyn 'dychwelyd' am gost i'r partïon sy'n allforio cyfrifol a bydd CNC yn hwyluso hyn.

  Mae CNC wedi bod yn rhan o Rwydwaith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer Gweithredu a Gorfodi Cyfraith Amgylcheddol (IMPEL), sy'n rhwydwaith cydweithredol o reoleiddwyr Ewropeaidd ers 2015. Mae ein swyddogion yn rhan o Cludo Gwastraff ar Draws Ffiniau (TFS) IMPEL o grŵp Arbenigwyr Gwastraff ac yn defnyddio adnoddau IMPEL i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am sut mae gwledydd eraill yr UE / DU yn rheoleiddio Llwythi Gwastraff Rhyngwladol.

  Mae ein swyddogion Cludo Gwastraff wedi cymryd rhan mewn cyfnewidiadau swyddogion fel rhan o'r Prosiect Camau Gorfodi Cludo Gwastraff (SWEAP). Nod y prosiect, sy'n cael ei gydlynu gan IMPEL, yw tarfu ar y fasnach wastraff anghyfreithlon, trwy gynyddu cydweithredu a setiau sgiliau ymhlith arolygwyr ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

- Mae CNC hefyd yn cydlynu Rhaglen Weithredu Tipio Anghyfreithlon Cymru (FtAW) sy'n fenter bartneriaeth a noddir gan Lywodraeth Cymru. Un o rolau allweddol FtAW yw cefnogi gwaith gorfodi'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru drwy ddarparu hyfforddiant, cefnogaeth a rhannu arfer gorau mewn perthynas â gweithgareddau gwyliadwriaeth a gorfodi.

  Mae Gweithgor Gorfodi'r bartneriaeth yn cyfarfod bob dwy flynedd i rannu arfer gorau ac i drafod unrhyw dueddiadau neu faterion sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, mae presenoldeb yn cynnwys Swyddogion o Awdurdodau Lleol, CNC a'r Heddlu yn ogystal â chynrychiolwyr LlC.

  Mae tîm FtAW hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Atal Tipio Anghyfreithlon Cenedlaethol (NFTPG) dan gadeiryddiaeth DEFRA. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle

arall i'n rhybuddio am unrhyw fygythiadau sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â thipio anghyfreithlon a'n gwneud yn ymwybodol o unrhyw gysylltiadau â gangiau troseddol mwy trefnus sy'n gweithredu yn y maes hwn yn Lloegr a'r Alban.

Mae FtAW hefyd yn casglu a dilysu'r ystadegau tipio anghyfreithlon cenedlaethol ar ran Llywodraeth Cymru sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn. Caiff y data hwn ei fonitro i nodi unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran mathau o wastraff peryglus sy'n cael eu tipio'n anghyfreithlon.

Mae FtAW hefyd yn cynnal prosiect o'r enw FlyMapper sy'n galluogi cofnodi digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn ofodol ac sy'n cynnal ymgyrchoedd cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd sy'n anelu at addysgu deiliaid tai yng Nghymru am eu cyfrifoldebau Dyletswydd Gofal Gwastraff Cartref, sy'n helpu i atal gwastraff rhag mynd i ddwylo tipwyr anghyfreithlon.

- Mae prosiect Trechu Troseddau Gwastraff CNC yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n gweithio i ddatblygu a phrofi dulliau arloesol a all helpu i atal ac amharu ar droseddau gwastraff. Yn weithredol ar draws pob rhan o Gymru, rydym yn gweithio i ddarparu ymyriadau ar lawr gwlad, ac yn fwy tactegol i ddatblygu dulliau newydd a gwella gallu Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Er enghraifft, rydym yn:

  - Cynnal ymchwiliadau i droseddau gwastraff trawsffiniol.
  - Cymryd rhan mewn ymchwiliadau dan arweiniad yr Uned ar y Cyd ar gyfer Troseddau Gwastraff, a Heddlu Trafnidiaeth Prydain i fynd i'r afael â throseddau sy'n gysylltiedig â metel sgrap.
  - Cymryd rhan yn Nhasglu Cydymffurfiaeth Gwastraff y DU, dan arweiniad cyrff cynrychioliadol y Diwydiant Gwastraff sydd wedi ymrwymo i leihau troseddau gwastraff.
  - Cyflwyno dulliau gweithredu a all wella ein gallu i ganfod dangosyddion troseddau gwastraff, yn enwedig camddisgrifiadau.

**Atodiad 2**

**Aelodau'r grwpiau rhanddeiliaid**

| Partner | Y Ford Gron Weinidogol | Panel Adolygu Tystiolaeth ar Ddal Carbon | Gweithgorau Swyddogion |
|---|---|---|---|
| Afonydd Cymru | | | ✓ |
| Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth | ✓ | | ✓ |
| Coed Cadw | ✓* | | ✓ |
| Coed Cymru | | | ✓ |
| Comisiynydd y Gymraeg | | | ✓ |
| Confor | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar | | | ✓ |
| Cymdeithas Ganolog y Priswyr Amaethyddol | | | ✓ |
| Cymdeithas Genedlaethol y Defaid | | | ✓ |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | | | ✓ |
| Cymdeithas Milfeddygon Prydain (Cymru) | ✓ | | |
| Cymdeithas Proseswyr Cig Prydain | ✓ | | |
| Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad | ✓ | ✓ | ✓ |
| Cymdeithas y Ffermwyr Tenant | ✓ | | ✓ |
| Cymdeithas y Pridd | ✓* | ✓* | ✓ |
| Cynrychiolydd ffermwyr annibynnol | ✓ | ✓ | |
| Cynrychiolydd milfeddygon annibynnol | | | ✓ |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru | | | ✓ |
| Sefydliad DPJ | ✓ | | |
| Dŵr Cymru | | | ✓ |
| Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru | ✓ | | ✓ |
| GWCT Cymru | | | ✓ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Grŵp Cynghori ar Fywyd Gwyllt Ffermydd Cymru | | | ✓ |
| Grŵp Cynghrair Garddwriaeth Cymru | | | ✓ |
| Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru | ✓ | | ✓ |
| Hybu Cig Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |
| Hybu Cig Oen ac Eidion Cymru | ✓ | | ✓ |
| NFU Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |
| Rhwydwaith Ffermio Natur-Gyfeillgar | ✓ | ✓ | ✓ |
| Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy | | | ✓ |
| Tirweddau Cymru | | | ✓ |
| Undeb Amaethwyr Cymru | ✓ | ✓ | ✓ |
| WWF Cymru | | | ✓ |
| Ymddiriedolaethau Natur Cymru | ✓* | | ✓ |
| Ymddiriedolaeth Genedlaethol | | | ✓ |

*Hefyd yn cynrychioli Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL).

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Economy, Energy and Planning

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS a Llyr Gruffydd AS
Cadeiryddion
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad /
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Medi 2024

Annwyl Mike a Llyr,

Fel Cadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, hoffwn dynnu eich sylw at ddatganiad ysgrifenedig yr wyf wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar mewn perthynas â Deddf Seilwaith (Cymru) 2024.

Mae'r datganiad yn nodi manylion papur ymgynghori sydd wedi'i gyhoeddi yn ddiweddar ar ein cynigion ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth i weithredu'r Ddeddf.

Mae copi o'r datganiad ysgrifenedig yma:

Datganiad Ysgrifenedig: Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 - Cyhoeddi ymgynghoriad (20 Medi 2024) | LLYW.CYMRU

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio
Cabinet Secretary for Housing, Local Government and Planning

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth sy'n dod i law yn Gymraeg yn Gymraeg, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 10

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 11

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon